Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
34/2023
Dyddiad cyhoeddi:
25/04/2023

# Gwerthusiad o Seilwaith a Ariannwyd gan yr UE: Cam Tri

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-700-1

Oliver Chapman a Neil Evans, Hatch Regeneris

Adroddiad Ymchwil Llawn: Oliver Chapman a Neil Evans, Hatch Regeneris (2023). Gwerthusiad o Seilwaith a Ariannwyd gan yr UE: Cam Tri
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 34/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-seilwaith-ariannwyd-gan-yr-ue

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso,
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: RME.MAILBOX@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**


Tabl cynnwys ..... 1
Rhestr o'r tablau ..... 2
Rhestr o'r ffigurau ..... 4
Geirfa 8
1. Cyflwyniad ..... 9
2. Arolwg o deithwyr rheilffyrdd ..... 12
3. Arolygon o Feddianwyr Safleoedd ac Eiddo a Deorfeydd Busnes ..... 37
4. Dadansoddiad o Berfformiad Economaidd ..... 48
5. Cyflwyniad i'r Astudiaethau Achos ..... 71
6. Astudiaeth Achos Abertawe ..... 74
7. Astudiaeth Achos Port Talbot ..... 101
8. Astudiaeth Achos Blaenau Gwent ..... 122
9. Astudiaeth Achos Ynys Môn a Bangor ..... 144
10. Casgliadau ..... 161
Adran gyfeiriadau ..... 168

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 2.1: Gorsafoedd dechrau a diwedd y daith teithwyr ar reilffordd Cwm Ebwy ............... 16
Tabl 2.2: I ba raddau ydych chi'n cytuno â’r datganiadau a ganlyn ynghylch ailagor rheilffordd Cwm Ebwy? (canrannau) ........ 23
Tabl 2.3: Dechrau a diwedd teithiau'r ymatebwyr ........ 27
Tabl 2.4: Pe na bai newidiadau wedi’u gwneud yn Nhre-gŵyr, i ba raddau y byddech chi’n cytuno â’r datganiadau canlynol? ........ 35
Tabl 3.1: Faint o’r mathau canlynol o leoedd mae eich busnes yn eu prydlesu, os o gwbl? 39
Tabl 3.2: I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno gyda'r datganiadau canlynol am yr effaith a gafwyd ar eich busnes wrth symud i'ch eiddo presennol? ........ 42
Tabl 3.3: Pe na bai eich eiddo presennol wedi bod ar gael, yn eich barn chi, sut effaith fyddai hyn wedi'i gael ar bob un o'r canlynol? ........ 42
Tabl 4.1: Elfennau o newid mewn cynhyrchiant llafur, 2000-2019 ........ 54
Tabl 4.2: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul diwydiant, 2000 i 2018 (prisiau 2019) ........ 60
Tabl 4.3: Newid mewn gweithwyr fesul diwydiant, 2000-2008 ........ 65
Tabl 4.4: Newid mewn cyflogeion yn ôl diwydiant, 2009-2020 ........ 66
Tabl 5.1: Meintiau sampl ar gyfer yr arolygon o breswylwyr a busnesau ........ 73
Tabl 6.1: Buddsoddiadau mewn seilwaith yn Abertawe ........ 75
Tabl 6.2: Boddhad perswylwyr gyda gwahanol agweddau ar fyw yn Abertawe ........ 91
Tabl 6.3: Barn ar gynllunio a chydlynu buddsoddiadau seilwaith ac a oeddent yn ategu ei gilydd ........ 98
Tabl 7.1: Buddsoddiadau seilwaith ym Mhort Talbot ........ 102
Tabl 7.2: Boddhad gyda gwahanol agweddau ar fyw ym Mhort Talbot ........ 112
Tabl 7.3: Barn ar gynllunio a chydlynu buddsoddiadau seilwaith ac a oeddent yn ategu ei gilydd ........ 120
Tabl 8.1: Buddsoddiadau Seilwaith a ariannwyd gan ERDF ym Mlaenau Gwent ........ 123
Tabl 8.2: Boddhad gyda gwahanol agweddau ar fyw ym Mlaenau Gwent ........ 134
Tabl 8.3: Barn ar gynllunio a chydlynu buddsoddiadau seilwaith ac a oeddent yn ategu ei gilydd ........ 142
Tabl 9.1: Buddsoddiadau seilwaith a ariannwyd gan yr UE yn Ynys Môn a Bangor ........ 145
Tabl 9.2: Boddhad gyda gwahanol agweddau ar fyw yn Ynys Môn a Bangor ........ 152
Tabl 9.3: Barn ar gynllunio a chydlynu buddsoddiadau seilwaith ac a oeddent yn ategu ei gilydd ........ 159

Tabl 9.4: Enghreifftiau o sut y cynlluniwyd seilwaith i'w ddefnyddio mewn ffordd sy'n ategu seilwaith arall....162

**Rhestr o'r ffigurau**


Ffigur 2.1: Niferoedd yn cyrraedd ac yn gadael gorsafoedd ar reilffordd Cwm Ebwy, 2006/7-2020/21 ........ 13

Ffigur 2.2: Proffil oedran yr ymatebwyr ar reilffordd Cwm Ebwy ........ 14

Ffigur 2.3: Statws cyflogaeth ymatebwyr ar reilffordd Cwm Ebwy ........ 15

Ffigur 2.4: Dosbarthiad incwm yr ymatebwyr ar reilffordd Cwm Ebwy ........ 15

Ffigur 2.5: Beth yw prif reswm eich taith ar reilffordd Cwm Ebwy heddiw? ........ 17

Ffigur 2.6: Pa mor aml ydych chi'n cyflawni'r daith rydych chi arni heddiw? ........ 17

Ffigur 2.7: Pa mor fodlon ydych chi gyda'r gwasanaeth trên hwn? ........ 18

Ffigur 2.8: I ba raddau y gwnaeth y broses o ailagor y llinell reilffordd ddylanwadu ar eich penderfyniad i symud i'ch cyfeiriad presennol? ........ 19

Ffigur 2.9: Sut yr oeddech chi'n arfer cyflawni'r daith hon cyn i'r llinell rheilffordd ailagor? .. 20

Ffigur 2.10: Sut byddech chi wedi cyflawni'r daith hon pe na bai'r rheilffordd wedi ailagor? 20

Ffigur 2.11: Niferoedd yn cyrraedd/gadael gorsaf Tre-gŵyr, 2008/9-2020/21 ........ 24

Ffigur 2.12: Proffil oedran yr ymatebwyr yn Nhre-gŵyr ........ 25

Ffigur 2.13: Statws cyflogaeth ymatebwyr ar reilffordd Tre-gŵyr ........ 26

Ffigur 2.14: Dosbarthiad incwm yr ymatebwyr ar reilffordd Tre-gŵyr ........ 26

Ffigur 2.15: Beth yw prif reswm eich taith heddiw? ........ 28

Ffigur 2.17: Fedrwch chi gofio gwelliannau a wnaed i orsaf Tre-gŵyr yn 2013? ........ 29

Ffigur 2.18: Pa effaith mae'r newidiadau hynny wedi'i chael ar amledd eich defnydd o orsaf Tre-gŵyr? ........ 30

Ffigur 2.19: Beth fyddai'r effaith ar eich defnydd o orsaf Tre-gŵyr pe na bai gwelliannau wedi digwydd? ........ 32

Ffigur 2.20: Pa mor fodlon ydych chi gyda'r newidiadau a wnaed yn Nhre-gŵyr? ........ 32

Ffigur 2.21: Sut y byddech chi'n gwneud y daith heddiw pe na bai newidiadau wedi'u gwneud yn Nhre-gŵyr? ........ 33

Ffigur 3.1: Beth oedd y prif resymau fod eich busnes yn chwilio am eiddo newydd ar yr adeg y gwnaethoch symud? ........ 40

Ffigur 3.2: Beth oedd y rhesymau allweddol y gwnaethoch benderfynu symud i'ch eiddo presennol? ........ 40

Ffigur 3.3: Pe na bai'r eiddo presennol wedi bod ar gael, pa rai o'r datganiadau canlynol fyddech chi'n cytuno â nhw fwyaf? ........ 41

Ffigur 3.4: I ba raddau ydych chi'n cytuno fod eich eiddo presennol wedi cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel? ........ 43

Ffigur 3.5: Pa mor debygol ydych chi o argymell eich eiddo i fusnesau eraill? ........ 44

Ffigur 4.2: Newid wedi'i fynegeio mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen yn rhanbarthau Cymru (DU=100) ........ 50
Ffigur 4.3: Elfennau o newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen, 2000-2019 ........ 51
Ffigur 4.4: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi, 2000-2019 (prisiau 2019) ........ 53
Ffigur 4.5: Mynegai newid mewn swyddi ar gyfer gwledydd y DU, 2000-2019 ((2000=100) 55
Ffigur 4.6: Mynegai newid mewn swyddi ar gyfer rhanbarthau Cymru, 2000-2019 (2000 = 100) ........ 56
Ffigur 4.7: Dwysedd swyddi yng ngwledydd y DU, 2000-2020 ........ 57
Ffigur 4.8: Dwysedd swyddi yn rhanbarthau Cymru, 2000-2020 ........ 58
Ffigur 4.9: Newid wedi'i fynegeio mewn Gwerth Ychwanegol Gros go iawn, 2000-2019 (2000=100) ........ 59
Ffynhonnell: ONS (2021d). Mae'r data wedi'i lyfnhau gan ddefnyddio cyfartaleddau symudol tair blynedd ........ 59
Ffigur 4.10: Newid wedi'i fynegeio mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen (DU=100) ........ 61
Ffigur 4.11: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi, 2000-2019 (y DU = 100) ........ 62
Ffigur 4.12: Newid wedi'i fynegeio yng nghyfanswm swyddi, 2000-2020 ........ 63
Ffigur 4.13: Dwysedd swyddi, 2000-2020 ........ 67
Ffigur 4.14: Cyfradd diweithdra, 2004-2020 ........ 69
Ffigur 6.1: Lleoliad buddsoddiadau ERDF yng Nghlwstwr Abertawe ........ 77
Ffigur 6.2: Gweledigaeth wreiddiol ar gyfer SA1 ........ 80
Ffigur 6.3: Yr arwynebedd llawr yn SA1 (metr sgwâr), 2020 ........ 83
Ffigur 6.4: Golygfa o'r awyr o Gampws SA1 PCYDDS ........ 84
Ffigur 6.5: Boddhad preswylwyr gyda bywiogrwydd canol dinas Abertawe ........ 86
Ffigur 6.6: Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ym Marina Abertawe ........ 88
Ffigur 6.7: Y niferoedd a gyrhaeddodd/adawodd Gorsaf Drenau Abertawe, 1997-2020 ........ 88
Ffigur 6.8: Adeiladu Arena Abertawe a phont i gerddwyr a beicwyr ........ 90
Ffigur 6.9: Pwysigrwydd materion o gymharu â'r cydbwysedd net o ran a yw ymatebwyr sy'n fusnesau yn credu bod y mater yn gryfder neu'n wendid yn Abertawe ........ 92
Ffigur 6.10: Newid mewn boddhad gydag Abertawe fel lle i fyw (preswylwyr) neu i wneud busnes ynddo (busnesau) ........ 93
Ffigur 6.11: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Abertawe wedi newid? - preswylwyr ........ 93
Ffigur 6.12: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Abertawe wedi newid? - busnesau ........ 94

Ffigur 6.13: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Abertawe (preswylwyr) ........ 95
Ffigur 6.14: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Abertawe (busnesau) ........ 96
Ffigur 6.15: Pa rai o’r canlynol sydd wedi gwella o ganlyniad i fuddsoddiad seilwaith? ........ 97
Ffigur 7.1: Lleoliad buddsoddiadau ERDF yng Nghlwstwr Port Talbot ........ 103
Ffigur 7.2: Ffin Parc Ynni Baglan ........ 104
Ffigur 7.3: Map o Barc Ynni Baglan ac ardal ddatblygu Cam 1 ........ 107
Ffigur 7.4: Arwynebedd llawr busnes yn ardal datblygu Cam 1 Parc Ynni Baglan ........ 108
Ffigur 7.5: Proffil busnesau ym Mharc Ynni Baglan yn ôl diwydiant, 2021 ........ 109
Ffigur 7.6: Proffil y cyflogeion ym Mharc Ynni Baglan yn ôl diwydiant, 2020 ........ 110
Ffigur 7.7: Golygfa o Bentref Ymchwil a Datblygu Glannau'r Harbwr ........ 111
Ffigur 7.8: Pwysigrwydd ffactorau gwahanol o gymharu ag a yw hwn yn gryfder neu'n wendid ym Mhort Talbot ........ 113
Ffigur 7.9: Newid mewn boddhad â Phort Talbot fel lle i fyw neu i weithio ........ 114
Ffigur 7.10: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Bort Talbot wedi newid? - preswylwyr 115
Ffigur 7.11: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Bort Talbot wedi newid? - busnesau .. 116
Ffigur 7.12: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Bort Talbot - preswylwyr ........ 117
Ffigur 7.13: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Bort Talbot - busnesau ........ 118
Ffigur 7.14: Pa rai o’r canlynol sydd wedi gwella o ganlyniad i fuddsoddiad seilwaith? ........ 119
Ffigur 8.1: Lleoliad buddsoddiadau ym Mlaenau Gwent ........ 125
Ffigur 8.2: Gwaith Dur Glyn Ebwy, yn y 1970au ........ 126
Ffigur 8.3: Cynllun defnydd tir ar gyfer Y Gweithfeydd, Glynebwy ........ 127
Ffigur 8.4: Ffordd Gebl Glynebwy sy'n cysylltu Y Gweithfeydd â chanol tref Glynebwy ........ 129
Ffigur 8.5: A yw eich barn ar fywiogrwydd canol y dref wedi newid yn ystod y deng mlynedd diwethaf? ........ 133
Ffigur 8.6: Pwysigrwydd ffactorau gwahanol o gymharu ag a yw hwn yn gryfder neu'n wendid ym Mlaenau Gwent yn ôl busnesau ........ 135
Ffigur 8.7: Newid mewn boddhad â Blaenau Gwent fel lle i fyw neu i weithio ........ 136
Ffigur 8.8: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Flaenau Gwent wedi newid? - preswylwyr ........ 137
Ffigur 8.9: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Flaenau Gwent wedi newid? - busnesau ........ 138

Ffigur 8.10: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Flaenau Gwent - preswylwyr ........ 139
Ffigur 8.11: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Flaenau Gwent - busnesau ........ 140
Ffigur 8.12: Pa rai o’r canlynol sydd wedi gwella o ganlyniad i fuddsoddiad seilwaith? ..... 141
Ffigur 9.1: Lleoliad buddsoddiadau seilwaith a ariannwyd gan yr UE yn Ynys Môn a Bangor ........ 146
Ffigur 9.2: Pont y Porth Celtaidd yng Nghaergybi ........ 149
Ffigur 9.3: Niferoedd y teithwyr blynyddol rhwng Caergybi a Dulyn, 1998-2020 ........ 150
Ffigur 9.4: Pwysigrwydd ffactorau gwahanol o gymharu ag a yw hwn yn gryfder neu'n wendid yn Ynys Môn a Bangor yn ôl busnesau ........ 153
Ffigur 9.5: Newid mewn boddhad gydag Ynys Môn a Bangor ........ 154
Ffigur 9.6: A yw'r agweddau hyn ar Ynys Môn a Bangor wedi gwaethygu neu wella yn ystod y deng mlynedd diwethaf? - preswylwyr ........ 154
Ffigur 9.7: A yw'r agweddau hyn ar Ynys Môn a Bangor wedi gwaethygu neu wella yn ystod y deng mlynedd diwethaf? - busnesau ........ 155
Ffigur 9.8: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Ynys Môn a Bangor - preswylwyr ........ 156
Ffigur 9.9: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Ynys Môn a Bangor - busnesau ........ 157
Ffigur 9.10: Pa rai o’r canlynol sydd wedi gwella o ganlyniad i fuddsoddiad seilwaith? ..... 158

**Geirfa**

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| AAM | Anglesey Aluminium Metal |
| BP | British Petroleum |
| CAST | Canolfan Uwch Dechnoleg Meddalwedd |
| CBS BG | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| CBS CNPT | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| CCA | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| CDU | Cynllun Datblygu Unedol |
| CDdEF | Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr |
| CGC | Cynllun Gofodol Cymru |
| CNPT | Castell-nedd Port Talbot |
| ERDF | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| EVIC | Canolfan Arloesi Glynebwy |
| ITL | Lefel Diriogaethol Ryngwladol |
| NDEC | Y Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol |
| ONS | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| ORR | Y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd |
| PCYDDS | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| PDBG | Parth Dysgu Blaenau Gwent |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| SMDL | St Modwen Developments Ltd |
| SPECFIC | Y Ganolfan Beirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol |
| TEN-T | Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd |
| TGCh | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| VOA | Asiantaeth y Swyddfa Brisio |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi penodi Hatch, OB3, Prifysgol Caerdydd a Beaufort Research i gynnal gwerthusiad o seilwaith a ariannwyd gan yr UE yng Nghymru a gafodd gyllid yn ystod cyfnodau rhaglenni 2000-2006 a 2007-2013.

1.2 Mae'r angen am y prosiect hwn wedi deillio o'r bylchau yng ngwybodaeth WEFO a Llywodraeth Cymru am sut y mae seilwaith a ariannwyd gan yr UE yn cael ei ddefnyddio, sut y mae gwahanol fathau o fuddsoddiad wedi ategu ei gilydd a'r cyfraniad economaidd y mae hyn wedi'i wneud i wahanol rannau o Gymru.

1.1 Mae tri nod penodol i'r astudiaeth:

- Ymchwilio i'r defnydd a wneir o'r seilwaith newydd/gwell a sut mae'n cael ei gynnal a'i gadw;
- Ymchwilio i weld a yw'r seilwaith newydd a gwell o fewn rhanbarthau Cymru yn gweithio gyda'i gilydd, ac os felly, sut y mae'n gwneud hyn er budd y rhanbarth o ran yr economi leol, y preswylwyr a busnesau;
- Ystyried ymarferoldeb cynnal gwerthusiad o effaith y seilwaith a nodi'r dulliau a argymhellir i wneud hynny.

1.2 Mae'r astudiaeth yn cwmpasu'r ddau gyfnod rhaglen blaenorol:

- Rhaglen Amcan 1 ac Amcan 2 a Rhaglenni Trosiannol 2000-06
- Rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd[1] a Rhanbarth Cystadleurwydd Dwyrain Cymru[2] 2007-13 ERDF.

1.3 Roedd y ddwy raglen yn cefnogi prosiectau seilwaith ledled Cymru, er bod y dull gweithredu a maint y buddsoddiad wedi newid dros amser. Mae'r prif fathau o fuddsoddiad mewn seilwaith yn y ddwy raglen wedi cynnwys y canlynol:

- Seilwaith digidol
- Seilwaith dysgu (e.e. campysau Addysg Bellach)
- Cyfleusterau Ymchwil ac Arloesi
- Safleoedd ac eiddo
- Seilwaith twristiaeth
- Seilwaith trafnidiaeth

1.4 Nid yw'r astudiaeth yn ystyried mathau eraill o fuddsoddiad mewn seilwaith gan gynnwys seilwaith ynni, amddiffynfeydd rhag llifogydd neu'r amgylchfyd cyhoeddus (e.e. buddsoddi mewn canol trefi).

### Camau gwerthuso

1.5 Mae'r gwaith ymchwil yn cael ei gynnal mewn nifer o gamau:

[1] Y Gorllewin a'r Cymoedd: Rhaglen weithredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) 2007 i 2013

[2] Y Dwyrain: Rhaglen weithredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) 2007 i 2013

- Cam 1: yn ystod y cam hwn cynhaliwyd ymarfer mapio cychwynnol o fuddsoddiadau mewn seilwaith gan adolygu'r data monitro a'r dystiolaeth werthuso sydd ar gael. Defnyddiwyd y canfyddiadau i nodi dull gwerthuso manylach.
- Cam 2: roedd hyn yn cynnwys ymarfer mapio manwl o sut y mae cyllid yr UE wedi'i fuddsoddi mewn seilwaith economaidd a gwerthusiad o sut y mae'n cael ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw (gan ymateb i'r nod gwerthuso cyntaf). Adroddwyd ar y canfyddiadau mewn adroddiad Cam 2 (Hatch Regeneris, 2018).
- Cam 3: prif nod y cam hwn yw ymchwilio i weld a yw'r seilwaith newydd a gwell o fewn rhanbarthau Cymru yn gweithio gyda'i gilydd, ac os felly, sut y mae'n gwneud hyn er budd y rhanbarth o ran yr economi leol, y preswylwyr a busnesau (gan ymateb i'r ail nod gwerthuso);
- Cam 4: bydd y cam hwn yn ystyried ymarferoldeb cynnal gwerthusiad o effaith seilwaith ac yn nodi'r dulliau a argymhellir i wneud hynny (gan ymateb i'r trydydd nod gwerthuso).

**Diben yr adroddiad hwn**

1.6 Mae dau brif ddiben i'r adroddiad hwn:

- Cyflwyno'r canfyddiadau allweddol o nifer o arolygon defnyddwyr seilwaith. Mae hyn yn ymateb i'r nod gwerthuso cyntaf ac yn adeiladu ar ganfyddiadau adroddiad Cam 2, drwy ddarparu tystiolaeth ar y prif fuddion i ddefnyddwyr ac i ba raddau y mae'r rhain yn fuddion (h.y. a allent fod wedi digwydd heb y buddsoddiad).
- Ymchwilio i weld a yw'r seilwaith newydd a'r seilwaith sydd wedi'i wella o fewn rhanbarthau Cymru yn gweithio gyda'i gilydd, ac os felly, sut y mae'n gwneud hyn er budd y rhanbarth o ran yr economi leol, y preswylwyr a busnesau (gan ymateb i'r ail nod gwerthuso); Archwiliwyd hyn drwy astudiaethau achos mewn pedair ardal (Ynys Môn a Bangor, Blaenau Gwent, Port Talbot ac Abertawe). Canfu ymarfer mapio a gynhaliwyd yn ystod Cam 2 fod pob un o'r pedair ardal hon wedi cael cryn dipyn o fuddsoddiad ERDF mewn seilwaith.

1.7 Mae'r tasgau ymchwil allweddol wedi cynnwys y canlynol:

- Arolygon o ddefnyddwyr seilwaith a ariannwyd gan ERDF, gan gynnwys teithwyr rheilffordd, meddianwyr safleoedd ac eiddo a chyfleusterau deori neu weithfannau a reolir.
- Dadansoddiad o setiau data economaidd-gymdeithasol i adolygu tystiolaeth o newid economaidd ym mhedwar rhanbarth Cymru a phob un o ardaloedd yr astudiaethau achos.
- Pedair astudiaeth achos yn yr ardaloedd a restrir uchod. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiadau o ddogfennau, ymgyngoriadau â rhanddeiliaid ac arolygon o breswylwyr a busnesau lleol. Rhoddir eglurhad manylach o'r dull ym Mhennod 5.

### Strwythur yr adroddiad

1.8 Mae dwy ran i'r adroddiad:

- Mae Penodau 2 a 3 yn darparu canfyddiadau allweddol arolygon defnyddwyr seilwaith (gan ymateb i'r nod gwerthuso cyntaf)
- Mae Penodau 4 i 10 yn ymateb i'r ail nod gwerthuso, gan gynnwys
    - Dadansoddiad o newid economaidd yn y rhanbarthau ac ardaloedd yr astudiaethau achos, ac a oes tystiolaeth o gydgyfeirio o fewn Cymru ac o ran cyfartaledd y DU (Pennod 4)
    - Cyflwyniad i'r astudiaethau achos, wedi'i ddilyn gan yr astudiaethau achos eu hunain (Penodau 5 i 9)
    - Ein casgliadau mewn ymateb i nod y gwerthusiad (Pennod 10)

## 2. Arolwg o deithwyr rheilffyrdd

### Cyflwyniad

2.1 Mae’r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau arolygon o deithwyr rheilffyrdd a gynhaliwyd ar ddwy ran o reilffyrdd sydd wedi cael buddsoddiad ERDF:

- Rheilffordd Cwm Ebwy (rhwng Tref Glynebwy a Chaerdydd Canolog): cafodd hyn fuddsoddiad o dan raglen 2000-06 (grant ERDF o £7.3 miliwn a chyfanswm buddsoddiad o £25.8 miliwn) a rhaglen 2007-13 (rhan o Raglen Cryfhau Rheilffyrdd y Cymoedd)
- Rheilffordd Gorllewin Cymru (rhwng Caerfyrddin ac Abertawe), gan ganolbwyntio’n gyfan gwbl ar deithwyr a ddechreuodd neu a orffennodd eu teithiau yng Ngorsaf Tre-gŵyr, a gafodd gyllid ERDF o £13.0 miliwn o dan raglen 2007-13 (cyfanswm o £24.2 miliwn  fuddsoddiad).

2.2 Pwrpas yr arolygon hyn oedd asesu boddhad defnyddwyr â gwasanaethau rheilffyrdd newydd neu wasanaethau rheilffyrdd y gwnaed gwelliannau iddynt ac i ba raddau y mae hyn wedi arwain at newid dulliau teithio, gwell mynediad at gyflogaeth ac atyniad gweithwyr i leoliadau preswyl a wasanaethir gan wasanaethau newydd.

Dull a chyfyngiadau

2.3 Dewiswyd y ddwy reilffordd ar y sail mai dyma’r ddau fuddsoddiad mwyaf a ariannwyd gan ERDF mewn seilwaith rheilffyrdd, ac oherwydd eu bod ill dau’n ymwneud â newid sylweddol i’r seilwaith rheilffyrdd y gallai defnyddwyr ei gofio er i hynny ddigwydd amser maith yn ôl.

2.4 Cynhaliwyd yr arolygon gan ddefnyddio holiaduron hunanlenwi, a ddosbarthwyd ac a gwblhawyd gan oedolion ar wasanaethau trên ar gyfnodau brig (dyddiau'r wythnos rhwng 7am a 9am a rhwng 5pm a 7pm), a dychwelwyd yr holiaduron wedi'u cwblhau yn ystod y daith.

2.5 Roedd sampl targed yr arolygon yn 600 ar draws y ddwy reilffordd.  Rhagorwyd ar hyn ond roedd y sampl yn gogwyddo tuag at reilffordd Cwm Ebwy oherwydd y gyfran lawer uwch o deithwyr a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn yr arolwg:

- Rheilffordd Cwm Ebwy: cynhaliwyd 559 o holiaduron
- Tre-gŵyr: cwblhawyd 559 o holiaduron

2.6 Cynhaliwyd yr arolygon ym mis Tachwedd a dechrau Rhagfyr 2021, cyfnod pan oedd rhai cyfyngiadau mewn grym o hyd gan gynnwys gwisgo masgiau, cadw pellter cymdeithasol a chyngor swyddogol i weithio gartref os yn bosibl.  Mae hyn yn golygu bod risg nad yw'r sampl yn gynrychioliadol (e.e. cynrychiolaeth annigonol o weithwyr swyddfa sy'n ei chael yn haws gweithio gartref).

### Rheilffordd Cwm Ebwy

Crynodeb o'r buddsoddiad


2.7 Galluogodd y buddsoddiad yn Rheilffordd Cwm Ebwy o dan raglen 2000-06 i wasanaethau teithwyr gael eu hadfer ar reilffordd yr arferwyd ei defnyddio i gludo nwyddau i waith dur Glynebwy.  Roedd y gwasanaeth yn gweithredu i ddechrau

rhwng Parcffordd Glynebwy a Chaerdydd Canolog ac ail-agorwyd gorsafoedd yn Llanhiledd, Trecelyn, Crosskeys, Rhisga a Phontymister, a Thŷ-du.  Galluogodd y buddsoddiad yn ystod rhaglen 2007-13 i orsafoedd newydd gael eu hychwanegu at y rheilffordd, gan gynnwys Pye Corner ym mis Rhagfyr 2014 a Thref Glynebwy ym mis Mai 2015.

Defnydd

2.8 Dengys Ffigur 2.1 fod 650,000 o bobl wedi cyrraedd/gadael y gorsafoedd a ail-agorwyd yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf ar ôl eu hagor (2008/9).  Roedd hyn wedi codi i 860,000 erbyn 2019/20 cyn i'r pandemig Covid arwain at ostyngiad mawr yn y defnydd yn 2020/21.

**Ffigur 2.1: Niferoedd yn cyrraedd ac yn gadael gorsafoedd ar reilffordd Cwm Ebwy, 2006/7-2020/21**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd (ORR), 2022

**Nodweddion Demograffig**


Rhywedd

2.9 Roedd 42% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn wrywod, 51% yn fenywod a 2% yn y categori arall.  Ni wnaeth y 5% arall ateb y cwestiwn neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud.

Proffil oedran

2.10 Roedd 39% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed.  Mae'r grŵp oedran hwn yn cyfrif am ddim ond 11% o boblogaeth De-ddwyrain Cymru (ONS, 2021e) sy'n awgrymu bod y rheilffordd yn cael ei defnyddio'n anghymesur gan bobl ifanc.

**Ffigur 2.2: Proffil oedran yr ymatebwyr ar reilffordd Cwm Ebwy**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen[3]: yr holl ymatebwyr (559)

Statws cyflogaeth


2.11 Roedd 57% o'r ymatebwyr yn gyflogedig (gan gynnwys 40% a oedd yn gweithio'n llawn amser, 13% yn gweithio'n rhan amser a 4% yn hunangyflogedig). Mae hyn yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer De-ddwyrain Cymru (mae 58% o oedolion dros 16 oed mewn cyflogaeth[4]). Roedd 17% o'r ymatebwyr yn fyfyrwyr, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol (10%[5]) ac yn adlewyrchu'r nifer fawr o bobl ifanc sydd wedi'u cynnwys yn y sampl.

[3]Rydym yn defnyddio'r term 'sylfaen' drwy'r adroddiad cyfan i ddisgrifio maint a nodweddion sampl yr arolwg y mae'r canrannau'n seiliedig arnynt.

[4] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2021)

[5] Daw hyn o Gyfrifiad 2011 ac felly mae wedi dyddio ers sawl blwyddyn

**Ffigur 2.3: Statws cyflogaeth ymatebwyr ar reilffordd Cwm Ebwy**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (559)

Incwm

2.12 Nid oedd traean o bobl yn dymuno datgelu eu hincwm sy'n ei gwneud yn anodd cymharu â chyfartaleddau rhanbarthol. O blith y rhai a nododd eu hincwm (66%) roedd cyfran fawr yn ennill llai na £30,000 y flwyddyn.

**Ffigur 2.4: Dosbarthiad incwm yr ymatebwyr ar reilffordd Cwm Ebwy**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (559)

Cyflwr iechyd

2.13 Dywedodd 27% o'r ymatebwyr fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol hirdymor o gymharu â 60% a ddywedodd nad oes ganddynt gyflwr iechyd o'r fath. Y

rhai mwyaf cyffredin oedd cyflyrau iechyd meddwl (14%), ac yna symudedd/medrusrwydd a stamina neu brinder anadl (y ddau yn 5%).

**Patrymau defnydd**

Dechrau/Diwedd y Daith

2.14 Roedd 40% o'r teithwyr a holwyd wedi camu ar y trên yn un o'r ddwy orsaf yng Nglynebwy (ni nododd 11% o'r teithwyr pa un). Roedd y gorsafoedd cyffredin eraill yn cynnwys Caerdydd[6] (12%), Trecelyn (12%) a Llanhiledd (11%). Caerdydd neu Gaerdydd Canolog oedd y cyrchfannau mwyaf cyffredin o bell ffordd, gan gyfrif am ychydig yn llai na dwy ran o dair o'r ymatebwyr.

**Tabl 2.1: Gorsafoedd dechrau a diwedd y daith teithwyr ar reilffordd Cwm Ebwy**

| | Gorsaf dechrau'r daith | Gorsaf diwedd y daith |
|---|---|---|
| Tref Glynebwy | 21% | 4% |
| Caerdydd / Caerdydd Canolog | 12% | 65% |
| Trecelyn | 12% | 3% |
| Glynebwy (amhenodol) | 11% | 2% |
| Llanhiledd | 11% | 4% |
| Parcffordd Glynebwy | 8% | 2% |
| Crosskeys | 6% | 5% |
| Rhisga a Phontymister | 5% | 3% |
| Pye Corner | 4% | 4% |
| Tŷ-du | 3% | 2% |
| Eraill | 2% | 1% |
| Heb nodi | 5% | 5% |

Ffynhonnell Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (559)


Pwrpas y Daith

2.15 Siopa oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros ddefnyddio rheilffordd Cwm Ebwy, a nodwyd hynny gan 40% o'r ymatebwyr. Roedd hamdden/chwaraeon (16%)yn ail ac yna teithio i'r gweithle ac yn ôl (14%).[7], mynd i'r ysgol neu'r coleg ac ymweld â ffrindiau a theulu (10% ar gyfer y ddau).

[6] Holiadur hunanlenwi oedd hwn, felly ysgrifennodd llawer o ymatebwyr 'Caerdydd' heb nodi pa orsaf, ac ysgrifennodd eraill 'Caerdydd Canolog'.

[7] Fel y nodwyd yn yr adran ragarweiniol, efallai nad yw hyn yn cynrychioli'r defnydd arferol o drenau gan fod yr arolwg wedi'i gynnal pan oedd Llywodraeth Cymru yn cynghori pobl i weithio gartref.

**Ffigur 2.5: Beth yw prif reswm eich taith ar reilffordd Cwm Ebwy heddiw?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (559)

Amlder y defnydd

2.16 Roedd cyfran uchel o'r ymatebwyr yn defnyddio rheilffordd Cwm Ebwy yn aml; roedd 36% yn defnyddio'r trên o leiaf unwaith yr wythnos a 56% yn ei ddefnyddio o leiaf unwaith y mis.

**Ffigur 2.6: Pa mor aml ydych chi'n cyflawni'r daith rydych chi arni heddiw?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (559)

Lefelau boddhad

2.17 Mae lefelau boddhad gyda'r gwasanaeth yn uchel iawn. Dywedodd 84% o bobl eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dywedodd 55% eu bod yn fodlon iawn gydag ef.

**Ffigur 2.7: Pa mor fodlon ydych chi gyda'r gwasanaeth trên hwn?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (559)

**Effeithiau ailagor gwasanaethau teithwyr ar Reilffordd Cwm Ebwy**

Dewis o leoliad preswyl

2.18 Gofynnwyd i deithwyr nad oeddent yn byw yn eu cyfeiriad presennol cyn i Reilffordd Cwm Ebwy gael ei hailagor (n=178) a oedd y gwasanaethau wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i symud i'w cyfeiriad presennol. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos mai dim ond i leiafrif bach o ymatebwyr yr oedd y ffactor hwn yn bwysig. Dywedodd 3% mai dyma'r prif ffactor a dywedodd 11% ei fod yn un ymhlith nifer o ffactorau pwysig. Dywedodd 68% nad oedd yn ffactor o gwbl.

**Ffigur 2.8: I ba raddau y gwnaeth y broses o ailagor y llinell reilffordd ddylanwadu ar eich penderfyniad i symud i'ch cyfeiriad presennol?**





Ffynhonnell: Beaufort Research.  Sylfaen: yr holl ymatebwyr a symudodd i gyfeiriad gwahanol ers i'r rheilffordd ailagor (178)

Newid dull teithio / Dewisiadau cynaliadwy

2.19 Mae tystiolaeth dda bod ailagor rheilffordd Cwm Ebwy wedi arwain at ddewisiadau teithio mwy cynaliadwy.  Dywedodd 37% o'r ymatebwyr (207) eu bod yn arfer cyflawni'r un daith yn rheolaidd cyn i'r rheilffordd gael ei hailagor gan ddefnyddio math gwahanol o drafnidiaeth.  O blith y rhain, dywedodd 45% eu bod wedi cyflawni'r daith gyfan mewn car (fel gyrrwr neu deithiwr).  Roedd 25% yn arfer defnyddio car i gyrraedd gorsaf arall.  Dim ond 25% a oedd wedi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y daith gyfan.

2.20 Y prif fuddion a nodwyd gan y rhai a oedd wedi newid o'u dull teithio blaenorol oedd ei fod yn gyflymach na'r dewis arall blaenorol (54%), yn fwy cyfforddus (23%), yn rhatach (21%) ac yn fwy caredig i'r amgylchedd (17%).


**Ffigur 2.9: Sut yr oeddech chi'n arfer cyflawni'r daith hon cyn i'r llinell rheilffordd ailagor?**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: y rhai a oedd yn gwneud y daith yn rheolaidd gan ddefnyddio dull teithio arall cyn i'r rheilffordd ailagor (207)

2.21 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny nad oeddent yn cyflawni'r daith yn rheolaidd cyn i'r rheilffordd ailagor (n=352) sut y byddent yn gwneud y daith pe na bai gwasanaethau teithwyr wedi'u cyflwyno. Canfu hyn y byddai 34% o bobl wedi cyflawni'r daith gyfan mewn car (fel gyrrwr, teithiwr neu mewn tacsi) a byddai 24% arall wedi teithio mewn car i orsaf wahanol ac yna wedi camu ar y trên. Byddai 25% wedi defnyddio dulliau teithio cynaliadwy (beicio/bws/trên).

**Ffigur 2.10: Sut byddech chi wedi cyflawni'r daith hon pe na bai'r rheilffordd wedi ailagor?**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: y rhai nad oeddent yn cyflawni'r daith hon yn rheolaidd cyn i'r rheilffordd ailagor (352)

Dadleoli[8]

2.22 Dengys Ffigur 2.9Ffigur 2.9 a Ffigur 2.10Ffigur 2.10 fod rhwng 30 a 33 y cant o’r ymatebwyr wedi dweud y byddent wedi cyflawni'r daith drwy deithio i orsaf arall pe na bai’r rheilffordd wedi ailagor. Mae hyn yn awgrymu bod tua thraean o'r cynnydd mewn defnydd wedi'i ddadleoli o linellau eraill. Pan ofynnwyd pa orsafoedd yr oeddent yn arfer eu defnyddio, neu y byddent wedi’u defnyddio:

- Roedd 28% o'r rhai a arferai gyflawni'r daith hon ar drên yn teithio o Rhymni a 25% yn teithio o Gasnewydd. Roedd hyn yn llawer mwy nag unrhyw orsaf arall.
- O blith y rhai nad oeddent yn cyflawni'r daith yn y gorffennol, ond a ddywedodd y byddent wedi teithio ar y trên pe na bai’r rheilffordd wedi ailagor, dywedodd 18% y byddent wedi teithio drwy Gasnewydd a 12% drwy Rymni.

2.23 Mae’n debygol bod y dadleoliad yn llai na 30% mewn gwirionedd oherwydd dywedodd nifer o ymatebwyr y byddent wedi teithio o orsafoedd a gafodd eu hailagor dim ond o ganlyniad i’r prosiect a ariannwyd gan ERDF. Er enghraifft, dywedodd 15% o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi cyflawni'r daith ar y trên yn flaenorol eu bod yn teithio o Lynebwy, Tŷ-du neu Pye Corner. Fodd bynnag, dim ond ar ôl buddsoddi yn rheilffordd Cwm Ebwy y cafodd y gorsafoedd hyn eu hagor.

Mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a rhwydweithiau cymorth

2.24 Gofynnwyd i’r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â nifer o ddatganiadau ynghylch yr effaith ar eu gwaith a’u bywydau personol pe na bai rheilffordd Cwm Ebwy wedi’i hailagor i deithwyr.

2.25 Awgryma Tabl 2.2Tabl 2.2 fod rheilffordd Cwm Ebwy wedi sicrhau nifer o fuddion cymdeithasol ac economaidd i ddefnyddwyr:

- Byddai tuag 1 o bob 4 o bobl yn ei chael hi'n fwy anodd cyrraedd y gweithle. Roedd 21% yn cytuno na fyddent yn gallu cyrraedd eu gweithle presennol, ac roedd 28% yn cytuno y byddai'n fwy anodd.
- Mae ailagor y rheilffordd wedi bod o fudd arbennig o ran rhoi mynediad i bobl ifanc at gyflogaeth; roedd 29% yn cytuno na fyddent yn gallu cyrraedd eu gweithle a 39% yn cytuno y byddai'n fwy anodd gwneud hynny. Mae hyn yn llawer uwch nag ymhlith unrhyw grŵp oedran arall.
- Byddai effaith fawr ar fynediad at gyfleoedd hamdden. Roedd 43% yn cytuno na fyddent yn gallu cael mynediad at amrywiaeth mor eang o gyfleoedd hamdden.
- Roedd 31% yn cytuno na fyddent yn gallu ymweld â ffrindiau na theulu a 40% yn cytuno na fyddent yn gallu gwneud hyn heb ddefnyddio'r car.
- Roedd 18% yn cytuno na fyddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd na mynychu apwyntiadau. Mae hyn yn cynyddu i 30% ar gyfer yr ymatebwyr hynny â chyflwr iechyd.

[8] Yn y cyd-destun hwn mae hyn yn cyfeirio at unrhyw gynnydd yn y defnydd o drenau ar reilffordd Cwm Ebwy a ddeilliodd o leihad yn y defnydd o drenau ar reilffyrdd eraill.

- Byddai 16% yn cyflawni llai o deithiau oherwydd diffyg symudedd, gan gynyddu i 31% ar gyfer y rhai â chyflwr iechyd.

**Tabl 2.2: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau a ganlyn ynghylch ailagor rheilffordd Cwm Ebwy? (canrannau)**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod / ddim yn berthnasol | Heb nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ni fyddwn yn gallu cyrraedd fy ngweithle presennol | 17% | 6% | 9% | 3% | 18% | 43% | 4% |
| Byddai'n fwy anodd cyrraedd fy ngweithle presennol | 21% | 7% | 6% | 2% | 15% | 44% | 4% |
| Ni fyddwn i'n gallu gweithio cynifer o oriau | 13% | 5% | 10% | 2% | 17% | 47% | 5% |
| Ni fyddwn i'n gallu cael mynediad at amrywiaeth mor eang o gyfleoedd hamdden. | 26% | 17% | 16% | 4% | 11% | 23% | 3% |
| Ni fyddwn i'n gallu cael mynediad at gyfleoedd hamdden heb ddefnyddio'r car | 29% | 15% | 14% | 4% | 10% | 24% | 4% |
| Ni fyddwn yn gallu ymweld â ffrindiau na theulu | 19% | 12% | 13% | 7% | 20% | 27% | 3% |
| Ni fyddwn yn gallu ymweld â ffrindiau na theulu heb ddefnyddio'r car | 26% | 14% | 12% | 5% | 14% | 26% | 4% |
| Ni fyddwn yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd na mynychu apwyntiadau. | 12% | 6% | 14% | 5% | 24% | 35% | 4% |
| Ni fyddwn i'n gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd na mynychu apwyntiadau heb ddefnyddio'r car. | 17% | 9% | 13% | 6% | 17% | 34% | 5% |
| Byddwn i'n cyflawni llai o deithiau oherwydd diffyg symudedd | 11% | 5% | 10% | 3% | 17% | 48% | 5% |

Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (559)

**Gwelliannau yn Nhre-gŵyr**

2.26 Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, cwblhawyd cyfanswm o 228 o holiaduron ar gyfer arolwg Tre-gŵyr. Cynhaliwyd y rhain i gyd yn ystod yr wythnos rhwng 7am a 9am a rhwng 5pm a 7pm.

Crynodeb o'r gwelliannau


2.27 Ariannwyd Prosiect Ailddyblu Rheilffordd Tre-gŵyr fel rhan o raglen 2007-13 a chafodd ei gwblhau yn 2013. Roedd dwy brif elfen i'r buddsoddiad hwn:

- Uwchraddio darn sengl 8km o drac yn drac dwbl ac uwchraddio'r seilwaith er mwyn gwella capasiti'r rheilffordd. Arweiniodd hyn at gynnydd o 11 gwasanaeth y dydd yn nifer y gwasanaethau tua'r gorllewin (i Lanelli) yn ystod yr wythnos, a chynnydd o 10 gwasanaeth y dydd yn nifer y gwasanaethau tua'r dwyrain (i Abertawe).
- Gwelliannau i gyfleusterau'r orsaf, a oedd yn cynnwys adfer y platfform tua'r dwyrain a gosod pont droed er mwyn cael mynediad i'r platfform. Cyfleusterau gorsaf ychwanegol gan gynnwys llochesi newydd i deithwyr, teledu cylch cyfyng wedi'i uwchraddio, gwasanaethau gwybodaeth cwsmeriaid, goleuadau wedi'u huwchraddio a chapasiti parcio ychwanegol yn yr orsaf

Defnydd

2.28 Mae data ORR yn dangos bod twf sylweddol wedi bod yn y defnydd o orsafoedd ers i'r gwelliannau gael eu gwneud, gyda chynnydd yn y niferoedd sy'n cyrraedd/gadael yr orsaf o 84,000 y flwyddyn yn 2012/13 i 175,000 yn 2019/20.

**Ffigur 2.11: Niferoedd yn cyrraedd/gadael gorsaf Tre-gŵyr, 2008/9-2020/21**




Ffynhonnell: ORR, 2022

**Nodweddion Demograffig**


Rhywedd

2.29 Roedd 48% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn wrywod, 47% yn fenywod a 1% yn y categori arall. Ni nododd y 5% arall eu rhywedd.

Proffil oedran

2.30 Roedd 30% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed. Mae hon yn gyfran is nag ar reilffordd Cwm Ebwy ond mae'n dal yn sylweddol uwch na chyfran y grŵp oedran hwn yn y boblogaeth; 11% (ONS, 2021e).

**Ffigur 2.12: Proffil oedran yr ymatebwyr yn Nhre-gŵyr**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (228)

Statws cyflogaeth

2.31 Roedd 70% o'r ymatebwyr yn gyflogedig (gan gynnwys 45% a oedd yn gweithio'n llawn amser, 19% yn rhan-amser a 6% yn hunangyflogedig). Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer oedolion yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ôl Cyfrifiad 2011 (58%). Roedd 12% o'r ymatebwyr yn fyfyrwyr, sydd hefyd yn uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol (5%) er nad yw'r ffigur mor uchel â rheilffordd Cwm Ebwy.

**Ffigur 2.13: Statws cyflogaeth ymatebwyr ar reilffordd Tre-gŵyr**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (228)

Incwm

2.32 Eto, nid oedd cyfran fawr o'r ymatebwyr yn dymuno datgelu eu hincwm (33%). Yn seiliedig ar y rhai a wnaeth hynny, mae'r canlyniadau yn Ffigur 2.14Ffigur 2.14 yn awgrymu bod incwm cyfartalog teithwyr ar y rheilffordd o Dre-gŵyr i Abertawe yn tueddu i fod yn uwch na'r rheini sy'n defnyddio rheilffordd Cwm Ebwy, sy'n gyson â chyfradd cyflogaeth uwch teithwyr yn Nhre-gŵyr.

**Ffigur 2.14: Dosbarthiad incwm yr ymatebwyr ar reilffordd Tre-gŵyr**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (228)

Cyflwr iechyd

2.33 Dywedodd 18% o'r ymatebwyr fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol hirdymor o gymharu â 73% a ddywedodd nad oes ganddynt gyflwr o'r fath. Y rhai mwyaf cyffredin oedd cyflyrau iechyd meddwl (8%), ac yna gyflyrau'n ymwneud â symudedd/medrusrwydd (3%).

**Patrymau defnydd**

Dechrau/Diwedd y daith

2.34 Dim ond teithwyr yr oedd eu teithiau'n dechrau neu'n gorffen yng ngorsaf Tre-gŵyr a gyfwelwyd gan arolwg Tre-gŵyr. Tabl 2.3

**Tabl 2.3: Dechrau a diwedd teithiau'r ymatebwyr**


| | Diwedd y daith i deithwyr a ddechreuodd eu taith yn Nhre-gŵyr | Dechrau'r daith i deithwyr a oedd yn teithio i Dre-gŵyr |
|---|---|---|
| Caerdydd / Caerdydd canolog | 37% | 29% |
| Abertawe | 31% | 24% |
| Caerfyrddin | 5% | 8% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4% | - |
| Porth Tywyn | 4% | - |
| Castell-nedd | 3% | 1% |
| Hwlffordd | 1% | 3% |
| Casnewydd | 1% | 1% |
| Bryste / Temple Meads Bryste | - | 5% |
| Llanelli | - | 3% |
| Llundain / Paddington Llundain | - | 3% |
| Eraill | 2% | 11% |
| Heb nodi | 12% | 10% |

Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: teithwyr a ddechreuodd eu taith yn Nhre-gŵyr (128) ac a orffennodd eu taith yn Nhre-gŵyr (82).

Pwrpas y Daith

2.35 Y rhesymau mwyaf cyffredin am deithiau i/o Dre-gŵyr oedd hamdden, chwaraeon neu ddigwyddiadau (25%), siopa (22%) ac ymweld â ffrindiau neu deulu (22%). Roedd 12% o'r ymatebwyr yn teithio i'r gweithle ac yn ôl.

**Ffigur 2.15: Beth yw prif reswm eich taith heddiw?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (228)

Amlder y defnydd

2.36 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn defnyddio gorsaf Tre-gŵyr yn tueddu i gyflawni eu taith yn llai aml na'r rhai ar reilffordd Cwm Ebwy. Dywedodd 27% eu bod yn cyflawni'r daith o leiaf unwaith yr wythnos o gymharu â 36% ar reilffordd Cwm Ebwy (ond dylid nodi bod meintiau'r samplau'n amrywio). Roedd 51% yn gwneud y daith o leiaf unwaith y mis o gymharu â 56% o ymatebwyr ar reilffordd Cwm Ebwy.

**Ffigur 2.16: Pa mor aml ydych chi'n cyflawni'r daith rydych chi arni heddiw?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (228)

**Effaith gwelliannau**

Y gwelliannau i gyfleusterau'r orsaf yr oedd y teithwyr yn eu cofio

2.37 Gallai 43% o'r ymatebwyr gofio o leiaf rai o'r gwelliannau a wnaed i orsaf Tre-gŵyr yn 2013 (a oedd yn cynnwys gwelliannau i gyfleusterau'r orsaf neu gynnydd mewn gwasanaethau). Roedd 35% yn gallu cofio'r gwelliannau i gyfleusterau'r orsaf a 18% yn gallu cofio'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau.

**Ffigur 2.17: Fedrwch chi gofio gwelliannau a wnaed i orsaf Tre-gŵyr yn 2013?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (228)

Effaith ar ddefnydd

2.38 O blith y rhai a allai gofio un o'r ddau welliant yn Nhre-gŵyr (97 o ymatebwyr), dywedodd 40% fod hynny wedi gwneud iddynt ddefnyddio’r orsaf yn llawer mwy aml nag yr oeddent yn flaenorol (effaith fawr) a nododd 34% arall effaith fach.

**Ffigur 2.18: Pa effaith mae’r newidiadau hynny wedi’i chael ar amledd eich defnydd o orsaf Tre-gŵyr?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: ymatebwyr a allai gofio'r gwelliannau a wnaed i gyfleusterau'r orsaf neu'r cynnydd mewn gwasanaethau yn Nhre-gŵyr.

2.39 O ran yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn gallu cofio’r gwelliannau, rhoddwyd disgrifiad iddynt o’r hyn yr oedd y gwelliannau’n ei olygu, gan gynnwys cyfleusterau’r orsaf a’r newidiadau i amserlenni, a gofynnwyd iddynt sut y byddai eu defnydd o orsaf Tre-gŵyr yn newid pe na bai’r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud.

Noda Ffigur 2.19

2.40 Ffigur 2.19 fod y newidiadau i amserlenni wedi cael mwy o effaith ar ddefnydd na'r gwelliannau i gyfleusterau'r orsaf. Dywedodd 22% o bobl y byddent yn defnyddio'r orsaf yn llawer llai aml pe na bai'r gwasanaethau wedi cael eu cynyddu (effaith fawr) o gymharu ag 11% a ddywedodd yr un peth pe na bai'r gwelliannau i gyfleusterau'r orsaf wedi cael eu gwneud.

**Ffigur 2.19: Beth fyddai'r effaith ar eich defnydd o orsaf Tre-gŵyr pe na bai gwelliannau wedi digwydd?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: ymatebwyr a allai gofio'r gwelliannau a wnaed i gyfleusterau'r orsaf neu'r cynnydd mewn gwasanaethau yn Nhre-gŵyr (122).

Lefelau boddhad

2.41 Dywedodd cyfran uchel o'r ymatebwyr a allai gofio'r newidiadau yn Nhre-gŵyr eu bod yn fodlon gyda nhw; roedd 77% yn fodlon gyda'r gwelliannau i'r orsaf ac 82% yn fodlon gyda'r newidiadau i'r amserlen. Dywedodd dros 45% eu bod yn fodlon iawn gyda phob un o'r newidiadau.

**Ffigur 2.20: Pa mor fodlon ydych chi gyda'r newidiadau a wnaed yn Nhre-gŵyr?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: ymatebwyr a allai gofio'r gwelliannau a wnaed i gyfleusterau'r orsaf neu'r cynnydd mewn gwasanaethau yn Nhre-gŵyr.

Newid dull teithio / Dewisiadau teithio cynaliadwy

2.42 Dywedodd 46% o'r ymatebwyr y byddent wedi parhau i ddefnyddio gorsaf Tre-gŵyr ar gyfer eu taith pe na bai'r newidiadau wedi'u gwneud. Fodd bynnag, dywedodd 27% y byddent wedi gwneud y daith mewn car (fel gyrrwr, teithiwr neu mewn tacsi) sy'n awgrymu bod y buddsoddiad wedi arwain at rywfaint o newid tuag at ddulliau teithio mwy cynaliadwy. Gofynnwyd yn uniongyrchol i'r ymatebwyr hefyd a fyddent yn defnyddio car yn fwy aml pe na bai'r newidiadau wedi'u gwneud, ac roedd 44% yn cytuno a 29% yn cytuno'n gryf.

2.43 Dywedodd 9% o'r ymatebwyr y byddent wedi defnyddio gorsaf drenau arall pe na bai'r gwelliannau wedi'u gwneud. Mae hyn yn awgrymu bod rhywfaint o'r cynnydd mewn defnydd o ganlyniad i ddadleoli o orsafoedd eraill. Dywedodd dwy ran o dair o'r rhain y byddent wedi defnyddio gorsaf Abertawe yn lle hynny.

**Ffigur 2.21: Sut y byddech chi'n gwneud y daith heddiw pe na bai newidiadau wedi'u gwneud yn Nhre-gŵyr?**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (228)

Mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a rhwydweithiau cymorth

2.44 Awgryma Tabl 2.4Tabl 2.4 fod y newidiadau yn Nhre-gŵyr wedi ei gwneud yn haws i gyfran fawr o ddefnyddwyr (dros 40%) gael mynediad at gyfleoedd hamdden a rhwydweithiau cymorth. Dywedodd cyfran lai ei bod wedi'i gwneud yn haws cael mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus (e.e. iechyd ac addysg):

- roedd 26% yn cytuno y byddai'n anoddach mynd i'r gwaith pe na bai'r newidiadau wedi digwydd (roedd 14% yn cytuno'n gryf) ac roedd 16% yn cytuno na fyddent yn gallu gweithio cymaint o oriau.
- roedd 43% yn cytuno y byddai'n anoddach cael mynediad at gyfleoedd hamdden (roedd 21% yn cytuno'n gryf)
- roedd 42% yn cytuno na fyddent yn gallu ymweld â ffrindiau a theulu (27% yn cytuno'n gryf)

- roedd 21% yn cytuno y byddai'n anoddach cael mynediad at gyfleoedd hamdden (roedd 21% yn cytuno'n gryf) roedd 39% o'r ymatebwyr hynny â chyflwr iechyd hirdymor yn cytuno y byddai'n anoddach cael mynediad at wasanaethau iechyd.
- byddai 16% yn gwneud llai o deithiau oherwydd nam symudedd, gan gynyddu i 31% ar gyfer y rhai â chyflwr iechyd.

**Tabl 2.4: Pe na bai newidiadau wedi'u gwneud yn Nhre-gŵyr, i ba raddau y byddech chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno i ryw radda | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno i ryw raddau | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod / ddim yn berthnasol | Heb nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mi fyddai'n anoddach i mi fynd i'r gwaith | 14% | 12% | 15% | 2% | 8% | 38% | 10% |
| Fyddwn i ddim yn gallu gweithio cymaint o oriau | 11% | 5% | 21% | 3% | 10% | 39% | 10% |
| Mi fyddai'n anoddach i mi gael mynediad i gyfleoedd hamdden | 21% | 24% | 19% | 3% | 6% | 18% | 9% |
| Mi fyddai'n anoddach i mi ymweld â ffrindiau a theulu | 27% | 15% | 19% | 4% | 8% | 20% | 7% |
| Mi fyddai'n anoddach i mi gael mynediad i wasanaethau iechyd | 12% | 9% | 24% | 5% | 11% | 32% | 9% |
| Mi fyddai'n anoddach i mi gael mynediad i gyfleoedd addysgol | 12% | 9% | 23% | 3% | 11% | 33% | 9% |
| Mi fyddwn yn gwneud llai o deithiau oherwydd nam symudedd | 10% | 6% | 19% | 4% | 10% | 43% | 9% |

Ffynhonnell: Beaufort Research.  Sylfaen: yr holl ymatebwyr (228)

**Casgliadau**

2.45 Mae'r ddau fuddsoddiad a ariannwyd gan ERDF mewn gwella seilwaith rheilffyrdd wedi arwain at nifer o fuddion economaidd a chymdeithasol. Mae’r canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Gwneir defnydd helaeth o'r seilwaith gwell ac mae nifer y defnyddwyr wedi cynyddu dros amser. Yn achos rheilffordd Cwm Ebwy, gellir priodoli hyn oll i’r prosiect a ariannwyd gan ERDF gan fod hyn wedi caniatáu i’r rheilffordd ailagor i deithwyr. Yn achos Tre-gŵyr, mae tystiolaeth yr arolwg yn dangos y gellir priodoli cyfran sylweddol o’r defnydd hwn i’r gwelliannau a ariannwyd gan ERDF.
- Dywed defnyddwyr eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth rheilffordd (Cwm Ebwy) a'r gwelliannau a wnaed gyda buddsoddiad ERDF (Tre-gŵyr).
- Mae'r buddsoddiadau wedi gwella mynediad i'r marchnadoedd swyddi a hamdden yn nwy ddinas fwyaf Cymru (Abertawe a Chaerdydd). Mae hyn o fudd i unigolion yn ogystal â busnesau a chyflogwyr yn y dinasoedd hyn drwy gynyddu eu mynediad at weithwyr a chwsmeriaid (er ei fod hefyd yn awgrymu bod rhywfaint o wariant yn cael ei golli o'r ardaloedd ar hyd rheilffordd Cwm Ebwy a'u gwario mewn dinasoedd mawr).
- Mae tystiolaeth dda bod y ddwy reilffordd wedi peri i bobl wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy drwy leihau eu defnydd o geir o blaid teithio ar drenau.
- Mae’r buddsoddiadau wedi gwella mynediad at gyflogaeth i gyfran fawr o bobl, gan gynnwys pobl sy’n byw mewn ardaloedd o amddifadedd ble nad oes llawer o gyfleoedd gwaith, fel Blaenau Gwent. Mae ailagor rheilffordd Cwm Ebwy wedi bod yn arbennig o bwysig o ran gwella mynediad pobl ifanc at gyflogaeth, gyda 39% yn cytuno y byddai’n anoddach iddynt gael mynediad i’w gweithle.
- Mae'r buddsoddiadau wedi gwella mynediad at gyfleoedd hamdden yn sylweddol ac wedi'i gwneud yn haws i bobl ymweld â ffrindiau a theulu. Teithiau hamdden yw'r prif resymau dros ddefnyddio'r ddwy reilffordd sydd wedi derbyn buddsoddiad.
- Nid yw gwasanaethau rheilffordd gwell wedi dylanwadu ar benderfyniadau’r rhan fwyaf o ddefnyddwyr y rheilffyrdd ynghylch ble i fyw. Fodd bynnag, dywedodd 14% o'r ymatebwyr ar reilffordd Cwm Ebwy fod hyn yn ffactor pwysig.

## 3. Arolygon o Feddianwyr Safleoedd ac Eiddo a Deorfeydd Busnes

### Cyflwyniad

3.1 Fel rhan o'r ymchwil cynhaliwyd cyfweliadau hefyd â meddianwyr eiddo sydd wedi'u hariannu'n rhannol gan grantiau ERDF dros gyfnod y ddwy raglen:

- Meddianwyr presennol eiddo busnes a ariannwyd ar y cyd gan ERDF (e.e. drwy gyllid llenwi bwlch) neu a adeiladwyd ar safleoedd cyflogaeth sydd wedi cael buddsoddiad ERDF (e.e. seilwaith safleoedd). Prif ddiben hyn oedd ymchwilio i'r graddau y gallai gofoynion y cwmnïau hyn fod wedi'u bodloni mewn lleoliadau tebyg eraill, pa mor gystadleuol oedd yr eiddo (yn seiliedig ar feini prawf amrywiol yn ymwneud â dewis, ansawdd a chost) a'r buddion cysylltiedig i feddianwyr o gymharu â'r dewisiadau eraill a oedd ar gael.
- Defnyddwyr presennol deorfeydd busnes[9] a ariannwyd drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau ymchwil ac arloesi newydd (e.e. ym mhrifysgolion Cymru). Diben hyn oedd ymchwilio i fuddion y cyfleoedd hyn i feddianwyr, a ellid bod wedi cyflawni'r rhain heb fuddsoddiad ERDF, a'u boddhad cyffredinol gyda'r cyfleusterau deori.

3.2 Y bwriad oedd cynnal arolwg o 300 o feddianwyr safleoedd ac eiddo a 100 o fusnesau mewn cyfleusterau deori. Yn y ddau achos bu'n heriol iawn nodi a chael manylion cyswllt niferoedd digonol o fusnesau i gyflawni'r meintiau sampl hyn (nodir y rhesymau am hyn isod). Yn ymarferol, dim ond 47 o gyfweliadau y mae'r gwerthusiad wedi gallu eu cynnal gyda meddianwyr safleoedd ac eiddo a dim ond 10 cyfweliad gyda meddianwyr deorfeydd busnes. Yn amlwg, mae meintiau'r samplau hyn yn rhy fach i ddarparu canlyniadau meintiol cadarn. Felly dim ond fel barn nifer bach o fusnesau y gellir dehongli'r canfyddiadau ac nid ydynt o bosibl yn cynrychioli'r holl feddianwyr. Oherwydd y nifer bach o ymatebwyr nid yw'r bennod hon wedi adrodd ar ganrannau.

### Safleoedd ac Eiddo

Dull

3.3 Nodwyd meddianwyr safleoedd ac eiddo a ariannwyd gan ERDF drwy ymarfer mapio manwl, a nododd yr eiddo penodol a oedd wedi elwa o fuddsoddiad grant ac yna defnyddiwyd cronfeydd data busnesau a chyfeiriaduron ffôn i nodi meddianwyr yr eiddo hyn a'u manylion cyswllt. Yna cynhaliwyd y cyfweliadau ar ffurf arolwg dros y ffôn. Oherwydd natur y cwestiynau ymchwil dim ond gyda'r bobl allweddol a oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau yr oedd modd cynnal y cyfweliadau. Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021.

3.4 Roedd y prif heriau fel a ganlyn:

- Digwyddodd y rhan fwyaf o fuddsoddiad ERDF mewn safleoedd ac eiddo yn ystod rhaglen 2000-06 ac ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am yr hyn a ariannwyd (e.e. achosion busnes neu werthusiadau). Yr unig wybodaeth a oedd ar gael oedd disgrifiad o'r prosiect a oedd mewn sawl achos yn darparu

[9] Cyfleuster arbenigol yw hwn a ddyluniwyd fel lle i fusnesau newydd ddysgu a thyfu ynddo

gwybodaeth amwys am leoliad y safle neu'r eiddo. Roedd hyn yn golygu bod angen i'r gwerthusiad eithrio nifer fawr o brosiectau lle roedd unrhyw ansicrwydd ynghylch lleoliad y safle. Nododd yr ymchwil gyfanswm o 800 o gyfeiriadau busnes ar gronfa ddata Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) a gafodd wnaeth elwa ar fuddsoddiad ERDF.

- Nododd yr astudiaeth fanylion 470 o sefydliadau a oedd yn meddiannu'r cyfeiriadau hyn. Dim ond rhifau ffôn 333 o feddianwyr busnes yr oedd yn bosibl eu canfod. Roedd 70 o'r meddianwyr yn sefydliadau'r sector cyhoeddus ac nid oedd yn bosibl canfod rhifau ffôn ar gyfer dros 60 o fusnesau[10].
- Cafwyd cyfradd ymateb o 14% i'r arolwg dros y ffôn. Roedd heriau allweddol wrth gwblhau'r cyfweliadau yn cynnwys y ffaith nad oedd y bobl allweddol a oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar gael (cynhaliwyd arolygon pan oedd Llywodraeth Cymru yn argymell bod pobl yn gweithio gartref os yn bosibl) neu nad oeddent yn ymwybodol bod eu heiddo wedi elwa ar fuddsoddiad cyhoeddus ac felly nid oeddent yn dymuno cymryd rhan.

Nodweddion y busnesau a gymerodd ran yn yr arolwg

3.5 Roedd y nodweddion allweddol fel a ganlyn[11]:

- roedd 35 o'r busnesau'n cyflogi deg neu lai o weithwyr yn yr eiddo a oedd wedi elwa ar gyllid ERDF. Roedd naw busnes yn cyflogi rhwng 11 a 50 o bobl a dim ond tri oedd yn cyflogi mwy na 50.
- roedd 18 o'r busnesau yn y sector gwasanaethau busnes, roedd deg yn y maes gweithgynhyrchu, naw mewn 'gwasanaethau eraill', pedwar ym mhob un o'r sectorau adeiladu a TGCh a dau yn y sector cyfanwerthu a manwerthu.
- dywedodd 28 o fusnesau fod dros 75% o'u gwerthiannau yng Nghymru, dywedodd wyth fod hyn rhwng 25 a 50% a dywedodd 11 fod llai na 25% o'u gwerthiannau yng Nghymru.
- roedd 34 o'r busnesau wedi bod yn gweithredu ers mwy na 10 mlynedd. Dim ond tri a oedd wedi bod yn gweithredu ers llai na thair blynedd.
- roedd 16 o fusnesau wedi bod yn yr eiddo ers mwy na deng mlynedd, roedd 12 wedi bod yno rhwng pump a deng mlynedd ac roedd 19 wedi symud i'r eiddo yn y pum mlynedd diwethaf (pedwar o'r rhain yn y flwyddyn ddiwethaf).

Mathau o eiddo a'u maint

3.6 Roedd 28 o feddianwyr wedi prydlesu rhywfaint o ofod swyddfa, gyda deg o'r rhain yn prydlesu llai na 50 metr sgwâr. Roedd llawer llai o'r ymatebwyr yn prydlesu gofod ymchwil a datblygu, diwydiannol neu storio a dosbarthu. Roedd y sampl felly yn gogwyddo'n drwm tuag at feddianwyr swyddfeydd.

[10] Mewn rhai achosion roedd rhif ffôn ar gael ond roedd hwn yn rhif ar gyfer canolfan alwadau neu brif swyddfa mewn lleoliad gwahanol yn hytrach na'r eiddo penodol a ariannwyd gan ERDF

[11] Nid yw'n hysbys pa mor gynrychioliadol oedd y sampl oherwydd nid oes data ar gael ar nodweddion yr holl fusnesau sy'n meddiannu eiddo a ariannwyd gan ERDF

**Tabl 3.1: Faint o'r mathau canlynol o leoedd mae eich busnes yn eu prydlesu, os o gwbl?**

| | Swyddfa | Ymchwil a Datblygu | Diwydiannol ysgafn | Diwydiannol cyffredinol | Storio a dosbarthu |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 metr sgwâr | 3 | 39 | 33 | 41 | 32 |
| 1 i 50 metr sgwâr | 10 | 1 | 1 | 1 | 2 |
| 51 i 100 metr sgwâr | 7 | 1 | 1 | - | 2 |
| 101 i 200 metr sgwâr | 4 | - | 2 | - | 1 |
| 201+ metr sgwâr | 7 | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Wn i ddim. | 16 | 5 | 9 | 4 | 7 |

Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: 47

Newid ym maint y lle a brydlesir

3.7 Dywedodd 15 o ymatebwyr eu bod wedi cynyddu faint o le y maent yn ei brydlesu ers symud i'r eiddo. Dywedodd 30 ei fod wedi aros yr un fath a dim ond un a oedd wedi lleihau faint o le y maent yn ei brydlesu.

3.8 O blith y rhai a oedd wedi cynyddu faint o le y maent yn ei brydlesu (15), dywedodd pump fod hyn wedi bod yn llai na 50 metr sgwâr a dim ond dau a ddywedodd ei fod wedi bod yn fwy na 100 metr sgwâr (nid oedd chwech yn gwybod neu nid oeddent yn cofio).

Lleoliad eiddo blaenorol


3.9 Roedd 27 o blith y 47 busnes wedi symud o safleoedd masnachol eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r symudiadau hyn yn adleoliadau pellter byr:

- Roedd deg o fewn yr un dref neu ddinas.
- Roedd 13 o dref neu ddinas arall ond o fewn 15 milltir i'w lleoliad presennol.
- Roedd dau yn dod o ran arall o Gymru a dim ond un a symudodd o rywle arall yn y DU.

Rhesymau dros symud / dewis eiddo

3.10 O blith y rhai a oedd wedi symud o safleoedd gwahanol, dywedodd y rhan fwyaf mai'r rheswm am hyn oedd bod angen mwy o le arnynt neu oherwydd bod eu busnes yn ehangu/tyfu. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys yr awydd i gael eiddo mwy modern.

**Ffigur 3.1: Beth oedd y prif resymau fod eich busnes yn chwilio am eiddo newydd ar yr adeg y gwnaethoch symud?**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Noder: dim ond ymatebwyr a symudodd o eiddo gwahanol sydd wedi'u cynnwys (n=38)

3.11 Rhoddodd yr ymatebwyr nifer o resymau dros ddewis yr eiddo yr oeddent yn ei feddiannu. Y rheswm mwyaf cyffredin oedd ei fod yn cynnig mwy o le neu ei fod o faint gwell. Ffactorau pwysig eraill oedd ei fod mewn lleoliad da neu'n rhatach / gwell gwerth am arian o gymharu â dewisiadau eraill.

**Ffigur 3.2: Beth oedd y rhesymau allweddol y gwnaethoch benderfynu symud i'ch eiddo presennol?**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Pob ymatebydd (n=47)

Dewisiadau eraill a oedd ar gael

3.12 Dywedodd 27 o ymatebwyr eu bod wedi ystyried eiddo arall wrth chwilio am eiddo newydd.  O blith y rhain roedd 25 wedi ystyried eiddo yn yr un dref neu o fewn 15 milltir i'w heiddo presennol.

3.13

Ffigur 3.3

3.14 Dengys Ffigur 3.3 mai dim ond chwech o’r busnesau hyn a allai fod wedi dod o hyd i eiddo arall a oedd yn bodloni eu gofynion yn hawdd a nododd pedwar y byddai wedi bod yn heriol dod o hyd i unrhyw eiddo. Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr y gallent fod wedi dod o hyd i eiddo arall ond na fyddai'r rhain wedi bod cystal â'r eiddo a ddewiswyd ganddynt a dywedodd pedwar na fyddai eiddo arall wedi bod o fewn eu cyllideb.  Mae hyn yn awgrymu bod safleoedd ac eiddo a ariannwyd gan ERDF wedi helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y farchnad.

3.15 Pan ofynnwyd pa ofynion y byddai wedi bod yn heriol eu bodloni pe na bai'r eiddo wedi bod ar gael, roedd y prif faterion yn ymwneud â maint (8 o ymatebwyr), lleoliad (6) a chost y safle (5).

**Ffigur 3.3: Pe na bai'r eiddo presennol wedi bod ar gael, pa rai o'r datganiadau canlynol fyddech chi'n cytuno â nhw fwyaf?**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Noder: dim ond ymatebwyr a ystyriodd safleoedd eraill sydd wedi'u cynnwys (n=27)

Buddion i feddianwyr

3.16 Roedd y meddianwyr yn cytuno bod symud i'w heiddo wedi creu nifer o fuddion i'w busnes.  Roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno bod hyn wedi eu helpu i gyflawni eu hamcanion ariannol (74.5%) a gwella cynhyrchiant (68%) ac roedd dros eu hanner yn cytuno ei fod wedi helpu’r busnes i ddenu a chadw staff.  Roedd niferoedd llai yn cytuno ei fod wedi lleihau eu hôl troed carbon neu wedi eu helpu i ddechrau'r busnes.

**Tabl 3.2: I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno gyda'r datganiadau canlynol am yr effaith a gafwyd ar eich busnes wrth symud i'ch eiddo presennol?**

| | Cytuno'n gryf | Tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn berthnasol/ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwnaeth ein helpu ni i ddechrau'r busnes** | 6 | 2 | 3 | 1 | 1 | 34 |
| **Gwnaeth ein helpu ni i gyflawni ein hamcanion ariannol** | 18 | 17 | 5 | 3 | 1 | 3 |
| **Mae wedi gwella cynhyrchiant y busnes** | 16 | 16 | 9 | 2 | 1 | 3 |
| **Mae wedi ein helpu ni i ddenu a chadw staff** | 11 | 15 | 12 | 3 | 1 | 5 |
| **Mae wedi ein helpu ni i leihau ein hôl troed carbon** | 7 | 11 | 17 | 3 | 3 | 6 |

Ffynhonnell: Beaufort Research. Yr holl ymatebwyr

3.17 Er mwyn asesu'r buddion ychwanegol i fusnesau, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddychmygu nad oedd eu heiddo presennol wedi bod ar gael a bod y busnes wedi gorfod dewis gweithredu mewn ffordd arall (gwrthffeithiol), ac yna meddwl sut effaith fyddai hynny wedi'i gael ar sawl agwedd ar berfformiad y busnes.

3.18 Dengys Tabl 3.3Tabl 3.3 fod cyfran helaeth wedi dweud y byddai sawl agwedd wedi bod yn waeth, gan gynnwys datblygiad perfformiad y busnes (24 o blith 47), cynhyrchiant neu effeithlonrwydd (23) a gallu'r busnes i ddenu/cadw staff (18). Fodd bynnag, cyfran fach yn unig a ddywedodd y byddai'n llawer gwaeth (yn enwedig o gymharu â'r rhai a oedd yn cytuno'n gryf â'r cwestiynau yn Nhabl 3.2Tabl 3.2) a dywedodd cyfran helaeth y byddai'r sefyllfa yr un peth ag y mae nawr.

3.19 Mae hyn yn awgrymu y bu rhai buddion ychwanegol i fusnesau o ganlyniad i fuddsoddiad ERDF mewn safleoedd ac eiddo, ond byddai cyfran fawr o'r buddion a ddisgrifir yn Nhabl 3.2Tabl 3.2 wedi digwydd beth bynnag (difuddiant).

**Tabl 3.3: Pe na bai eich eiddo presennol wedi bod ar gael, yn eich barn chi, sut effaith fyddai hyn wedi'i gael ar bob un o'r canlynol?**

| | Llawer gwaeth | Ychydig yn waeth | Yr un fath ag y mae nawr | Ychydig gwell | Llawer gwell | Ddim yn berthnasol/ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhwydd-der wrth ddechrau'r busnes | 1 | 2 | 3 | - | - | 41 |
| Datblygiad perfformiad y busnes | 8 | 16 | 17 | 1 | 1 | 4 |


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchiant neu effeithlonrwydd y busnes | 6 | 17 | 16 | 1 | 2 | 5 |
| Gallu'r busnes i ddenu a chadw staff | 1 | 17 | 22 | 1 | 1 | 5 |
| Ôl troed carbon y busnes | - | 14 | 23 | 1 | 2 | 7 |
| Delwedd y busnes ymhlith cleientiaid | 8 | 13 | 18 | 1 | 3 | 4 |

Ffynhonnell: Beaufort Research. Yr holl ymatebwyr

Cynnal a chadw eiddo

3.20 Roedd 38 o blith y 47 o fusnesau yn cytuno bod yr eiddo wedi cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel, gan gynnwys 24 a oedd yn cytuno'n gryf â hynny. Fodd bynnag, roedd saith busnes yn anghytuno.

**Ffigur 3.4: I ba raddau ydych chi'n cytuno fod eich eiddo presennol wedi cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel?**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Yr holl ymatebwyr

Boddhad ag eiddo busnes

3.21 Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr y byddent yn hynod debygol o argymell eu heiddo i fusnesau eraill, gan ddangos lefel uchel o foddhad. Dim ond 5 busnes a ddywedodd na fyddent yn debygol o argymell yr eiddo.

**Ffigur 3.5: Pa mor debygol ydych chi o argymell eich eiddo i fusnesau eraill?**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Yr holl ymatebwyr

Casgliadau

3.22 Dim ond maint sampl bach a gyflawnwyd yn y cyfweliadau â meddianwyr, sy'n cyfyngu'n sylweddol ar yr hyder bod y canfyddiadau'n gynrychioliadol o farn meddianwyr safleoedd ac eiddo a ariannwyd gan ERDF. Serch hynny, mae canfyddiadau'r arolwg o fusnesau yn dangos y canlynol:

- Yn bennaf, mae buddsoddiadau ERDF mewn safleoedd ac eiddo wedi bod o fudd i fusnesau Cymreig bach sydd am aros yn yr ardal y maent yn gweithredu ynddi ar hyn o bryd.
- Y prif gymhelliant i lawer o fusnesau benderfynu symud i'r eiddo newydd yw'r angen am fwy o le neu i alluogi'r busnes i dyfu yn y dyfodol. Mae ffactorau pwysig eraill yn cynnwys yr awydd am eiddo mwy modern/o ansawdd gwell neu fod mewn lleoliad gwell.
- Byddai cyfran fawr o fusnesau wedi cael trafferth dod o hyd i eiddo arall sy'n bodloni eu holl ofynion (e.e. o ran maint, cost, lleoliad). Mae hyn yn awgrymu bod safleoedd ac eiddo a ariannwyd gan ERDF wedi chwarae rhywfaint o ran wrth ddiwallu anghenion meddianwyr a mynd i'r afael â bylchau yn y farchnad.
- Mae symud i eiddo newydd wedi dod â nifer o fuddion i'r busnesau sy'n eu meddiannu, gan gynnwys mwy o dwf, mwy o gynhyrchiant a gwella'r gallu i ddenu/cadw staff.
- Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt ddychmygu sefyllfa lle nad oedd yr eiddo ar gael a lle y bu'n rhaid i'r busnes gymryd camau eraill, mae'r effeithiau amcangyfrifedig ar fusnesau yn llai, gan ddangos y byddai o leiaf rai o'r buddion i fusnesau wedi digwydd beth bynnag. Felly ni ellir ystyried bod pob un o'r buddion yn fuddion ychwanegol.

**Deorfeydd Busnes a Gweithleoedd a Reolir**

Dull a Heriau

3.23 Roedd yn anodd iawn canfod manylion cyswllt busnesau mewn deorfeydd a ariannwyd gan ERDF. Ychydig iawn o'r busnesau hyn y gellir eu hadnabod drwy gronfeydd data busnes neu gyfeirlyfrau ffôn sy'n golygu bod y gwerthusiad yn dibynnu ar weithredwyr deorfeydd busnes eu hunain i ddarparu manylion cyswllt eu tenantiaid. Rhwystr ychwanegol oedd bod angen i weithredwyr gael caniatâd gan y busnesau yn gyntaf cyn darparu eu manylion cyswllt oherwydd gofynion yn ymwneud â GDPR. Arweiniodd hyn at nodi manylion cyswllt ar gyfer 13 o fusnesau, ond dim ond gyda deg y cynhaliwyd cyfweliadau gan fod tri wedi newid eu meddwl neu nid oedd modd cysylltu â nhw. Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn gan Hatch gan ddefnyddio'r holiadur yn yr atodiad.

3.24 O ystyried maint bach iawn y sampl, dim ond y prif ganfyddiadau o'r cyfweliadau hyn yr adroddir arnynt.

Nodweddion yr ymatebwyr

3.25 Roedd pob un o'r busnesau a gymerodd ran yn yr arolwg wedi bod yn gweithredu ers llai na phum mlynedd ac roedd gan bob un ohonynt lai na phump o weithwyr. Roedd yr ymatebwyr yn dod o gymysgedd o sectorau gan gynnwys peirianneg, y celfyddydau, y cyfryngau a gwyddorau bywyd. Dim ond ar ôl symud i'r ddeorfa/gweithle y dechreuodd dau o'r busnesau fasnachu ac roedd y busnesau eraill wedi bod yn masnachu ers mwy na chwe mis.

Rhesymau dros ddewis deorfa neu weithle a reolir

3.26 Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros ddewis deorfa neu weithle a reolir oedd oherwydd ei fod yn rhoi mynediad i fusnesau at weithleoedd fforddiadwy a oedd ar gael ar delerau hyblyg (cyfeiriodd wyth ymatebydd at hyn). Dywedodd hanner yr ymatebwyr hefyd eu bod wedi dewis deorfa er mwyn cael cymorth busnes. Dywedodd y busnesau a oedd yn ymwneud â gwyddoniaeth neu beirianneg hefyd fod mynediad at gyfleusterau ac offer ymchwil a datblygu arbenigol hefyd yn ffactorau pwysig.

3.27 Pan ofynnwyd iddynt pam yr oeddent wedi dewis y ddeorfa benodol honno neu'r gweithle a reolir penodol hwnnw, roedd y rhesymau mwyaf poblogaidd yn cynnwys fforddiadwyedd neu hyblygrwydd y gweithle (saith ymatebydd), y gymuned o entrepreneuriaid tebyg (chwe ymatebydd) a mynediad at arbenigedd academaidd ac offer technegol (pump).

Y mathau o gymorth a gafwyd

3.28 O ran cyfleusterau, roedd gan bob un ond un o'r ymatebwyr fynediad i ofod swyddfa hyblyg, band eang cyflym ac offer TG. Roedd gan bump ohonynt fynediad i ofod labordy neu offer technegol.

3.29 O ran y mathau penodol o gymorth a gafwyd:

- Roedd gan bob un o’r deg ymatebydd fynediad at gyfleoedd rhwydweithio (e.e. gydag entrepreneuriaid eraill yn y cyfleuster)

- Dywedodd wyth ymatebydd eu bod yn cael mynediad at wasanaethau mentora a chymorth busnes cyffredinol/datblygu sgiliau fel rhan o'r ddeorfa neu weithle a reolir.
- Roedd saith wedi cael rhywfaint o gymorth neu gyngor arbenigol e.e. cymorth i brofi a mireinio eu model busnes neu eiddo deallusol.

3.30 Pan ofynnwyd iddynt enwi'r mathau o gymorth sydd wedi bod yn fwyaf buddiol i'w busnes, yr atebion mwyaf cyffredin oedd mynediad i ofod swyddfa (cyfeiriwyd at hyn gan saith ymatebydd), gofod labordy neu offer technegol (pump), cyfleoedd rhwydweithio (pump), cymorth busnes a datblygu sgiliau (pump) a mentora busnes (pedwar).

Y dewisiadau eraill a oedd ar gael

3.31 Pan ofynnwyd iddynt beth fyddent wedi'i wneud pe na bai'r ddeorfa neu'r gweithle a reolir wedi bod ar gael, dywedodd dau ei bod yn annhebygol y byddent wedi parhau â'r fenter fusnes. Yn y ddau achos roedd hyn oherwydd bod mynediad at offer arbenigol yn hanfodol i'w busnes. Dywedodd chwech y byddent wedi chwilio am weithle cyffredinol arall ac nid oedd dau yn gwybod beth y byddent wedi'i wneud.

3.32 Dim ond dau o'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o unrhyw ddeorfeydd neu gyfleusterau gweithle a reolir tebyg a fyddai wedi bodloni eu gofynion yn yr ardal (h.y. o fewn taith 30 i 40 munud).

Cyfraniad at amcanion

3.33 Dywedodd chwech o bob deg ymatebydd fod y deorfeydd neu'r gweithle a reolir wedi chwarae rhan hanfodol neu arwyddocaol yn llwyddiant eu busnes. Dywedodd dau eu bod wedi chwarae rhan fach ac nid oedd dau yn gwybod (am ei bod yn rhy gynnar i ddweud a oedd y busnes wedi bod yn llwyddiant).

3.34 Roedd y buddion allweddol i'r busnesau hyn fel a ganlyn:

- Fe wnaeth helpu'r busnes i gyflawni ei amcanion twf (saith ymatebydd)
- Fe wnaeth helpu perchennog y busnes i ehangu ei rwydwaith o gysylltiadau (saith)
- Fe wnaeth helpu perchennog y busnes i ddatblygu sgiliau busnes (chwech)
- Fe wnaeth helpu'r busnes i ddenu buddsoddiad newydd (pedwar)

3.35 Ar gyfer yr holl fuddion hyn, dywedodd cyfran uchel o ymatebwyr y byddai'r canlyniad wedi bod yn waeth pe na baent wedi gallu bod yn rhan o'r ddeorfa a bod yn rhaid iddynt ddewis gweithredu mewn ffordd arall. Er enghraifft, dywedodd chwech o'r saith busnes a ddywedodd bod y ddeorfa wedi eu helpu i gyflawni eu hamcanion twf y byddai'r canlyniad wedi bod yn "llawer gwaeth" oni bai am y ddeorfa neu'r gweithle a reolir. Mae hyn yn awgrymu bod llawer o fuddion ychwanegol i'r busnesau hyn.

Boddhad gyda'r cyfleusterau deori

3.36 Roedd lefelau boddhad yr ymatebwyr â'r ddeorfa neu'r gweithle a reolir yn uchel iawn. Dywedodd chwech y byddent yn debygol iawn o argymell y ddeorfa i fusnesau eraill a dywedodd dau arall y byddent yn debygol o'i hargymell. Roedd y sgoriau

boddhad yn uchel iawn mewn perthynas â sawl agwedd ar y ddeorfa a'r gweithle a reolir, gan gynnwys dyluniad ac edrychiad yr eiddo, ansawdd y cyfarpar arbenigol, cynnal a chadw a rheoli'r cyfleusterau a'r amwynderau ar y safle.

## 4. Dadansoddiad o Berfformiad Economaidd

4.1 Un o brif ddibenion yr astudiaeth yw asesu a oedd seilwaith newydd a gwell wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr economi ranbarthol. Er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer yr astudiaethau achos yn y penodau dilynol, mae'r adran hon yn dadansoddi'r newid mewn perfformiad economaidd yng Nghymru a'i rhanbarthau ers y flwyddyn 2000, ac yn asesu a fu unrhyw dystiolaeth o gydgyfeirio â rhannau eraill o'r DU ac o fewn rhanbarthau Cymru ers y buddsoddiad mewn seilwaith economaidd.

4.2 Mae hyn yn canolbwyntio ar y dangosyddion canlynol:

- Gwerth Ychwanegol Gros y pen: mae hyn yn mesur lefel incwm y pen mewn economi ac mae'n ddull cyffredin a ddefnyddir i gymharu safon byw ar draws economïau gwahanol.
- Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi: mesur o gynhyrchiant llafur
- Newid yn nifer y swyddi
- Dwysedd swyddi: dyma'r gymhareb swyddi i boblogaeth oedran gweithio ac felly mae'n mesur lefel cyflogaeth mewn ardal.

4.3 Mae'r adran hefyd yn cynnwys dadansoddiad o economïau ardaloedd y pedair astudiaeth achos. Yn ogystal â dadansoddi sut y mae'r ardaloedd hyn wedi perfformio o gymharu ag ardaloedd cymharol, mae hefyd yn ceisio deall beth sydd wedi ysgogi newid ym mhob un o'r ardaloedd. Mae hyn yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y pedair astudiaeth achos yn y penodau dilynol ac yn ein galluogi i ddeall a fu unrhyw newid yn y dangosyddion a allai gael eu heffeithio gan fuddsoddiad mewn seilwaith economaidd.

### Tueddiadau Cenedlaethol a Rhanbarthol

### Gwerth Ychwanegol Gros y pen

Dim tystiolaeth o gydgyfeirio rhwng Cymru a'r DU ers 2000


4.4 Cynhyrchodd economi Cymru £21,295 mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen yn 2019. Gwerth Ychwanegol Gros y pen yng Nghymru yw'r isaf o hyd o blith 4 gwlad y DU ers 2000, ac mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU wedi ehangu ychydig dros y 19 mlynedd diwethaf; o 74% o gyfartaledd y DU yn 2000 i 73% yn 2019.

4.5 Er bod cyfraddau twf hirdymor mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen wedi parhau i fod yn araf yng Nghymru a'r DU (cyfartaledd blynyddol o 0.9% yng Nghymru ac 1.0% yn y DU), dylid nodi bod cyfraddau twf yng Nghymru wedi cynyddu ar ôl argyfwng ariannol 2007-08 – gan newid o 0.6% cyn yr argyfwng (2000-09) i 1.2% ar gyfer y cyfnod ar ôl yr argyfwng (2009-19). Mae'r gyfradd twf gyfartalog flynyddol ers 2009 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y DU o 1.0%.

4.6 Mae'r bwlch parhaus â chyfartaledd y DU yn adlewyrchu'r lefelau cynhyrchiant llafur is yng Nghymru (gweler isod), ond hefyd y ffaith bod cyfran is o'r boblogaeth sy'n oedolion yn gweithio. Roedd 57% o bobl dros 16 oed yng Nghymru yn gyflogedig yn 2019 o gymharu â 61% yn y DU (dyma'r isaf hefyd o blith gwledydd y DU). Mae hyn

yn ei dro yn adlewyrchu gwahaniaethau ym mhroffil oedran y boblogaeth; mae 21% o boblogaeth Cymru wedi cyrraedd oedran ymddeol (65+) o gymharu ag 19% yn y DU.

**Ffigur 4.1: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen, 2000-2019 (prisiau 2019)**





Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2021a)

Ond mae'r bwlch wedi lleihau yng Ngogledd a De-orllewin Cymru

Mae Gwerth Ychwanegol Gros y pen yn parhau'n llawer is na chyfartaledd y DU ym mhob un o bedwar rhanbarth Cymru; mae Gwerth Ychwanegol Gros y pen ar ei uchaf yn Ne-ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru (£22,000 neu 74% o gyfartaledd y DU) ac ar ei isaf yn y Canolbarth (£17,900 neu 61% o gyfartaledd y DU).

4.7 **Ffigur** 4.2

**Ffigur 4.2: Newid wedi'i fynegeio mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen yn rhanbarthau Cymru (DU=100)**




Ffynhonnell: ONS (2021a):

**Cynhyrchiant llafur (Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi)**

Mae cynnydd yn y defnydd o lafur wedi arwain at gynnydd mewn gwerth ychwanegol gros y pen yn y rhan fwyaf o ranbarthau

4.8 Mae newidiadau mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen yn cael eu llywio gan ddau ffactor:

- Y defnydd o lafur: wedi'i fesur yma fel y newid mewn swyddi wedi'u llenwi y pen o gyfanswm y boblogaeth
- Cynhyrchiant llafur: wedi'i fesur fel y twf mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi

4.9 Dengys Ffigur 4.3 fod y gwelliant mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen yng Ngogledd a De-orllewin Cymru (o gymharu â chyfartaledd y DU) i'w briodoli'n bennaf i gynnydd mawr yn y defnydd o lafur. Ar gyfartaledd cynyddodd hyn 0.6% y flwyddyn yng Ngogledd Cymru a 0.5% y flwyddyn yn Ne-orllewin Cymru rhwng 2002 a 2019 o gymharu â 0.2% y flwyddyn yn y DU.


4.10 Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd y twf mewn cynhyrchiant llafur yn is na chyfartaledd y DU ym mhob rhanbarth ac eithrio De-ddwyrain Cymru lle roedd yn cyfateb yn fras i'r cyfartaledd (0.7% y flwyddyn). Mae hyn yn golygu mai dim ond mewn un rhanbarth o Gymru y mae twf cynhyrchiant llafur yn cyfateb i gyfartaledd y DU, tra bod bwlch mwy rhwng y gweddill.

4.11 Dengys dadansoddiad pellach mai Gwent a Chanol y Cymoedd[12] yn hytrach na Chaerdydd sydd wedi ysgogi perfformiad cryf yn Ne-ddwyrain Cymru. Cynyddodd Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi yn y meysydd hyn 1.1% y flwyddyn rhwng 2002 a 2019, o'i gymharu â 0.5% y flwyddyn yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

4.12 Mewn mannau eraill, Abertawe a Sir y Fflint/Wrecsam sydd wedi bod yn brif ysgogwyr twf mewn cynhyrchiant yn eu rhanbarthau hwy (0.9% a 0.7% y flwyddyn yn y drefn honno). Mae hyn wedi gwneud iawn am berfformiad gwaeth mewn ardaloedd eraill.

**Ffigur 4.3: Elfennau o newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen, 2000-2019**

[12] Mae'r daearyddiaethau hyn yn ardaloedd Tiriogaethol Rhyngwladol Lefel 3 (ITL3) a elwid gynt yn ardaloedd NUTS3. Mae ITL Canol y Cymoedd yn cynnwys Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ac mae Cymoedd Gwent yn cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen




Ffynhonnell: ONS (2021a):


Mae’r bwlch o ran cynhyrchiant o'i gymharu â’r DU wedi ehangu, a hynny'n bennaf oherwydd y sector eiddo

4.13 Cynhyrchodd economi Cymru £47,600 mewn Gwerth Ychwanegol Gros ar gyfer pob swydd wedi’i llenwi yn 2019 o gymharu â £57,700 yn y DU.

4.14 Ffigur 4.4

4.15 Dengys Ffigur 4.4 fod cynhyrchiant llafur wedi aros yn is na holl wledydd y DU, ac wedi gostwng rhyw fymryn o 84% o gyfartaledd y DU yn 2002 i 82% yn 2019. Er bod rhywfaint o dystiolaeth bod y bwlch wedi lleihau ers 2010. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae'r Alban wedi gweld mwy o gynnydd mewn cynhyrchiant llafur nag unrhyw wlad arall yn y DU ers 2002 ac mae bellach dim ond fymryn islaw cyfartaledd y DU.

**Ffigur 4.4: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi, 2000-2019 (prisiau 2019)**




Ffynhonnell: ONS (2021b)

4.16 Gellir rhannu'r newid hwn mewn cynhyrchiant llafur yn dair elfen wahanol:

- 'effaith o fewn sector' sy'n ymwneud â gwelliannau mewn cynhyrchiant o fewn sectorau ac felly heb ei effeithio gan ailddyrannu cyflogaeth i sectorau gwahanol.
- 'effaith newid strwythurol statig' sy'n crynhoi effaith gyffredinol symudiad cyflogaeth tuag at sectorau â chynhyrchiant llafur is neu uwch ar ddechrau'r cyfnod (2002).
- 'effaith newid strwythurol deinamig' sy'n mesur y rhyngweithio rhwng newidiadau mewn cynhyrchiant llafur a chyflogaeth ar draws sectorau dros y cyfnod 2002-19. Mae'r term hwn yn gadarnhaol os bydd sectorau â thwf uwch mewn cynhyrchiant yn cynyddu eu cyfran o gyfanswm cyflogaeth (ac i'r gwrthwyneb), ac yn negyddol pan fydd gan sectorau sy'n ehangu dwf is na'r cyfartaledd o ran cynhyrchiant llafur neu os bydd sectorau â thwf uwch o ran cynhyrchiant yn gweld eu cyfrannau o gyfanswm cyflogaeth yn gostwng.

4.17 Mae Tabl 4.1 isod yn dangos bod y prif welliannau mewn cynhyrchiant llafur yng Nghymru wedi'u hachosi gan gynnydd mewn cynhyrchiant o fewn sectorau, a symudiad mewn cyflogaeth tuag at sectorau â chynhyrchiant uwch ar ddechrau'r cyfnod. Fodd bynnag, cafodd yr effaith newid strwythurol hon ei dileu gan 'effaith ddeinamig negyddol', wrth i gyfran cyflogaeth mewn sectorau â thwf mewn cynhyrchiant ostwng dros amser (e.e. gweithgynhyrchu).

4.18 Dengys dadansoddiad manylach fod y canlyniadau ar gyfer y DU a Chymru yn sensitif iawn i newidiadau mewn un sector (gweithgareddau eiddo tirol), sy'n cyfrif am 11% a 13% o Werth Ychwanegol Gros yng Nghymru a'r DU yn y drefn honno ond dim ond 1% a 2% o gyflogaeth. Mae nifer o faterion cysyniadol yn gysylltiedig â'r sector hwn; mae'r rhan fwyaf o'i werth yn cynnwys rhenti a delir gan denantiaid i landlordiaid a rhenti wedi'u priodoli i berchnogion tai, ac felly nid oes ganddo lawer o gysylltiad â chynhyrchiant llafur. O ystyried bod cyfatebiaeth gref rhwng rhenti a phrisiau tai, gellir priodoli cyfran fawr o'r twf yn y sector hwn i'r twf cryf mewn prisiau tai yn ystod degawd cyntaf y ganrif hon, a oedd yn ffafrio rhannau eraill o'r DU yn fwy

na Chymru.  Os caiff y sector hwn ei hepgor, mae’r cynnydd absoliwt mewn cynhyrchiant llafur rhwng 2002 a 2019 yn dal yn uwch yn y DU, ond mae’r cynnydd canrannol yr un fath (12%) sy’n golygu nad yw’r bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a’r DU wedi newid dros y cyfnod hwn.

4.19 Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod y twf mewn cynhyrchiant yn y DU dros y cyfnod hwn wedi’i wasgaru ar draws nifer fwy o sectorau na Chymru, ac wedi’i ysgogi’n bennaf gan sectorau gwasanaeth hynod grefftus a masnachadwy fel TGCh a gwasanaethau proffesiynol.  Cyfrannodd y sectorau hyn at welliant o £3,400 mewn cynhyrchiant fesul swydd wedi’i llenwi yn y DU ond dim ond £1,400 yng Nghymru.  Y prif gyfranwyr at dwf mewn cynhyrchiant yng Nghymru oedd iechyd a gwaith cymdeithasol, cyfanwerthu a manwerthu a gweithgareddau gweinyddol a chymorth.

**Tabl 4.1: Elfennau o newid mewn cynhyrchiant llafur, 2000-2019**

| | Elfen | Cymru | Y DU |
|---|---|---|---|
| Economi gyfan | Effaith o fewn sector | 3,700 | 5,800 |
| | Effaith newid strwythurol | 7,700 | 2,500 |
| | Effaith ddeinamig | (8,200) | (2,200) |
| | **Cyfanswm** | **3,100** | **6,100** |
| Ac eithrio gweithgareddau eiddo tirol | Effaith o fewn sector | 7,700 | 7,600 |
| | Effaith newid strwythurol | (200) | (1,100) |
| | Effaith ddeinamig | (2,900) | (1,200) |
| | **Cyfanswm** | **4,600** | **5,200** |


Ffynhonnell: ONS (2021b) and ONS (2021c). Cyfrifiadau gan Hatch

### Twf swyddi

Mae cyfanswm nifer y swyddi yng Nghymru wedi cynyddu 215,000 ers 2000, sef cynnydd o 17%.  Mae hyn ond fymryn yn is na’r cynnydd yn y DU (18%) ac mae ymhell uwchlaw cyfradd twf yr Alban (11%).

4.20 **Ffigur** 4.5

**Ffigur 4.5: Mynegai newid mewn swyddi ar gyfer gwledydd y DU, 2000-2019 ((2000=100)**





Ffynhonnell: ONS (2022a)

4.21 Cyflawnodd De-orllewin Cymru'r gyfradd twf swyddi uchaf o blith yr holl ranbarthau (24%). Roedd hyn hefyd yn uwch na chyfartaledd y DU o 18%. Roedd twf swyddi ar ei isaf yn Ne-ddwyrain a Chanolbarth Cymru (13% a 10% yn y drefn honno).

4.22 Mae'r gyfradd isel o dwf swyddi yn Ne-ddwyrain Cymru yn cuddio amrywiadau sylweddol o fewn y rhanbarth hwn; tyfodd nifer y swyddi yng Nghaerdydd 51,000 neu 27%, gan gyfrif am dros 60% o dwf swyddi yn y rhanbarth. Roedd twf swyddi yn llawer is mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen (oll yn llai na 10%) ac roedd yn negyddol mewn dwy ardal (Blaenau Gwent a Bro Morgannwg). Mewn mannau eraill, roedd twf wedi'i wasgaru'n fwy cyfartal. Er enghraifft, gwelwyd twf o dros 20% o swyddi ym mhob un o ardaloedd De-orllewin Cymru.

**Ffigur 4.6: Mynegai newid mewn swyddi ar gyfer rhanbarthau Cymru, 2000-2019 (2000 = 100)**





Ffynhonnell: ONS (2022a). Noder: mae data wedi'i lyfnhau gan ddefnyddio cyfartaleddau symudol tair blynedd

### Dwysedd Swyddi

4.23 Roedd 76 o swyddi ar gyfer pob 100 o breswylwyr o oedran gweithio yng Nghymru yn 2020[13]. Mae hyn wedi cynyddu o 69 yn 2000. Yng Nghymru y mae'r dwysedd swyddi isaf o blith gwledydd y DU ond mae'r bwlch rhwng cyfartaledd y DU wedi lleihau ychydig ers 2000 (o 87% o'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2000 i 90% yn 2020). Gan fod twf swyddi wedi bod yn is na'r DU dros y cyfnod hwn, mae'r lleihad yn y bwlch i'w briodoli i lai o dwf ym mhoblogaeth oedran gweithio Cymru ers 2000 (7.2% o gymharu ag 11.2% yn y DU).

[13] Daw'r data swyddi o amcangyfrifon dwysedd swyddi ONS sy'n dwyn ynghyd nifer o wahanol ffynonellau data. Y prif un yw'r Arolwg o'r Gofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) sydd â dyddiad cyfeirio o 11 Medi 2020. Mae'r data swyddi ar gyfer 2020 felly'n cynnwys effeithiau cynnar y pandemig Covid.


**Ffigur 4.7: Dwysedd swyddi yng ngwledydd y DU, 2000-2020**




Ffynhonnell: ONS (2022a)

4.24 Canolbarth Cymru sydd â'r dwysedd swyddi uchaf o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru (85 o swyddi ar gyfer pob 100 o breswylwyr o oedran gweithio) a De-ddwyrain a De-orllewin Cymru sydd â'r dwysedd isaf (74). Gwelwyd cynnydd mawr mewn dwysedd swyddi ym mhob ardal ac eithrio De-ddwyrain Cymru, ble y gwelwyd cynnydd o 2 bwynt canran yn unig. Mae hyn yn adlewyrchiad o lai o dwf mewn swyddi yn y rhanbarth ond hefyd twf cryf yn y boblogaeth o oedran gweithio (11%), yn enwedig yng Nghaerdydd. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, gwelwyd cynnydd o ddim ond 1% yn y boblogaeth o oedran gweithio yng Ngogledd Cymru a gostyngiad o 5% yn y Canolbarth sydd hefyd yn esbonio'r cynnydd mawr mewn dwysedd swyddi yn yr ardaloedd hyn.

**Ffigur 4.8: Dwysedd swyddi yn rhanbarthau Cymru, 2000-2020**




Ffynhonnell: ONS (2022a). Noder: mae data wedi'i lyfnhau gan ddefnyddio cyfartaleddau symudol tair blynedd

**Crynodeb**

4.25 Dengys y dadansoddiad mai ychydig o dystiolaeth sydd o gydgyfeirio[14] mewn perfformiad economaidd rhwng Cymru a'r DU ers 2000. Mae'r rhan fwyaf o ddangosyddion yn awgrymu bod Cymru wedi perfformio'n unol ag economi'r DU yn gyffredinol, neu ychydig yn waeth; felly nid yw'r bwlch perfformiad wedi cau.

4.26 Prif lwyddiant Cymru fu cynyddu'r defnydd o'i gweithlu (sicrhau bod mwy o'i phoblogaeth sy'n oedolion yn gweithio). Er bod cyfradd y defnydd o lafur yn dal yn is na chyfartaledd y DU, mae wedi cynyddu'n gyflymach na rhannau eraill o'r DU ers dechrau'r ganrif hon, sydd wedi cyfrannu at safonau byw uwch[15]. Mae hyn wedi bod yn wir yn y rhan fwyaf o ranbarthau Cymru, ac eithrio'r De-ddwyrain, sydd wedi cael ei ddal yn ôl gan dwf araf mewn swyddi mewn nifer o ardaloedd y tu allan i brif ddinas Caerdydd. Mewn mannau eraill mae twf swyddi wedi bod yn gryf iawn, yn enwedig yn Ne-orllewin a Gogledd Cymru, sydd wedi cyfrannu at godi safonau byw yn y rhanbarthau hyn.

4.27 Mae'r bwlch mewn cynhyrchiant llafur rhwng Cymru a'r DU wedi ehangu ychydig yn gyffredinol, ond nid yw wedi newid os caiff y sector eiddo ei hepgor. Yng Nghymru, yr unig ranbarth sydd wedi cyfateb i dwf cynhyrchiant y DU yw De-ddwyrain Cymru, ond mae hyn yn cuddio amrywiadau sylweddol o fewn isranbarthau. Mae ardaloedd

[14] Mae cydgyfeiriant yn digwydd pan fydd economïau neu lefelau incwm rhanbarthau tlotach yn tyfu'n gyflymach nag ardaloedd cyfoethocach. Er mwyn cael tystiolaeth o gydgyfeirio byddem yn disgwyl gweld Cymru'n tyfu'n gyflymach na'r cyfartaledd

[15] Mae'r galw cynyddol am lafur wedi cyfrannu at hyn ond gallai hyn hefyd fod oherwydd ffactorau'n ymwneud â'r ochr gyflenwi (e.e. cyfraddau cyflawniad uwch yn yr ysgol a phontio gwell i'r farchnad lafur, neu ymyriadau yn y farchnad lafur sydd wedi helpu/annog pobl i fynd yn ôl i weithio)

lleol sydd wedi perfformio'n arbennig o gryf yn cynnwys Cymoedd Gwent a Chanol y Cymoedd, Abertawe a Sir y Fflint a Wrecsam.

**Ardaloedd Astudiaethau Achos**


Twf mewn Gwerth Ychwanegol Gros

4.28 Dengys Ffigur 4.9 fod economi Abertawe wedi tyfu'n gyflymach nag ardaloedd astudiaethau achos eraill a chyfartaledd Cymru. Mewn termau real, cynyddodd y Gwerth Ychwanegol Gros 35% o gymharu â 25% yng Nghymru gyfan.

4.29 Profodd Ynys Môn a Gwynedd dwf cryf yn ystod degawd cyntaf y ganrif hon, ond dirywiodd am nifer o flynyddoedd ar ôl y cwymp economaidd yn 2008/9, ac nid yw wedi adfer yn llwyr o hynny eto, ac mae'r Gwerth Ychwanegol Gros yn dal yn is na'r lefel yr oedd yn 2007 mewn termau real. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd perfformiad economaidd Castell-nedd Port Talbot yn wael am y rhan fwyaf o ddegawd cyntaf y ganrif hon ond mae wedi profi cyfradd twf llawer uwch ers 2010.

4.30 Y twf economaidd ym Mlaenau Gwent yw'r gwannaf o blith pedair ardal yr astudiaethau achos dros y cyfnod hwn, ond mae tystiolaeth o dwf cryfach ers 2015.

**Ffigur 4.9: Newid wedi'i fynegeio mewn Gwerth Ychwanegol Gros go iawn, 2000-2019 (2000=100)**




**Ffynhonnell: ONS (2021d). Mae'r data wedi'i lyfnhau gan ddefnyddio cyfartaleddau symudol tair blynedd**

**Tabl 4.2**

4.31 Dengys Tabl 4.2 beth sydd wedi llywio'r gwahaniaethau hyn mewn perfformiad economaidd drwy ddadansoddi newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul diwydiant. Mae'n dangos y gellir esbonio llawer o berfformiad cryf Abertawe gan wahaniaethau strwythurol yn economi'r ardal o gymharu ag ardaloedd eraill:

- Gwelwyd gostyngiad mawr yng ngwerth y sector gweithgynhyrchu ym mhob ardal. Roedd y gostyngiad hwn ar ei uchaf yn Abertawe (mewn termau absoliwt a chanrannol). Fodd bynnag, roedd Abertawe'n llawer llai dibynnol ar

y sector hwn am incwm nag ardaloedd eraill. Roedd gweithgynhyrchu ond yn cyfrif am 12% o Werth Ychwanegol Gros Abertawe yn 2000 o gymharu â thros 45% ym Mlaenau Gwent a Chastell-nedd Port Talbot a 24% yn Ynys Môn a Gwynedd. Felly nid yw'r effaith gyffredinol ar dwf wedi bod mor fawr. Mae gweithgynhyrchu yn parhau i fod yn hanfodol bwysig ym Mlaenau Gwent (23% o Werth Ychwanegol Gros yn 2019) a Chastell-nedd Port Talbot (17%) lle mae'r rhan fwyaf o'r gwerth hwn yn cael ei gynhyrchu gan y diwydiant dur a'r gadwyn gyflenwi.

- Mae gwasanaethau preifat, a oedd yn cyfrif am gyfran fwy o Werth Ychwanegol Gros yn Abertawe ar ddechrau'r cyfnod, wedi tyfu'n gyflymach nag mewn ardaloedd eraill. Mae hyn yn cynnwys TGCh a gwasanaethau ariannol, proffesiynol a busnes a gynyddodd i gyd dros 4% y flwyddyn Roedd hyn yn gwneud iawn am golli incwm o weithgynhyrchu.
- Mae twf is yn y sectorau hyn mewn meysydd eraill wedi golygu eu bod wedi bod yn llawer mwy dibynnol ar wariant ar wasanaethau cyhoeddus (iechyd, addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus) i gefnogi twf. Roedd gwasanaethau cyhoeddus yn cyfrif am 56% o dwf net mewn Gwerth Ychwanegol Gros yn Ynys Môn a Gwynedd, 78% yng Nghastell-nedd Port Talbot ac 84% ym Mlaenau Gwent. Mae hyn yn golygu bod yr ardaloedd hyn yn debygol iawn o wynebu toriadau mewn gwariant cyhoeddus yn y dyfodol.
- Mae yna sectorau eraill sydd wedi cyfrannu at dwf mewn rhai ardaloedd. Lletygarwch (gwestai a bwytai) yw un o'r prif feysydd sydd wedi ysgogi twf yn Ynys Môn a Gwynedd, gyda thwf o 3.4% y flwyddyn. Mae trafnidiaeth a storio hefyd wedi tyfu'n gyflym iawn yng Nghastell-nedd Port Talbot[16].

**Tabl 4.2: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul diwydiant, 2000 i 2018 (prisiau 2019)**

| | Ynys Môn a Gwynedd | | Blaenau Gwent | | Castell-nedd Port Talbot | | Abertawe | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | % y.f. | £m | % y.f. | £m | % y.f. | £m | % y.f. |
| Amaethyddiaeth, mwyngloddio, cyfleustodau | -69 | -1.1% | 27 | 3.9% | 36 | 1.5% | 13 | 0.4% |
| Gweithgynhyrchu | -88 | -1.3% | -106 | -2.2% | -317 | -2.8% | -234 | -4.2% |
| Adeiladu | 91 | 2.1% | 6 | 1.1% | 76 | 2.7% | 87 | 1.8% |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 32 | 0.5% | 30 | 1.7% | 30 | 0.9% | 155 | 1.4% |
| Cludiant a storio | 113 | 3.6% | -13 | -3.4% | 171 | 8.0% | -12 | -0.7% |
| Lletygarwch | 130 | 3.4% | 4 | 1.0% | 16 | 1.7% | 57 | 1.7% |
| TGCh | 51 | 5.2% | 11 | - | 21 | 8.3% | 197 | 4.4% |
| Cyllid ac yswiriant | -15 | -4.0% | 0 | 0.0% | -2 | -1.4% | 429 | 5.2% |
| Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 3 | 0.2% | 12 | 5.1% | 2 | 0.2% | 156 | 4.8% |

[16] Mae data'r ONS yn dangos cynnydd mawr iawn mewn Gwerth Ychwanegol Gros yn y diwydiant hwn yn 2016 ond nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r twf sydyn.


| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau gweinyddol a chymorth | 21 | 2.2% | 23 | 7.6% | 24 | 3.0% | 177 | 6.2% |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 392 | 2.9% | 69 | 2.1% | 291 | 3.2% | 639 | 2.5% |
| Gwasanaethau eraill | 35 | 1.5% | 19 | 4.5% | 28 | 2.4% | 98 | 2.6% |
| Cyfanswm | 696 | 1.0% | 82 | 0.4% | 375 | 0.6% | 1763 | 1.8% |

Ffynhonnell: ONS (2021d)

Gwerth Ychwanegol Gros y pen

4.32 Mae twf uwch yn Abertawe wedi helpu i gau'r bwlch mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen â chyfartaledd y DU; o 72% yn 2018 i 77% yn 2018 oherwydd cyfuniad o dwf cryf mewn swyddi, mwy o ddefnydd o lafur a thwf mewn cynhyrchiant (gweler isod). Fodd bynnag, ehangodd y bwlch ym mhob ardal arall, yn enwedig yng Nghastell-nedd Port Talbot oherwydd twf gwan a chynnydd yn y boblogaeth (er bod twf Gwerth Ychwanegol Gros yn wannach ym Mlaenau Gwent, ychydig o newid a fu yn y boblogaeth).

**Ffigur 4.10: Newid wedi'i fynegeio mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen (DU=100)**




Ffynhonnell: ONS (2021d) ac ONS (2021e).


Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi

4.33 Gwelwyd cynnydd o dros £6,400 mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi yn Abertawe rhwng 2002 a 2019 (neu 0.9% y flwyddyn) Roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sy'n golygu bod y bwlch mewn cynhyrchiant wedi lleihau o 80% o gyfartaledd y DU i 83%. Roedd hyn oherwydd twf cryf mewn sectorau gwasanaeth gwerth ychwanegol uwch.

4.34 Ynys Môn a Gwynedd oedd yr unig ardal lle y gostyngodd Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi mewn termau real (gostyngiad o £3,500) sy'n golygu bod y bwlch cynhyrchiant rhwng cyfartaledd y DU wedi ehangu'n sylweddol (o 83% o gyfartaledd y DU yn 2002 i 68% yn 2019). Ymddengys fod hyn i'w briodoli i effeithiau

newid strwythurol, yn enwedig y dirywiad mewn swyddi gweithgynhyrchu gwerth uchel a thwf swyddi gwerth is yn y sector lletygarwch[17].

**Ffigur 4.11: Newid mewn Gwerth Ychwanegol Gros fesul swydd wedi'i llenwi, 2000-2019 (y DU = 100)**





Ffynhonnell: ONS (2021f).

Twf swyddi

4.35 Cynyddodd cyfanswm y swyddi dros 20% rhwng 2000 a 2020 mewn tair ardal astudiaeth achos sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU (17% a 18% yn y drefn honno). Yr unig eithriad oedd ym Mlaenau Gwent lle y gostyngodd nifer y swyddi yn ystod deng mlynedd gyntaf y ganrif hon ac yna arhosodd yn weddol sefydlog. O ganlyniad, roedd nifer y swyddi yn y fwrdeistref yn 2020 yn dal i fod 3,000 yn is nag yn 2000.

[17] Mae prinder data cyfres amser cyson a dibynadwy ar gyfer cyflogaeth mewn diwydiant mewn awdurdodau lleol yn golygu ei bod yn anodd mesur hyn.

**Ffigur 4.12: Newid wedi'i fynegeio yng nghyfanswm swyddi, 2000-2020**




Ffynhonnell: ONS (2022a)

Mae newid cyflogaeth fesul diwydiant wedi'i ddadansoddi dros ddau gyfnod oherwydd newid mewn setiau data cyflogaeth a chodau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) yn 2007[18].

[18] Mae Ymholiad Busnes Blynyddol ar gael ar gyfer y cyfnod 2000 i 2008 ac Arolwg y Gofrestr Busnes a Chyflogaeth o 2009 ymlaen. Felly mae newid rhwng 2008 a 2009 ar goll o'r dadansoddiad hwn

4.36 Tabl 4.3

- Y prif sbardunau o ran twf swyddi yn Ynys Môn a Gwynedd oedd gwestai a bwytai (gan adlewyrchu diwydiant twristiaeth mawr yr ardal) a chyfanwerthu a manwerthu, a greodd 8,000 o swyddi.
- Gwelwyd gostyngiad mawr mewn cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu ym Mlaenau Gwent yn sgil cau gwaith dur Glynebwy, ond dioddefodd golledion llai hefyd mewn nifer o sectorau eraill gan gynnwys y sectorau adeiladu, busnes a gwasanaethau eraill. Yr unig sector i greu nifer fawr o gyfleoedd gwaith newydd oedd iechyd a gofal cymdeithasol.
- Roedd y colledion swyddi mwyaf yng Nghastell-nedd Port Talbot yn y meysydd gweithgynhyrchu ac adeiladu.  Roedd y newid mewn gweithwyr yn gadarnhaol ar y cyfan oherwydd yr ehangu mewn gwasanaethau cyhoeddus (gweinyddiaeth gyhoeddus ac iechyd a gofal cymdeithasol).
- Dirywiodd gweithgynhyrchu hefyd yn Abertawe ond gwelwyd twf cryf mewn busnes a gwasanaethau cyhoeddus.

**Tabl 4.3: Newid mewn gweithwyr fesul diwydiant, 2000-2008**

| | Ynys Môn a Gwynedd | Blaenau Gwent | Castell-nedd Port Talbot | Abertawe |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, mwyngloddio, ac ati | -1,355 | -10 | 50 | -90 |
| Gweithgynhyrchu | 0 | -2,000 | -3,000 | -4,000 |
| Adeiladu | -500 | -700 | -1,250 | -500 |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 3,500 | 500 | 0 | -2,000 |
| Gwestai a bwytai | 4,500 | -100 | 1,000 | 3,000 |
| Cludiant, storio a chyfathrebu | 1,400 | 100 | 0 | -1,000 |
| Cyllid ac yswiriant | 300 | -75 | 0 | 500 |
| Eiddo tirol a gweithgareddau busnes | 1,500 | -250 | 500 | 6,000 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus | 1,850 | 200 | 1,750 | 3,000 |
| Addysg | -1,250 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a gofal cymdeithasol | 2,750 | 1,000 | 3,000 | 4,000 |
| Gwasanaethau eraill | 250 | -550 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 12,945 | -1,885 | 2,050 | 8,910 |

Ffynhonnell: ONS (2018)

4.37 Dros y cyfnod 2009 i 2020:

- Parhaodd y twf mewn lletygarwch (gwestai a bwytai) yn Ynys Môn a Gwynedd, er nad oedd ar yr un gyfradd â chyn 2008. Gwelwyd twf cryf hefyd yn y meysydd adeiladu ac iechyd a gofal cymdeithasol, ond gostyngiadau mawr mewn cyflogaeth yn y meysydd cyfanwerthu a manwerthu a gweinyddiaeth gyhoeddus.
- Bu colledion swyddi pellach mewn ystod eang o sectorau ym Mlaenau Gwent gan gynnwys cyfanwerthu a manwerthu a gwasanaethau cyhoeddus, ond cyfyngedig iawn oedd yr ehangu mewn sectorau eraill.
- Gwelwyd twf swyddi cryf yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'i ysgogi'n bennaf gan wasanaethau cyhoeddus (gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd) a thrafnidiaeth a storio.
- Parhaodd gwasanaethau ariannol, proffesiynol a gwasanaethau busnes eraill i dyfu yn Abertawe, gan greu cyfanswm o tua 2,800 o swyddi. Roedd twf cryf hefyd yn y sectorau lletygarwch a gweithgynhyrchu.

**Tabl 4.4: Newid mewn cyflogeion yn ôl diwydiant, 2009-2020**

| | Ynys Môn a Gwynedd | Blaenau Gwent | Castell-nedd Port Talbot | Abertawe |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, mwyngloddio ac ati | 175 | 305 | 1,500 | 400 |
| Gweithgynhyrchu | -375 | 0 | -1,000 | 1,000 |
| Adeiladu | 1,125 | -200 | -130 | 250 |
| Cyfanwerthu a manwerthu | -2,570 | -895 | -1,450 | -1,430 |
| Cludiant a storio | -375 | -350 | 1,370 | 0 |
| Gwestai a bwytai | 2,620 | 225 | 500 | 1,000 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 70 | -10 | 300 | -625 |
| Cyllid ac yswiriant | -290 | 10 | -150 | 750 |
| Gweithgareddau eiddo tirol | 735 | 265 | 450 | 675 |
| Proffesiynol, gwyddonol a thechnoleg | -200 | 110 | 40 | 520 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chymorth busnes | -225 | 100 | 510 | 1,500 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus | -1,250 | 0 | 1,500 | 1,000 |
| Addysg | 620 | -250 | 1,000 | -1,000 |
| Iechyd a gofal cymdeithasol | 2,370 | -750 | 1,000 | 0 |
| Celfyddydau, hamdden ac eraill | 770 | 200 | 120 | -500 |
| Cyfanswm | 3,200 | -1,240 | 5,560 | 3,540 |


Ffynhonnell: ONS (2020)

Dwysedd swyddi

4.38 Mae gwahaniaethau sylweddol yn nwyseddau swyddi pob un o ardaloedd yr astudiaethau achos.  Mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried bod rhai yn ganolfannau cyflogaeth mawr (e.e. Abertawe) ac eraill yn ardaloedd preswyl yn bennaf gyda chysylltiadau cymudo agos â chanolfannau cyflogaeth cyfagos (e.e. Blaenau Gwent).

4.39 Dengys Ffigur 4.13 mai Blaenau Gwent yw'r unig ardal ble y gwelwyd lleihad yn nwysedd ei swyddi rhwng 2000 a 2020, sy'n golygu bod llai o swyddi fesul preswylydd o oedran gweithio nawr nag yr oedd yn 2000.  Bu cynnydd mawr mewn dwysedd swyddi yn Ynys Môn a Gwynedd o ganlyniad i dwf swyddi cryf ond hefyd llai o dwf yn y boblogaeth o oedran gweithio (1.7% o gymharu â 6.7% yng Nghastell-nedd Port Talbot a 10.8% yn Abertawe).

**Ffigur 4.13: Dwysedd swyddi, 2000-2020**





Ffynhonnell: ONS (2022a)

4.40 Diweithdra

4.41 Ffigur 4.14 y bu cynnydd mewn diweithdra ym mhob ardal yn ystod y dirywiad economaidd yn 2008/9. Roedd hyn yn arbennig o fawr ym Mlaenau Gwent lle y cyrhaeddodd y gyfradd ddiweithdra leol 15%. Gwelwyd gostyngiad mewn diweithdra ers hynny ym mhob ardal ac roedd ganddynt gyfraddau diweithdra gweddol debyg o 4% yn 2020[19]. Mae hyn er gwaethaf y gostyngiad mewn swyddi a dwysedd swyddi ym Mlaenau Gwent sy'n awgrymu y bu cynnydd mewn cymudo o'r ardal i gael mynediad at gyfleoedd gwaith y tu allan i'r fwrdeistref.

[19] Nid yw amcangyfrifon diweithdra wedi'u modelu ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos cynnydd mawr mewn diweithdra oherwydd y pandemig Covid yn 2020 er gwaethaf cynnydd mawr yn nifer a chanran y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol sy'n ddi-waith ym mhob ardal.

**Ffigur 4.14: Cyfradd diweithdra, 2004-2020**




Ffynhonnell: ONS (2022b). Noder: mae'r data yma ar gyfer Ynys Môn ac nid Ynys Môn a Gwynedd. Mae hyn oherwydd mai dim ond ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol y mae amcangyfrifon o ddiweithdra wedi'u modelu ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gael

Crynodeb

4.42 Mae'r dadansoddiad yn dangos amrywiadau mawr mewn perfformiad economaidd rhwng ardaloedd yr astudiaethau achos:

- Mae perfformiad economaidd Abertawe wedi tyfu'n gyflymach nag unrhyw un o ardaloedd yr astudiaeth; mae hyn i'w briodol i gyfuniad o dwf cryf mewn swyddi a chynhyrchiant sydd wedi gweld y bwlch yn cau rhwng y ddinas a chyfartaledd y DU. Bu twf mewn gwasanaethau ariannol, proffesiynol a busnes a TGCh yn allweddol i hyn. Mae hyn wedi bod yn nodwedd o nifer o ddinasoedd yn y DU dros yr ugain mlynedd diwethaf, sydd wedi bod yn brif ganolfannau twf a chynhyrchiant yn wyneb sector gweithgynhyrchu sy'n dirywio.
- Er bod Castell-nedd Port Talbot wedi profi twf swyddi cryf a chynnydd mewn dwysedd swyddi, mae hyn wedi'i ysgogi'n bennaf gan yr ehangu yn y sector cyhoeddus. Mae arallgyfeirio neu dwf cyfyngedig yn y sector preifat hefyd yn golygu bod y fwrdeistref yn dal i fod yn ddibynnol iawn ar y diwydiant dur. Felly mae'r fwrdeistref yn debygol o wynebu toriadau gwariant yn y dyfodol ac ansicrwydd parhaus sy'n gysylltiedig â dyfodol y gwaith dur.
- Mae twf swyddi hefyd wedi bod yn gryf yn Ynys Môn a Gwynedd, yn enwedig mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, sydd wedi arwain at gynnydd mawr yn argaeledd swyddi ac wedi cyfrannu at dwf mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen. Fodd bynnag, mae cynhyrchiant isel y swyddi hyn, ynghyd â gostyngiadau mewn sectorau gwerth uchel fel gweithgynhyrchu, wedi arwain at ostyngiad cyffredinol mewn cynhyrchiant.
- Gellir dadlau mai Blaenau Gwent sy'n wynebu'r heriau mwyaf o blith unrhyw un o ardaloedd yr astudiaethau achos. Mae'r fwrdeistref wedi cael anhawster i addasu i ddirywiad y diwydiant dur, sef cyflogwr mwyaf y fwrdeistref ar

ddiwedd y 1990au.  Cyfyngedig fu'r twf mewn unrhyw sector ers dechrau’r ganrif hon, sydd wedi golygu mai dyma’r unig ardal ble y gwelwyd gostyngiad yn nifer y swyddi a dwysedd swyddi.  Mae hyn wedi golygu bod angen i breswylwyr gymudo fwyfwy y tu allan i'r fwrdeistref er mwyn manteisio ar gyfleoedd gwaith.  Mae Mynegai Cystadleurwydd y DU 2021 hefyd yn graddio Blaenau Gwent fel yr ardal leiaf cystadleuol ym Mhrydain Fawr gan awgrymu bod yr ardal yn wynebu heriau strwythurol dwfn, sy’n cyfyngu ar dwf (Prifysgol Caerdydd a Nottingham, 2021)

## 5. Cyflwyniad i'r Astudiaethau Achos

5.1 Mae'r pedair pennod a ganlyn yn cyflwyno astudiaethau achos ar gyfer pedair ardal sydd wedi elwa ar fuddsoddiad a ariannwyd gan yr UE mewn seilwaith economaidd ar draws rhaglenni 2000-06 a 2007-13. Prif ddiben y pedair astudiaeth achos yw ymchwilio i weld a yw gwahanol fathau o seilwaith yn gweithio gyda'i gilydd, ac os felly sut, er budd yr economi leol, preswylwyr a busnesau. Mae hyn yn archwilio:

- a gafodd seilwaith ei ddylunio i'w ddefnyddio mewn ffordd sy'n ategu seilwaith arall
- a yw hyn wedi digwydd yn ymarferol
- y berthynas rhwng seilwaith hŷn a seilwaith newydd ac a oes tystiolaeth o ddadleoli defnyddwyr o seilwaith hen i seilwaith newydd yn yr un ardal
- tystiolaeth o'r buddion cymunedol y mae prosiectau wedi'u sicrhau hyd yma.

5.2 Nodwyd pedwar maes yr astudiaeth achos yn adroddiad Cam 2 yn dilyn ymarfer mapio manwl o fuddsoddiadau ERDF. Roedd hyn yn dangos bod pob un o'r ardaloedd wedi elwa o fuddsoddiad ERDF mewn nifer o wahanol fathau o seilwaith economaidd. Yr ardaloedd hyn yw:

- Abertawe: £117 miliwn o fuddsoddiad ERDF, allan o gyfanswm buddsoddiad o £234 miliwn gan gynnwys arian cyfatebol.
- Port Talbot: £73 miliwn (cyfanswm o £144 miliwn)
- Blaenau Gwent: £113 miliwn (cyfanswm o £267 miliwn)
- Ynys Môn a Bangor: £49 miliwn (cyfanswm o £93 miliwn)

5.3 Amcangyfrifodd adroddiad Cam 2 mai cyfanswm buddsoddiad ERDF dros y ddwy raglen oedd £797 miliwn (gweler Tabl 3.5 yn adroddiad Cam 2). Felly mae'r astudiaethau achos yn cwmpasu 44% o gyfanswm buddsoddiad ERDF mewn seilwaith economaidd dros y ddwy raglen.

5.4 Mae pob astudiaeth achos wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Crynodeb o'r buddsoddiadau**: trosolwg o sut y gwariwyd cyllid ERDF mewn gwahanol fathau o seilwaith ac ym mha leoliadau. Defnyddir hyn i nodi'r prif glystyrau o fuddsoddiad, lle y gallai gwahanol brosiectau fod wedi ategu ei gilydd.
- **Cyd-destun economaidd a'r cyd-destun polisi**: mae hyn yn disgrifio'r heriau a'r blaenoriaethau economaidd ar yr adeg y cynlluniwyd ac y darparwyd buddsoddiadau mewn seilwaith. Mae hyn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau mwyaf perthnasol a ddylanwadodd ar y buddsoddiadau.
- **Sut y cynlluniwyd y buddsoddiadau i ategu mathau eraill o seilwaith:** mae'n asesu a oedd buddsoddiadau seilwaith yn rhan o strategaeth integredig a'r ffyrdd y cawsant eu cynllunio i ategu mathau eraill o seilwaith.
- **Y seilwaith heddiw:** mae hyn yn rhoi trosolwg byr o p'un a yw'r seilwaith a ariannwyd gan ERDF yn dal i gael ei ddefnyddio, gan gyfeirio at adroddiad Cam 2 ac adborth gan ymgyngoreion.

- **Tystiolaeth o ganlyniadau**: mae hyn yn asesu i ba raddau y mae rhaglenni buddsoddi ar sail ardal a oedd yn cynnwys prosiectau ERDF wedi cyflawni eu hamcanion, ac wrth wneud hynny mae’n dod i gasgliadau ynghylch a yw'r seilwaith gwell wedi gweithio gyda’i gilydd er budd yr economi leol a sut.
- **Canfyddiadau arolygon**: dyma'r canfyddiadau allweddol o arolygon o breswylwyr a busnesau ym mhob ardal. Defnyddiwyd y rhain i grynhoi barn busnesau a phreswylwyr am rinweddau'r ardal fel lle i wneud busnes, i fuddsoddi, i fyw ac i weithio, i ba raddau y mae hyn wedi newid dros y degawd diwethaf, a'r gwahaniaeth y mae buddsoddiadau allweddol mewn seilwaith gan gynnwys buddsoddiadau ERDF wedi'i wneud.

**Dulliau ymchwil**

5.5 Roedd y prif ddulliau ymchwil ar gyfer yr astudiaethau achos yn cynnwys:

- Adolygu polisïau a thystiolaeth: roedd hyn yn cynnwys ystod eang o ddogfennau gan gynnwys dogfennau polisi a strategaethau, prif gynlluniau, erthyglau newyddion a dogfennau cynllunio awdurdodau lleol ac adroddiadau tystiolaeth (e.e. astudiaethau'n ymwneud â manwerthu, hamdden a thir cyflogaeth).
- Dadansoddi data: gan gynnwys setiau data'r farchnad lafur, busnes a'r farchnad eiddo.
- Ymgyngoriadau â rhanddeiliaid: roedd y rhain yn bennaf yn cynnwys swyddogion cynllunio a datblygu economaidd awdurdodau lleol, buddiolwyr mawr cyllid ERDF (e.e. prifysgolion), asiantau masnachol a grwpiau busnes (e.e. siambrau masnach). Mae rhestr o'r sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw wedi'i chynnwys yn yr atodiad.
- Arolygon o fusnesau a phreswylwyr: roedd hyn yn cynnwys arolwg dros y ffôn o breswylwyr a busnesau ym mhob un o'r pedair ardal.

Meintiau sampl

5.6 Y bwriad oedd y byddai'r arolygon yn cyfweld â 200 o fusnesau[20] a 200 o breswylwyr o bob un o'r pedair ardal.  Cyrhaeddwyd y targed hwn ym mhob un o'r pedair ardal ar gyfer yr arolwg o breswylwyr ond dim ond mewn dwy ardal y cyrhaeddwyd y targed o ran yr arolwg o fusnesau. Ni chyrhaeddwyd y targedau yng Nglynebwy a Phort Talbot. Roedd hyn oherwydd maint llawer llai y boblogaeth fusnes yn yr ardaloedd hyn ond hefyd amseriad yr arolygon yn ystod y pandemig Covid[21].  Roedd hyn yn golygu nad oedd modd cysylltu â nifer fawr o berchnogion busnes a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau (e.e. am eu bod yn gweithio o gartref) neu nid oeddent yn fodlon cymryd rhan yn yr arolwg.

---

[20] yn cwmpasu pob sector a busnes o bob maint ac eithrio masnachwyr unigol.

[21] Cynhaliwyd yr arolygon busnes mewn dau gyfnod (Tachwedd 2020 i Ionawr 2021 a Mai i Orffennaf 2021), ar ôl cael eu gohirio o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 a’r cyfyngiadau symud yn gynnar yn 2021

5.7 Anelodd yr arolygon o breswylwyr at gael sampl gynrychioliadol yn ôl oedran a rhyw a chafodd y canlyniadau eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw pob ardal.[22]. Roedd yr arolygon o fusnesau'n anelu at gael sampl a oedd yn gyffredinol gynrychioliadol o ran maint. Llwyddwyd i wneud hynny ond nid oedd y sampl yn gynrychioliadol o ran sector oherwydd yr anawsterau wrth annog busnesau i gymryd rhan.

**Tabl 5.1: Meintiau sampl ar gyfer yr arolygon o breswylwyr a busnesau**

| | Preswylwyr | Busnesau |
|---|---|---|
| Abertawe | 202 | 260 |
| Port Talbot | 201 | 61 |
| Blaenau Gwent | 200 | 116 |
| Ynys Môn a Bangor | 204 | 210 |

Cyfyngiadau'r arolygon

5.8 Roedd angen i'r arolwg ystyried a fyddai'n ceisio (i) canfod beth yw'r canfyddiadau cyffredinol o'r newid o ran manteision/anfanteision yr ardal fel lle i fyw, gweithio a gwneud busnes ynddo, a chyfraniad buddsoddiadau mewn seilwaith at hyn, neu (ii) barn am gymysgedd benodol o fuddsoddiadau ERDF mewn seilwaith a wnaed yn yr ardal. Cytunwyd â WEFO na fyddai'n ymarferol gwahaniaethu rhwng buddsoddiadau ERDF a buddsoddiadau na chawsant eu hariannu gan ERDF, ac mae'n bosibl bod y dull hwn wedi bod yn wrthgynhyrchiol o ystyried y farn gref ar ddau begwn y ddadl ynghylch yr UE ar yr adeg y cynhaliwyd yr ymchwil. Felly dewiswyd dull (i) uchod fel y dull a ffafriwyd. Un o gyfyngiadau'r dull hwn yw nad yw'n bosibl priodoli newidiadau yn y canfyddiadau o'r ardal yn uniongyrchol i fuddsoddiadau ERDF, er y gellir casglu hyn mewn llawer o achosion.

5.9 Yr her arall i'r arolwg yw'r cyfnod o amser a gwmpesir gan yr astudiaeth hon, sy'n cynnwys buddsoddiadau seilwaith a wnaed yn ystod rhaglenni 2000-06 a 2007-13. Daethpwyd i'r casgliad y byddai'n anymarferol gofyn i gyfranogwyr sut y mae eu canfyddiadau wedi newid ac i gofio sut y mae seilwaith wedi newid dros gyfnod o 20 mlynedd (yn enwedig i gyfranogwyr iau). Roedd yr arolygon felly'n canolbwyntio ar newidiadau dros y deng mlynedd diwethaf, sy'n golygu na ddylai buddsoddiadau a wnaed yn ystod 2000-06 a dechrau rhaglen 2007-13 fod wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar yr ymatebion, tra bod buddsoddiadau o raglen 2014-20 yn debygol o fod wedi dylanwadu ar yr ymatebion.

[22] Dewiswyd y cyfranogwyr ar hap o restr o rifau ffôn eiddo yn ardal yr astudiaeth achos

# 6. Astudiaeth Achos Abertawe

## Crynodeb o'r buddsoddiadau

6.1 Mae Dinas Abertawe wedi cael lleiafswm o £116.7 miliwn[23] o fuddsoddiad seilwaith a ariannwyd gan grant ERDF ar draws y ddwy raglen[24] (cyfanswm o £233 miliwn gan gynnwys arian cyfatebol). Gwnaed £30.5 miliwn o fuddsoddiad ERDF o dan raglen 2000-06 ac £86.2 miliwn o dan raglen 2007-13.

6.2 Gwariwyd y rhan fwyaf o'r buddsoddiad hwn mewn tri phrif faes:

- **Adfywio hen ardal y dociau** (a elwir bellach yn SA1). Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad newydd mewn ffyrdd (Porth Ffordd Fabian), gwaith ar seilwaith i ddarparu tir â gwasanaeth i'w ddatblygu, ac adeiladu eiddo masnachol newydd, gan gynnwys deorfa fusnes (Technium 2) ac adeiladau swyddfa newydd (ETHOS).
- **Adfywio canol y ddinas a'r glannau.** Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, gwell mynediad i gerddwyr a beicwyr rhwng y Glannau a chanol y ddinas, gwelliannau i gyfnewidfeydd trafnidiaeth a phrosiect Dinas y Glannau, a ariannodd amrywiaeth o fuddsoddiadau gan gynnwys seilwaith cerdded a beicio newydd, gwelliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus a phrosiectau datblygu eiddo.
- **Cryfhau seilwaith ymchwil ac arloesi mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn Abertawe**: roedd hyn yn un o brif elfennau rhaglen 2007-13, ac mae'n cynnwys Athrofa Gwyddor Bywyd 1 a 2, y Ganolfan Nanoiechyd, y Ganolfan Gweithgynhyrchu Peirianneg a'r Hyb Arloesi (sydd oll ym Mhrifysgol Abertawe).

[23] Yr amcangyfrif lleiaf yw hwn oherwydd bod rhaglenni buddsoddi sy'n rhychwantu awdurdodau lleol lluosog, lle nad yw'n bosibl pennu'r union swm a wariwyd yn Abertawe (e.e. buddsoddiad mewn band eang).


[24] Mae hyn ond yn berthnasol i ganol y ddinas a'r ardal gyfagos fel y dangosir yn Ffigur 6.1. Roedd buddsoddiadau eraill y tu allan i'r ardal hon, serch hynny, yn ardal awdurdod lleol Abertawe nad ydynt wedi'u cynnwys yn y clwstwr hwn.

**Tabl 6.1: Buddsoddiadau mewn seilwaith yn Abertawe**

| | Math o Seilwaith | Teitl y Prosiect | Ymgeisydd | Disgrifiad | Gwariant Grant yr UE (£m) | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2000-06 | Seilwaith dysgu | Canolfan Arloesedd Sony mewn Ffotograffiaeth a Fideo (SCIPV) | Athrofa Addysg Uwch Abertawe | Darparodd SCIPV gyfleusterau newydd ar gyfer ffotograffiaeth a fideo mewn adeilad wedi'i adnewyddu a'i ymestyn ar safle Ysgol Dynefwr | 1.6 | 3.2 |
| | Ymchwil ac Arloesi | Athrofa Gwyddor Bywyd I | Prifysgol Abertawe | Canolbwyntiodd canolfan ymchwil ac arloesi ym Mhrifysgol Abertawe ar wyddorau bywyd, gan gynnwys cyfleusterau ymchwil a deori | 6.1 | 16.6 |
| | | Canolfan Ymchwil ac Arloesi'r Diwydiannau Creadigol (CIRIC) | Athrofa Addysg Uwch Abertawe | Cyfleuster Ymchwil a Datblygu ar safle Ysgol Dinefwr gyda'r nod o annog arloesedd mewn ffilm, fideo, cyfryngau newydd, dylunio, cyhoeddi, celf weledol, celf gymhwysol, crefft, ffotograffiaeth a darlunio | 1.5 | 3.1 |
| | | Sefydliad Uwch-delathrebu - IAT | Prifysgol Abertawe | Wedi'i bwriadu i fod yn ganolfan Ymchwil a Datblygu a throsglwyddo technoleg o'r radd flaenaf yn y sector telathrebu. | 5.3 | 10.8 |
| | | Technium 2 | Llywodraeth Cymru | Un o'r adeiladau Technium gwreiddiol yn SA1, a oedd yn cynnig cyfleusterau deori busnes. Fe'i defnyddir bellach fel canolfan fusnes. | 3.2 | 6.2 |
| | Safleoedd ac Eiddo | Cam 2 (Parthau B ac C) Pentref Arloesi Porth Tawe | Llywodraeth Cymru | Darparu seilwaith safle a gwaith galluogi i ddatblygu ardal SA1 y Glannau | 1.8 | 5.0 |
| | | ETHOS | Grŵp ETHOS | Adeilad swyddfa newydd yn SA1 yn darparu tua 4,000 metr sgwâr o ofod swyddfa o ansawdd uchel | 2.4 | 6.9 |
| | | Datblygiad SA1 Glannau Abertawe | Llywodraeth Cymru | Datblygiad defnydd cymysg yn SA1 sy'n darparu safleoedd i'w datblygu yn ardal y glannau | 0.9 | 4.3 |
| | Twristiaeth | Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe | Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | Amgueddfa fawr wedi'i lleoli yng Nglannau Abertawe sy'n canolbwyntio ar hanes diwydiannol Cymru | 3.7 | 23.3 |
| | Trafnidiaeth | Cyfnewidfa Deithio yng Ngorsaf y Stryd Fawr a'r Llwybr Bws Cyflym | Cyngor Abertawe | Gwell cyfleusterau ar gyfer newidiadau rhyngfoddol rhwng rheilffyrdd, bysiau, tacsis, cerbydau preifat, beicwyr a cherddwyr. | 1.5 | 4.6 |
| | | Glannau Strategol Abertawe - Cyswllt Canol y Ddinas | Cyngor Abertawe | Creu cyswllt mynediad rhwng y datblygiad yn ardal Glannau Abertawe a chyfleusterau cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus Canol y Ddinas | 0.8 | 2.3 |
| | | Porth Ffordd Fabian | Cyngor Abertawe | Ffordd ddeuol 500-metr a oedd yn darparu mynediad i safle SA1 o gyffordd Ffordd Fabian. Mae'r ffordd yn arwain at gylchfan | 1.7 | 4.8 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wedi'i hailadeiladu a'i hailalinio yn Heol Langdon i ddarparu rhodfa sy'n arwain at Ffordd y Brenin a'r ardal fusnes. | | |
| 2007-13 | Ymchwil ac Arloesi | Athrofa Gwyddor Bywyd 2 | Prifysgol Abertawe | Cyfleuster newydd ger Athrofa Gwyddor Bywyd 1 wedi'i fwriadu i ddatblygu capasiti'r Athrofa Gwyddor Bywyd i gefnogi'r sector Gwyddor Bywyd | 12.1 | 27.9 |
| | | Canolfan Nanoiechyd | Prifysgol Abertawe | Wedi'i lleoli o fewn Athrofa Gwyddor Bywyd 2, mae'r cyfleuster hwn yn darparu sylfaen technoleg ac arloesi ar gyfer diwydiant a'r byd academaidd yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar Nanoiechyd | 9.9 | 21.1 |
| | | Canolfan Arloesi Bae Abertawe | Prifysgol Abertawe | Wedi'i lleoli ar Gampws Bae Abertawe, darparodd hyn gyfleusterau newydd ar gyfer ymchwil a datblygu diwydiannol gan ganolbwyntio ar ddeunyddiau a gweithgynhyrchu uwch. | 18.6 | 23.2 |
| | | Canolfan Gweithgynhyrchu Peirianneg | Prifysgol Abertawe | Wedi'i lleoli ar Gampws Bae Abertawe, roedd y ganolfan hon hefyd yn ceisio adeiladu ar gryfderau ymchwil ac arloesi presennol Prifysgol Abertawe mewn gweithgynhyrchu uwch ac annog cwmnïau gweithgynhyrchu lleol i ddefnyddio'r cyfleusterau. | 19.8 | 25.7 |
| | Trafnidiaeth | Cyfnewidfa Drafnidiaeth Cwadrant | Cyngor Abertawe | Disodli'r yr orsaf fysiau hen ffasiwn gyda chyfnewidfa drafnidiaeth fodern i ddarparu ar gyfer bysiau a choetsys, gan gynnwys cerbydau Metro Abertawe | 5.8 | 10.7 |
| | Cymysg | Dinas y Glannau | Cyngor Abertawe | Adfywio'r amgylchfyd cyhoeddus yn ffisegol a seilwaith cerdded/beicio newydd | 20.0 | 33.9 |
| | Digidol | Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru | Llywodraeth Cymru | Prosiect cenedlaethol sy'n darparu mynediad i fand eang cyflym iawn, gan gynnwys 14 o bwyntiau seilwaith mynediad agored yn Abertawe | ddim yn hysbys | ddim yn hysbys |

**Ffigur 6.1: Lleoliad buddsoddiadau ERDF yng Nghlwstwr Abertawe**



**Dadansoddiad o'r cyd-destun economaidd a'r cyd-destun polisi**

6.3 Cafodd buddsoddiadau cynnar mewn seilwaith yn ystod degawd cyntaf y ganrif hon eu llywio gan Abertawe 2020, Strategaeth Adfywio Economaidd Abertawe (Cyngor Dinas Abertawe, dyddiad anhysbys). Roedd hon yn amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol i Abertawe ddod yn economi gystadleuol yn rhyngwladol ac yn ganolfan flaenllaw ar gyfer yr economi wybodaeth, ac yn ddinas fywiog y mae pobl eisiau byw a gweithio ynddi. Dywedodd fod gan seilwaith rôl hanfodol i'w chwarae o ran darparu lleoedd cystadleuol, gan gynnwys rhwydwaith trafnidiaeth integredig, effeithlon a portffolio cryf o safleoedd ac eiddo cyflogaeth sy'n cefnogi datblygiad yr economi wybodaeth.

Adfywio Canol y Ddinas

6.4 Roedd Abertawe 2020 yn cydnabod rôl hanfodol canol y ddinas o ran cyflawni uchelgeisiau'r strategaeth. Nodwyd bod canol y ddinas yn sbardun economaidd allweddol i Abertawe ac ystyriwyd bod ei adfywio yn hanfodol i wella cystadleurwydd ac atyniad y ddinas.

6.5 Yn yr un modd, ac ochr yn ochr â hyn, roedd Cynllun Gofodol Cymru (CGC) (Llywodraeth Cymru, 2004) wedi amlygu pwysigrwydd cryfhau rôl Abertawe a chanol y ddinas fel sbardun economaidd ar gyfer adfywio De-orllewin Cymru. Pwysleisiodd y byddai canolbwyntio ar adfywio'r ddinas, gan fanteisio ar ei lleoliad unigryw ar y glannau, yn hanfodol i sicrhau ffyniant economaidd yn y dyfodol i Abertawe a'r ardal ehangach.

6.6 Ystyriwyd bod SA1 yn nociau Abertawe yn gyfle datblygu allweddol i wella delwedd y ddinas a denu buddsoddiad. Roedd hwn yn safle adfeiliedig i raddau helaeth ar ddiwedd y 1990au ond roedd mewn safle hollbwysig ar y glannau a oedd yn amlwg iawn i'r rhai a oedd yn cyrraedd y ddinas o'r dwyrain, gan greu argraff gyntaf anffafriol o'r ddinas. Dywedodd prif gynllun 2004 y byddai'r ardal yn dod yn brif ddatblygiad glannau Cymru, gan weithredu fel magnet ar gyfer buddsoddiad a swyddi newydd i Abertawe ac yn gatalydd ar gyfer adfywio dociau'r ddinas (Youle, 2018 drwy Wales Online). Dywedodd Cynllun Datblygu Unedol Abertawe (CDU) (Cyngor Dinas Abertawe, 2008) y bydd ailddatblygu yn y lleoliad hwn yn newid delwedd ardal ddwyreiniol y Ddinas yn sylfaenol ac, ar y cyd â'r Ardal Forol sefydledig, bydd yn codi proffil glannau Abertawe, yn cryfhau canol y ddinas ac yn cyfrannu at bortffolio twristiaeth yr ardal.

6.7 Blaenoriaeth allweddol arall ar gyfer adfywio canol y ddinas oedd gwella mynediad i'r ddinas a hygyrchedd o fewn y ddinas, yn enwedig i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus. Nododd y CDU bod angen gwelliannau i gyfleusterau cyfnewidfeydd trenau a bysiau yng nghanol y ddinas ynghyd â gwella ansawdd y llwybrau i gerddwyr drwy Ganol y Ddinas a'r cysylltiadau â'r Glannau. Roedd cysylltiadau rhwng canol y ddinas a'r glannau wedi'u rhannu'n ddwy gan Heol Ystumllwynarth (A4067), ffordd brysur a oedd yn rhwystr i gerddwyr symud o un i'r llall. Ystyriwyd bod gwella'r cysylltiadau hyn yn hanfodol i adfywio canol y ddinas a manteisio i'r eithaf ar ei lleoliad ar y glannau. Dywedodd y CDU:

"The City Centre is intended to be a major attraction for visitors and business tourism. This attraction will be strengthened when the planned integration with the foreshore

to create a "Waterfront City" is more fully realised. The City Centre shopping, leisure, food and drink, and cultural facilities combined with SA1, the Maritime Quarter, the new National Waterfront Museum and the Tawe Basin near to the barrage will create a mixed use destination area with a very strong character".

Adeiladu ar asedau gwybodaeth

6.8 Roedd datblygu economi wybodaeth Abertawe hefyd yn ffocws allweddol i strategaeth Abertawe 2020. Dywedodd fod gan y ddinas nifer o asedau gwybodaeth mawr i weithio gyda nhw, ond roedd yn cydnabod nad oedd yr asedau hyn yn cael eu gweithio mor galed ag y gallant fod ac o ganlyniad roedd yr economi wybodaeth yn dal yn gymharol fach. Nododd y strategaeth fod angen cysylltiadau cryfach rhwng busnesau lleol a Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) a mwy o gymorth ar gyfer busnesau newydd sy'n defnyddio llawer o wybodaeth a chwmnïau deillio o brifysgolion. Dywedodd hefyd y byddai adnoddau'n canolbwyntio ar gefnogi clystyrau blaenoriaeth, lle mae gan Abertawe gryfderau nodedig. Roedd y rhain yn cynnwys diwydiannau creadigol, TGCh a gwyddorau bywyd.

6.9 Dylanwadwyd yn bennaf ar fuddsoddiadau mewn seilwaith ymchwil ac arloesi yn Abertawe gan bolisi cenedlaethol ar y pryd. Roedd hyn yn arbennig o wir am fuddsoddiadau yn rhaglen 2007-13 a wnaed ar ôl cyhoeddi Adnewyddu'r Economi – Cyfeiriad Newydd (Llywodraeth Cymru, 2010). Roedd hyn yn amlinellu dull â mwy o ffocws iddo o ymdrin â datblygiad economaidd lle y byddai buddsoddiad yn cael ei dargedu mewn pedwar maes blaenoriaeth Ymchwil a Datblygu lle mae gan brifysgolion Cymru gryfderau ar hyn o bryd a lle mae cyfle i gael yr effaith fwyaf (yr economi ddigidol, carbon isel, iechyd a biowyddorau a pheirianneg uwch).

**Sut y cynlluniwyd y buddsoddiadau i ategu mathau eraill o seilwaith?**

6.10 Roedd nifer o'r buddsoddiadau cynnar yn Abertawe yn rhan o gynlluniau a strategaethau adfywio yn seiliedig ar le. Yn hynny o beth, mae cysylltiadau clir sy'n ategu ei gilydd rhwng nifer o fathau gwahanol o fuddsoddiadau seilwaith.

SA1

6.11 Roedd buddsoddiadau ERDF yn SA1 i gyd yn rhan o'r strategaeth integredig i adfywio hen ddociau Abertawe. Y weledigaeth wreiddiol ar gyfer Glannau SA1 oedd datblygiad defnydd cymysg o amgylch marina newydd yn noc Tywysog Cymru. Roedd y cynigion yn cynnwys:[25]

- swyddfeydd ar hyd y ffin â Ffordd Fabian a glan yr afon rhwng yr Hwylbont (pont droed sy'n cysylltu SA1 â chanol y ddinas) a Ffordd Fabian.
- lleiniau preswyl a neilltuwyd o amgylch Doc Tywysog Cymru (clustnododd y CDU 1,500 o anheddau ar gyfer SA1)
- ardal hamdden wedi'i chlustnodi ar gyfer ger Pont Trafalgar, ger aber Afon Tawe, gyda'r potensial ar gyfer sinema aml-sgrin ynghyd â maes parcio aml-lawr.

[25] Ni fu'n bosibl cael gafael ar brif gynllun gwreiddiol SA1 felly nid yw'r datblygiad arfaethedig gwreiddiol a'r rhaniad rhwng gwahanol fathau o ddefnydd yn hysbys. Cafwyd manylion y prif gynllun gan Youle (2018)

6.12 Defnyddiwyd buddsoddiadau ERDF i wella ffordd fynediad i'r safle (Porth Fabian) a darparu'r seilwaith a gwaith galluogi i baratoi'r safle i'w ddatblygu. Ariannodd hefyd ddatblygiadau swyddfa/deorfa newydd yn adeilad Technium ac ETHOS gyda'r bwriad o roi hwb i fuddsoddiad a helpu i sefydlu SA1 fel ardal drefol newydd. Felly cynlluniwyd holl fuddsoddiadau ERDF i ategu ei gilydd ond hefyd i ategu buddsoddiadau cyhoeddus a phreifat eraill (e.e. yr Hwylbont, tai newydd a'r ardal hamdden).

**Ffigur 6.2: Gweledigaeth wreiddiol ar gyfer SA1**



Ffynhonnell: Youle (2018) drwy Wales Online

Canol y Ddinas a'r Ardal Forol

6.13 Cafodd buddsoddiadau ERDF yng Nghanol y Ddinas eu harwain gan yr uchelgais i greu Dinas y Glannau fywiog a nodedig a fyddai'n gwella delwedd Abertawe, yn cynyddu gwariant ac yn denu ymwelwyr newydd a phreswylwyr medrus iawn i'r ddinas. Roedd ailgysylltu'r ddinas ag ardal y glannau, gan gynnwys yr Ardal Forol a oedd wedi'i thorri ymaith gan Heol Ystumllwynarth, yn allweddol i hyn.

6.14 Cynlluniwyd nifer o'r buddsoddiadau a wnaed yn ystod rhaglen 2000-06 i helpu i gyflawni'r amcanion hyn ac felly y bwriad oedd iddynt ategu ei gilydd. Roedd y rhain yn cynnwys buddsoddi mewn ased twristiaeth mawr (Amgueddfa Genedlaethol y Glannau) i ddenu mwy o ymwelwyr i'r glannau. Ategwyd hyn gan gyswllt newydd rhwng y glannau a chanol y ddinas a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus newydd yn yr orsaf reilffordd.

6.15 Cynlluniwyd nifer o fuddsoddiadau a wnaed yn rhaglen 2007-13 i adeiladu ar y buddsoddiadau cynharach hyn, ond hefyd i gyd-fynd ag ailddatblygiad arfaethedig canol y ddinas, gwerth £1 biliwn, i greu 'ardal drefol' newydd ar safleoedd St

Davids/Quadrant a Stryd Paxton/y Ganolfan Ddinesig a fyddai'n cysylltu canol y ddinas â'r glannau. Bwriad y cynllun hwn oedd darparu 600,000 troedfedd sgwâr o ofod manwerthu, 1,000 o unedau preswyl a chyfleusterau hamdden, swyddfa, gwesty a chynadledda newydd. Byddai hyn yn cael ei ategu gan Gyfnewidfa Drafnidiaeth Quadrant (cyfnewidfa fysiau sy'n ganolog i'r gwaith ailddatblygu arfaethedig).

6.16 Ariannodd prosiect Dinas y Glannau hefyd nifer o welliannau i'r seilwaith cerdded/beicio a'r amgylchfyd cyhoeddus, gyda’r bwriad o wella’r cysylltiadau rhwng y ddinas, yr Hwylbont a’r Ardal Forol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Prosiect y Glannau: fe wnaeth y prosiect hwn wella llwybrau troed ar hyd Afon Tawe a chreu llwybr troed/beicio newydd i Glwb Hwylio Abertawe. Gwnaed nifer o welliannau i'r promenâd hefyd.
- Cysylltiadau â’r Glannau: gwnaed amrywiol welliannau i gysylltiadau cerdded a beicio a'r amgylchfyd cyhoeddus o amgylch Heol Ystumllwynarth, gan gynnwys ailagor y twnnel i gerddwyr ar Stryd Paxton a ddarparodd fynedfa newydd i’r Marina.
- Prosiect Rhodfa: cynlluniwyd hwn i gysylltu'r Ddinas â’i glannau drwy greu stryd goediog ddeniadol ar Heol Ystumllwynarth rhwng pontydd Afon Tawe a Ffordd y Dywysoges.

Seilwaith ymchwil ac arloesi

6.17 Mae’n llai amlwg sut y cynlluniwyd buddsoddiadau mewn seilwaith ymchwil ac arloesi i ategu mathau eraill o seilwaith, yn enwedig y buddsoddiadau mawr ym Mhrifysgol Abertawe, sydd i gyd y tu allan i ganol y ddinas, gan gynnwys campws newydd Bae Abertawe. Nid oedd y rhain yn rhan o raglenni adfywio yn seiliedig ar leoedd ac fe'u harweiniwyd gan Brifysgol Abertawe felly roedd llai o gyfle i integreiddio'r rhain â phrosiectau eraill. Dywedodd rhanddeiliaid datblygu economaidd y byddai wedi bod yn well lleoli’r datblygiadau hyn rhwng campws gwreiddiol y brifysgol a chanol y ddinas, gan y byddai hyn wedi bod o gymorth i adfywio canol y ddinas. Gallai hefyd fod wedi ategu buddsoddiadau mewn safleoedd ac eiddo drwy ddenu busnesau y mae angen iddynt fod yn agos at y brifysgol i ganol y ddinas.

6.18 Er nad oedd y prosiectau hyn yn ategu mathau eraill o fuddsoddiad seilwaith yn uniongyrchol, roeddent yn gyson ag amcanion polisi eraill yn Abertawe 2020 i fanteisio’n well ar asedau gwybodaeth a datblygu’r economi wybodaeth.

**Y seilwaith heddiw**

6.19 Mae'r rhan helaethaf o'r seilwaith a ariannwyd gan ERDF o dan y ddwy raglen yn dal i gael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd heddiw[26]. Yr unig eithriad i hyn yw Technium 2, a oedd yn ganolfan deori busnesau yn wreiddiol a oedd yn cynnig ystod eang o gymorth i fusnesau tenant gan gynnwys cyngor a mynediad at gyllid. Mae bellach yn cael ei ddefnyddio fel gofod swyddfa cyffredinol, er bod ymgyngoreion wedi nodi bod nifer o’r tenantiaid gwreiddiol yn dal i fod yn yr adeilad. Mae hyn oherwydd y dywedir bod llawer wedi cael trafferth dod o hyd i lety arall addas yn Abertawe.

[26] Mae adroddiad Cam 2 yn rhoi tystiolaeth fanylach ar sut y mae’r seilwaith yn cael ei ddefnyddio.

**Tystiolaeth o ganlyniadau ar sail ardal**

6.20 Nod yr adran hon yw asesu i ba raddau y mae rhaglenni buddsoddi ar sail ardal a oedd yn cynnwys prosiectau ERDF wedi cyflawni eu hamcanion, ac wrth wneud hynny mae’n dod i gasgliadau ynghylch a yw prosiectau ERDF wedi ategu'n llwyddiannus fathau eraill o fuddsoddiad mewn seilwaith. Yn achos Abertawe, mae'r rhain yn canolbwyntio ar:


- Adfywio SA1 ac i ba raddau y mae hyn wedi arwain at dwf mewn swyddi a mwy o fuddsoddiad yn Abertawe
- Adfywio canol y ddinas a'i chysylltiad â'r Glannau.

Adfywio SA1

6.21 Gwnaed cynnydd sylweddol gydag adfywio SA1 ym mlynyddoedd cyntaf y ganrif hon. Roedd datblygiadau cynnar ar y safle yn cynnwys prif swyddfeydd yn Technium 1 yn 2000 a Technium 2 yn 2004 (wedi'u hariannu gan ERDF), adeilad Cyprium, ETHOS (wedi'i ariannu gan ERDF) ac Ellipse. Er i'r prosiect gael peth llwyddiant cynnar (e.e. denu cwmni Admiral Insurance i adeilad Cyprium), arafodd y cynnydd yn sgil argyfwng ariannol 2008/9 a daeth yn anoddach denu buddsoddiad preifat. Rhoddwyd y gorau i gynlluniau ar gyfer yr ardal hamdden wedi hynny, a newidiwyd y prif gynllun pan brynodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) 23 erw o dir ger Pont Trafalgar ar gyfer campws newydd, a agorodd yn 2018.

6.22 Yn ôl data Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), yn 2020 roedd ychydig dros 1,000 o anheddau preswyl a 58,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr busnes yn SA1, gyda 23,000 ohono'n swyddfeydd. Adeiladwyd y rhan helaethaf o hwn ers y flwyddyn 2000. Ar hyn o bryd mae’r ardal yn gartref i 1,900 o breswylwyr (ONS (2021e), 300 o fusnesau (Tŷ’r Cwmnïau, 2022) a 4,000 o gyflogeion (ONS, 2020). Y diwydiannau mwyaf yn yr ardal yw cyllid ac yswiriant (2,000 o gyflogeion) a gwasanaethau proffesiynol (600 o gyflogeion). Ymhlith y cyflogwyr allweddol mae Admiral Insurance, yr Asiantaeth Safonau Gyrru a chwmni cyfrifyddiaeth Bevan and Buckland.

**Ffigur 6.3: Yr arwynebedd llawr yn SA1 (metr sgwâr), 2020**




Ffynhonnell: Asiantaeth y Swyddfa Brisio (2022)

6.23 Ymysg y llwyddiannau eraill roedd gwella profiadau pobl o gyrraedd Abertawe o gyfeiriad y dwyrain, a oedd wedi'i nodi'n flaenoriaeth allweddol ar ddechrau'r ganrif hon. Credai ymgyngoreion fod hyn wedi'i gyflawni'n llwyddiannus, a chadarnheir hyn gan erthyglau newyddion a adroddodd fod SA1 wedi newid edrychiad Ffordd Fabian yn sylweddol, gan droi ardal wag, ddi-raen o'r dociau yn ardal wedi'i thirlunio gydag adeiladau newydd ar bob cwr (Dalling, 2018 drwy Wales Online).

6.24 Er bod nifer o leiniau gwag neu leiniau nas defnyddir yn ddigonol, mae'r dystiolaeth uchod yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at adfywio SA1 yn ffisegol. Mae'r ardal wedi'i thrawsnewid o fod yn safle tir llwyd diffaith i fod yn gartref trefol newydd i swyddi gwerth uchel. Mae buddsoddiadau ERDF wedi chwarae rhan allweddol yn adfywiad yr ardal; amcangyfrifir bod £60 miliwn o arian cyhoeddus wedi'i wario ar SA1 hyd yma, yr oedd o leiaf £10 miliwn ohono'n dod o ERDF. Mae buddsoddiadau ERDF wedi gwella mynediad i'r safle, wedi paratoi rhan fawr o'r safle i'w ddatblygu ac wedi ysgogi buddsoddiad yn yr ardal swyddfeydd, a oedd yn allweddol i greu momentwm cynnar ym marn yr ymgyngoreion. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi ategu ei gilydd yn ogystal ag ategu buddsoddiadau cyhoeddus a phreifat eraill, gan gynnwys PCYDDS.

**Ffigur 6.4: Golygfa o'r awyr o Gampws SA1 PCYDDS**




Ffynhonnell: PCYDDS (2018)

6.25 Er bod tystiolaeth glir o adfywio ffisegol, mae'n anoddach asesu cyfraniad SA1 at dwf economaidd Abertawe.

6.26 Dengys Pennod 4 mai gwasanaethau ariannol a phroffesiynol fu'r prif ysgogydd twf mewn Gwerth Ychwanegol Gros a chyflogaeth yn Abertawe ers degawd cyntaf y ganrif hon. Mae 27% o swyddi'r ddinas yn y sectorau hyn wedi'u lleoli yn SA1 sy'n awgrymu bod buddsoddiad yn y lleoliad hwn wedi cyfrannu at dwf drwy ddarparu lleoliad newydd, deniadol ar gyfer y sectorau gwasanaeth gwerth uchel hyn.

6.27 Fodd bynnag, nid yw adfywio SA1 wedi bod yn fagnet ar gyfer mewnfuddsoddiad yn y ffordd a fwriadwyd yn wreiddiol yn y prif gynllun. Admiral Insurance yw'r unig brif ddeiliad corfforaethol o hyd yn SA1 ac roedd y cwmni hwn eisoes wedi'i leoli yn Abertawe cyn iddo adleoli (er iddo greu swyddi newydd fel rhan o'r symudiad). Cwmnïau gwasanaethau proffesiynol sy'n gwasanaethu marchnad leol neu ranbarthol yw'r deiliaid swyddfeydd mawr eraill yn bennaf (e.e. Bevan a Buckland, Howells a Peter Lynn & Partners). Mae SA1 felly wedi chwarae rhan bwysig o ran cadw buddsoddwyr allweddol a diwallu anghenion twf y sector gwasanaethau proffesiynol lleol/rhanbarthol, ond teimlai asiantau eiddo nad yw wedi sefydlu ei hun fel un o brif swyddfeydd y glannau a all gystadlu â Chaerdydd am bencadlysoedd ar gyfer buddsoddiad corfforaethol newydd.

6.28 Mae hyn yn codi rhai cwestiynau ynghylch buddion economaidd ychwanegol yn SA1. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod darpariaeth gofod swyddfa newydd yn y farchnad wedi bod yn gyfyngedig drwy gydol y cyfnod hwn oherwydd cyfyngiadau'n ymwneud â hyfywedd[27]. Felly roedd angen buddsoddiad cyhoeddus i ddarparu'r capasiti

[27] Mae hyn yn golygu nad yw'r gwerthoedd rhentu ar gyfer gofod swyddfa yn ddigon uchel i ddatblygiadau swyddfa newydd fod yn fasnachol hyfyw

angenrheidiol i'r busnesau lleol a rhanbarthol hyn dyfu. Mae'r buddsoddiad yn SA1 wedi darparu'r capasiti hwn mewn lleoliad canolog a deniadol ac, wrth wneud hynny, wedi trawsnewid safle tir llwyd segur a oedd yn cael effaith negyddol ar ganfyddiadau pobl o'r ddinas.

6.29 Mae buddsoddiad PCYDDS ar gampws SA1 hefyd wedi creu cyflogaeth newydd ac yn cynnig potensial mawr i ysgogi twf economaidd yn y dyfodol. Nod y Brifysgol yw creu ecosystem fasnachol o amgylch campws Glannau newydd y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer Pentref Bocsys 28,000 troedfedd sgwâr a Chanolfan Arloesi 64,000 troedfedd sgwâr i ddarparu gofod deori ac ardaloedd cydweithio i fusnesau newydd a busnesau bach. Mae'r cynlluniau hyn yn rhan o Ardal Ddigidol Glannau Abertawe sydd wedi'i chynnwys ym Margen Ddinesig Bae Abertawe.

6.30 Mae SA1 eisoes wedi cael peth llwyddiant o ran denu diwydiannau digidol; mae'r sector yn cynrychioli 200 o gyflogeion neu 5% o gyflogaeth, o gymharu â 2% yn Abertawe gyfan. Mae'r safle hefyd wedi denu nifer o fusnesau digidol bach ac arloesol, y mae llawer ohonynt wedi'u lleoli yn adeilad Technium gan gynnwys Dezrez Services, S8080 Ltd, Imagitech Ltd ac Yamgo. Felly mae buddsoddiad PCYDDS yn cynnig potensial i adeiladu ar y cryfderau hyn a sefydlu SA1 fel lleoliad allweddol ar gyfer busnesau arloesol, gan gynnig mynediad at asedau ymchwil a chronfa o sgiliau graddedigion mewn lleoliad deniadol ar y glannau.

Adfywio Canol y Ddinas a chysylltiadau â'r Glannau

6.31 Cafodd cynlluniau ar gyfer adfywio canol y ddinas eu llesteirio'n ddifrifol yn sgil canslo'r ailddatblygiad arfaethedig gwerth £1 biliwn a arweiniwyd gan y secstor manwerthu ar ôl i'r ddau ddatblygwr mawr dynnu'n ôl o'r prosiect. Roedd hyn yn rhannol oherwydd argyfwng ariannol 2008/9 ond hefyd oherwydd pryderon am newid mewn arferion siopa ac ymarferoldeb model adfywio a arweinir gan fanwerthu (Mair, 2003).

6.32 O ganlyniad, nid yw canol dinas Abertawe wedi'i drawsnewid yn unol â'r disgwyliadau ar ddechrau'r ganrif hon, fel y dengys nifer o ddangosyddion:

- Nid yw nifer y cyflogeion yng nghanol dinas Abertawe[28] wedi newid ers 2003[29] (16,500) ac mae'r mwyafrif yn gweithio yn y sectorau gwerth isel o hyd.
- Gwelwyd gostyngiad o 22,000 metr sgwâr neu 15% yn yr arwynebedd llawr manwerthu rhwng 2002 a 2020. Er gwaethaf hyn, roedd 25% o unedau manwerthu yng nghanol y ddinas yn dal yn wag yn 2021 (BDP, 2021).
- Gwelwyd gostyngiad cyffredinol o 5% yn nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas rhwng 2017 a 2019[30]. Mae hyn 35% yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer nifer yr ymwelwyr â chanolfannau siopa (BDP, 2021).

[28] Wedi'i ddiffinio yma gan ddefnyddio'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is a ganlyn: W01001938, W01001955, W01001957, W01001958

[29] Mae hwn yn defnyddio data o ddwy set ddata wahanol (Ymchwiliad Busnes Blynyddol ar gyfer 2003 a'r Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth ar gyfer 2020). Mae'r rhain yn defnyddio methodolegau gwahanol ac felly nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol


[30] Nid oes data cyson ar nifer yr ymwelwyr ar gyfer canol y ddinas ar gael yn gynharach na hyn

- Yng nghanol y ddinas mae ardaloedd sy'n parhau i fod sydd ymhlith y 2% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn y wlad, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021), er bod yr ardaloedd o amgylch y Glannau yn rhai â llai o amddifadedd na'r canolrif.
- Yn fwy cadarnhaol, mae poblogaeth canol y ddinas wedi cynyddu o 5,700 yn 2003 i 8,700 yn 2020, a'r rhan fwyaf o hynny yn yr Ardal Forol (ONS, 2021e). Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn fach o gymharu â phoblogaethau preswyl yng nghanol dinasoedd eraill y DU.

6.33 Mae'r adborth o'r arolwg o breswylwyr hefyd yn dangos bod canfyddiadau cyffredinol o ganol y ddinas yn wael, ac wedi gwaethygu dros y deng mlynedd diwethaf:

- Dywedodd 25% o'r ymatebwyr mai canol y ddinas yw'r "peth gwaethaf am Abertawe" a oedd yn uwch nag unrhyw ffactor arall a'r uchaf o blith pedair ardal yr astudiaethau achos. Dywedodd 16% hefyd mai diffyg siopau neu siopau'n cau oedd y peth gwaethaf am y ddinas.
- Dywedodd 53% eu bod yn anfodlon ar 'fywiogrwydd canol y ddinas', o gymharu â dim ond 20% a oedd yn fodlon gyda hynny.
- Mae 57% yn credu bod bywiogrwydd canol y ddinas wedi gwaethygu dros y deng mlynedd diwethaf o gymharu â 15% sy'n meddwl ei fod wedi gwella.

**Ffigur 6.5: Boddhad preswylwyr gyda bywiogrwydd canol dinas Abertawe**




Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr Beaufort Research. Sylfaen: yr holl ymatebwyr (202). Nid yw'r siart yn dangos yr ymatebion 'ddim yn gwybod' (8%)

6.34 Er nad oes tystiolaeth o drawsnewidiad yng nghanol dinas Abertawe, mae tystiolaeth o welliannau graddol, y gellir priodoli llawer ohonynt i fuddsoddiadau ERDF.

6.35 Yn gyntaf, roedd ymgyngoreion yn credu'n gryf bod Amgueddfa'r Glannau wedi arwain at lawer o fuddion i Abertawe, gan gynyddu nifer yr ymwelwyr a gweithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddiad a gwelliannau pellach yn yr Ardal Forol. Er bod y marina a'r cyfleusterau angori eisoes wedi'u hen sefydlu ar ddechrau'r ganrif hon, yr

amgueddfa oedd y buddsoddiad mawr cyntaf mewn atyniad i ymwelwyr yn yr ardal. Mae Cyngor Dinas Abertawe (mewn partneriaeth ag eraill) wedi adeiladu ar hyn, ac mae'r amgueddfa bellach yn gonglfaen y clwstwr hamdden o amgylch y marina. Adnewyddwyd y ganolfan hamdden drws nesaf i'r amgueddfa yn 2008 a defnyddir y man gwyrdd sydd ar gael ar gyfer digwyddiadau, megis y ffair Nadolig a'r atyniad llawr sglefrio.

6.36 Disgrifiodd yr ymgyngoreion hefyd sut yr oedd llwyddiant Amgueddfa'r Glannau a'i heffaith ar yr Ardal Forol yn hanfodol i baratoi'r ffordd ar gyfer buddsoddiadau pellach drwy Brosiect Glannau Abertawe, a wnaeth welliannau pellach i'r amgylchfyd cyhoeddus, llwybrau troed a llwybrau beicio o amgylch ardal y glannau, gan ei wneud yn lle mwy deniadol i fyw ac ymweld ag ef.

6.37 Er nad oes data ar gael ar nifer yr ymwelwyr yn yr Ardal Forol, mae tystiolaeth dda bod y buddsoddiadau hyn wedi gwella'r ardal a chynyddu ymweliadau:

- Denodd yr amgueddfa ei hun dros 265,000 o ymwelwyr rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, sy'n golygu mai hon yw'r drydedd amgueddfa yr ymwelwyd â hi amlaf a weithredir gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru (Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 2021).
- Cyrhaeddodd yr Ardal Forol rownd derfynol cystadleuaeth Great Place 2018 yr Academy of Urbanism, a nododd yr asesiad fod yr Amgueddfa yn ychwanegu'n fawr at gymeriad cyffredinol, bywiogrwydd a diddordeb gweledol y lleoliad, ac mewn perthynas â'r amgylchfyd cyhoeddus, dywedodd: “the majority of spaces fronting the Marina and the seafront promenade present an attractive traffic-free environment” (Academy of Urbanism, 2019).  Noda hefyd: “The Quarter now forms a major asset to the city offering a richness and eclecticism which captures the very essence, history and psyche of Swansea. The area has emerged as a popular destination for both locals and visitors bolstered by the excellent museums and leisure attractions”.


**Ffigur 6.6: Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ym Marina Abertawe**



Ffynhonnell: Jones (2015) drwy Wales Online

6.38 Tynnodd ymgyngoreion sylw hefyd at y gwelliannau yn y gorsafoedd trenau a bysiau, a ariannwyd yn ystod rhaglenni 2000-06 a 2007-13 yn y drefn honno. Dywedasant fod hyn wedi darparu gorsafoedd mwy deniadol a thaclus sy'n fwy diogel gan wedi gwella profiad ymwelwyr yn sylweddol a chynyddu'r defnydd ohonynt. Mae hyn yn gyson â data ar y nifer sy'n cyrraedd/gadael Gorsaf Drenau Abertawe, ble y gwelwyd cynnydd mawr yn y defnydd rhwng 2006 a 2008 pan wnaed y gwaith, ond ni ellir cymryd hyn fel tystiolaeth o berthynas achosol.

**Ffigur 6.7: Y niferoedd a gyrhaeddodd/adawodd Gorsaf Drenau Abertawe, 1997-2020**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd (2022)

6.39 Yn olaf, mae rhywfaint o dystiolaeth bod cysylltiadau rhwng canol y ddinas a'r glannau wedi gwella o ganlyniad i fuddsoddiad ERDF (er bod rhwystrau sylweddol yn dal i fodoli). Canfu adolygiad yn 2015 o Fframwaith Canol Dinas Abertawe (DTZ et al, 2015):


"The Waterfront Connections project and Boulevard Advance Works, have improved pedestrian connections, enhanced by new surfacing, signing, lighting and a new link to the seafront. The promenade has also been improved with new high quality railings and street furniture between the Observatory and the Civic Centre. These projects are likely to assist changing perceptions of the Oystermouth Road/Victoria Road corridor being a barrier to movement between the City Centre retail core and the waterfront. Future proposals therefore need to build on the recent Boulevard improvements and deliver better connection and City Centre profile".

6.40 Canfu hefyd fod cysylltiadau ar hyd y glannau wedi'u gwella: "Whilst there is still a disconnection between the City Centre and the seafront, significant improvements have been made to linkages between the Sailbridge, Maritime Quarter and SA1 as a result of the Boulevard project which has seen a more legible connectivity emerging".

6.41 Er ei fod y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon, disgrifiodd yr ymgyngoreion sut y mae buddsoddiadau seilwaith pellach ar ôl 2013 wedi adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y rhaglenni ERDF cynharach. Yn benodol, teimlwyd bod buddsoddiadau ar hyd Ffordd y Brenin wedi gwneud cyfraniad sylweddol at wella canol y ddinas. Wedi'i ariannu yn ystod rhaglen 2014-20, mae hyn wedi darparu mannau cyhoeddus newydd, parcdir wedi'i dirlunio, llwybrau beicio a llwybr dwy-ffordd un lôn i gerbydau a llwybrau llydan i gerddwyr. Dywedir bellach ei fod yn amgylchedd llawer mwy deniadol i fyw ac i weithio.

6.42 Mae hefyd yn amlwg bod buddsoddiadau parhaus sy'n cael eu gwneud drwy raglen adfywio Bae Copr gwerth £135 miliwn yn adeiladu ar fuddsoddiadau cynharach ERDF ac yn cael eu harwain gan yr un weledigaeth o aduno'r ddinas â'r Glannau. Mae'r cynlluniau'n cynnwys arena â lle i 3,500 o bobl gyda pharc arfordirol a gwesty yn yr Ardal Forol (sydd i fod i agor yn 2022) a phont newydd i gerddwyr a beicwyr dros Heol Ystumllwynarth a fydd yn cysylltu canol y ddinas â'r arena a'r marina.

**Ffigur 6.8: Adeiladu Arena Abertawe a phont i gerddwyr a beicwyr**



Ffynhonnell: 4theregion (2021)

6.43 I gloi, er ei bod yn amlwg nad yw'r uchelgais i adfywio canol dinas Abertawe a chreu Dinas y Glannau fywiog wedi'i chyflawni'n llawn eto, mae tystiolaeth o gynnydd cynyddrannol, y gellir priodoli llawer ohono i fuddsoddiadau ERDF. Mae hyn yn cynnwys Ardal Forol fwy bywiog, hybiau trafnidiaeth gwell sy'n cael eu defnyddio'n helaeth, amgylchfyd cyhoeddus gwell, gwell llwybrau cerdded/beicio a chysylltiadau cryfach rhwng y craidd manwerthu a'r glannau. At hynny, mae buddsoddiadau ERDF a wnaed ar draws y ddwy raglen yn parhau i ategu buddsoddiadau diweddar sydd â'r nod o adfywio'r ddinas a'i hailgysylltu â'r glannau.

### Canfyddiadau'r arolwg

Lefelau boddhad

6.44 Canfu'r arolwg o breswylwyr a busnesau fod y lefelau boddhad cyffredinol ag Abertawe fel lle i fyw a gwneud busnes ynddo yn uchel:

- Dywedodd 74% o breswylwyr eu bod yn eithaf bodlon neu'n fodlon iawn, sef yr ail uchaf o bedair ardal yr astudiaethau achos (ar ôl Ynys Môn a Bangor, lle mae'r ganran yn 86%).
- Dywedodd 55% o fusnesau ei fod yn lle rhagorol neu dda i wneud busnes, sef yr uchaf ar y cyd ag Ynys Môn a Bangor.

6.45 Mynegodd preswylwyr Abertawe eu bod yn fodlon ar nifer o wahanol agweddau ar fyw yn Abertawe, gan gynnwys yr amgylchfyd cyhoeddus, gwasanaethau cyhoeddus, trafnidiaeth gyhoeddus, pethau i'w gwneud a thelathrebu (e.e. band eang). Dywedodd 76% hefyd eu bod yn fodlon gyda'u diogelwch personol, er bod

preswylwyr Abertawe wedi codi troseddu fel problem mewn ymateb i gwestiynau eraill. Mae lefelau anfodlonrwydd ar eu huchaf ar gyfer bywiogrwydd canol y dref (58%) ac ansawdd ffyrdd (57%).

**Tabl 6.2: Boddhad perswylwyr gyda gwahanol agweddau ar fyw yn Abertawe**

| | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Cyfanswm a oedd yn fodlon | Cyfanswm a oedd yn anfodlon |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atyniad yr amgylchfyd cyhoeddus | 26% | 38% | 21% | 10% | 3% | 64% | 13% |
| Diogelwch personol | 33% | 42% | 13% | 6% | 5% | 75% | 11% |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 15% | 42% | 23% | 10% | 5% | 57% | 15% |
| Pethau i'w gwneud yn yr ardal | 21% | 35% | 21% | 14% | 9% | 56% | 23% |
| Y cyfleoedd gwaith sydd ar gael | 4% | 19% | 19% | 25% | 10% | 23% | 35% |
| Bywiogrwydd canol y dref | 6% | 14% | 19% | 28% | 25% | 20% | 53% |
| Tai fforddiadwy | 6% | 20% | 24% | 18% | 8% | 26% | 26% |
| Ansawdd ffyrdd | 4% | 20% | 18% | 34% | 22% | 24% | 56% |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 17% | 31% | 18% | 8% | 7% | 48% | 15% |
| Argaeledd parcio | 8% | 23% | 17% | 24% | 22% | 31% | 46% |
| Telathrebu | 32% | 39% | 13% | 9% | 4% | 71% | 13% |

Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr, Beaufort Research


Sylfaen: yr holl ymatebwyr (202). Ni ddangosir atebion 'ddim yn gwybod'

6.46 Gofynnwyd i fusnesau raddio pa mor bwysig oedd gwahanol ffactorau i'w busnes ac a oedd hyn yn gryfder neu'n wendid yn Abertawe. Ffigur 6.9:

- Fod prif gryfderau Abertawe yn cynnwys band eang, cysylltiadau trafnidiaeth ac ansawdd yr amgylchedd lleol. Roedd y rhain i gyd yn faterion a oedd yn bwysig i fwyafrif ymatebwyr yr arolwg. Mae cryfderau eraill yn cynnwys cysylltiadau gyda cholegau a phrifysgolion a chyfleusterau i weithwyr, ond roedd y rhain yn bwysig i leiafrif o fusnesau.

- Prif wendidau Abertawe yw cost/argaeledd safleoedd busnes a throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sydd ill dau yn bwysig i dros 50% o fusnesau.

**Ffigur 6.9: Pwysigrwydd materion o gymharu â'r cydbwysedd net o ran a yw ymatebwyr sy'n fusnesau yn credu bod y mater yn gryfder neu'n wendid yn Abertawe**





Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research Sylfaen: yr holl ymatebwyr (260). Noder: mae'r echelin y yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd bod y mater yn gryfder yn yr ardal a'r gyfran a ddywedodd ei fod yn wendid. Os oedd y ffigur hwn yn gadarnhaol, mae hyn yn golygu bod cyfran uwch o bobl yn credu ei fod yn gryfder yn hytrach na gwendid.

Newidiadau yn y canfyddiad o'r ardal

6.47 Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a oedd Abertawe wedi gwella yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Roedd 36% o breswylwyr yn credu bod y ddinas wedi gwella o gymharu â 27% a oedd yn meddwl ei bod wedi gwaethygu. Ymysg busnesau, roedd 33% yn credu bod y ddinas wedi gwella o gymharu â 35% a oedd yn meddwl ei bod wedi gwaethygu.

6.48 O blith y preswylwyr hynny a oedd yn meddwl bod Abertawe wedi gwella, y prif reswm a roddwyd oedd mwy o fuddsoddiad, datblygiadau neu waith adfywio yn y ddinas, a chyfeiriwyd at hyn gan 26% o bobl. O blith y rhai a oedd yn credu bod y ddinas wedi gwaethygu, y prif reswm a roddwyd oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau'n ymwneud â chyffuriau (cyfeiriwyd at hyn gan 19% o'r ymatebwyr).


**Ffigur 6.10: Newid mewn boddhad gydag Abertawe fel lle i fyw (preswylwyr) neu i wneud busnes ynddo (busnesau)**




Ffynhonnell: Beaufort Research.  Sylfaen: preswylwyr: 202; busnesau: 260

6.49 Pan ofynnwyd yn benodol pa agweddau ar Abertawe a oedd wedi gwaethygu neu wella, roedd dros hanner y preswylwyr yn credu bod bywiogrwydd canol y dref, ansawdd ffyrdd ac argaeledd parcio wedi gwaethygu.  Yr unig agwedd yr oedd dros hanner y bobl yn meddwl a oedd wedi gwella oedd y seilwaith telathrebu (53%), ond roedd cyfran fawr hefyd yn meddwl bod yr amgylchfyd cyhoeddus a phethau i'w gwneud wedi gwella (44% a 36% yn y drefn honno).

**Ffigur 6.11: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Abertawe wedi newid? - preswylwyr**




Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr Beaufort Research

Sylfaen: gweler y rhifau uwchben y colofnau. Roedd hyn yn cynnwys pobl a roddodd sgôr boddhad ar gyfer pob agwedd ac a oedd â barn ynghylch a oedd hyn wedi newid

6.50 Dywedodd busnesau mai cyflymder y rhyngrwyd, cyfleusterau i weithwyr a chysylltiadau â cholegau/prifysgolion oedd y prif agweddau ar Abertawe a oedd wedi gwella yn y deng mlynedd diwethaf (a nodwyd gan o leiaf 40% o fusnesau). Y prif agweddau a oedd wedi gwaethygu yn eu barn nhw oedd troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (42%) a pharcio (38%).

**Ffigur 6.12: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Abertawe wedi newid? - busnesau**




Ffynhonnell: Arolwg Busnes Beaufort Research

Sylfaen: gweler y rhifau uwchben y colofnau. Roedd hyn yn cynnwys busnesau a roddodd sgôr boddhad ar gyfer pob agwedd ac a oedd â barn ynghylch a oedd hyn wedi newid

Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith a'i gyfraniad


6.51 Gofynnodd yr arolygon i breswylwyr a busnesau a oeddent wedi sylwi ar fuddsoddiad neu welliannau mewn gwahanol fathau o seilwaith, ac os felly, a oedd hyn wedi gwneud cyfraniad positif i'r ardal.

6.52 Mae canlyniadau'r arolwg o breswylwyr yn dangos mai'r buddsoddiadau mwyaf amlwg oedd gwelliannau i gyfleusterau addysg uwch (AU) a chyfleusterau ymchwil (80%) ac yna tai (78%), llwybrau cerdded a beicio (68%), cyfleusterau colegau AB a band eang (54%). %). Mae tri o'r mathau hyn o seilwaith wedi elwa ar fuddsoddiad ERDF yn Abertawe (cyfleusterau AU/ymchwil, llwybrau cerdded a beicio a band

eang[31]). Yn achos AU a chyfleusterau ymchwil, mae pob un o'r buddsoddiadau mawr wedi elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar fuddsoddiad ERDF[32].

6.53 O blith y rhai a oedd wedi sylwi ar welliannau, credai 66% fod buddsoddiad mewn cyfleusterau AU/ymchwil wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol i'r ardal, gyda 53% yn dweud yr un peth am fand eang a 45% yn dweud hynny am lwybrau cerdded/beicio. Os cynhwysir y rhai a gredai fod buddsoddiadau wedi gwneud "cyfraniad eithaf positif" i'r ardal hefyd, mae hyn yn cynyddu i 86% ar gyfer cyfleusterau AU/ymchwil a band eang a 90% ar gyfer llwybrau cerdded/beicio. Mae hyn yn cynnig tystiolaeth bod y mathau o fuddsoddiadau seilwaith a ariannwyd gan ERDF wedi gwneud cyfraniadau positif i Abertawe fel lle i fyw, er nad yw'n bosibl priodoli'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol i fuddsoddiadau ERDF penodol.

**Ffigur 6.13: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Abertawe (preswylwyr)**




Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr, Beaufort Research

Sylfaen: % a oedd wedi sylwi ar fuddsoddiad: yr holl ymatebwyr.

% a nododd gyfraniad sylweddol i'r ardal: yr holl ymatebwyr a oedd wedi sylwi ar welliant mewn gwahanol fathau o seilwaith (gweler Ffigur A17).

6.54 Yn yr un modd, ymhlith busnesau, buddsoddi mewn cyfleusterau AU ac ymchwil oedd y math mwyaf amlwg o fuddsoddiad mewn seilwaith (60%) ac a oedd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf i Abertawe (52%). Roedd cyfran uchel hefyd wedi sylwi


[31] Dylid nodi bod cyfran fawr o'r buddsoddiad mewn seilwaith digidol wedi cael ei wneud drwy'r sector preifat, a bod ERDF wedi cael ei ddefnyddio i lenwi bylchau lle nad oedd yn hyfyw ar gyfer y farchnad. Nid yw'n bosibl pennu pa gyfran o fuddsoddiad yn Abertawe a ariannwyd yn gyhoeddus neu'n breifat gyda'r data sydd ar gael.

[32] Mae'r buddsoddiadau mewn cyfleusterau ymchwil ac arloesi newydd ym Mhrifysgol Abertawe wedi elwa'n uniongyrchol o gyllid ERDF, tra bod y buddsoddiad yng nghampws PCYDDS yn SA1 wedi elwa'n anuniongyrchol ar fuddsoddiad ehangach yn yr ardal, gan gynnwys gwasanaethu safleoedd a buddsoddi mewn ffyrdd.

ar welliannau a buddsoddiadau mewn seilwaith cerdded a beicio, er bod cyfran is yn credu bod hyn wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol i'r ardal (26%).

6.55 Os cynhwysir y rhai a gredai fod buddsoddiadau wedi gwneud “cyfraniad eithaf positif” i'r ardal hefyd, mae hyn yn cynyddu i 79% ar gyfer cyfleusterau AU/ymchwil a band eang a 90% ar gyfer llwybrau cerdded a beicio. Dywedodd 90% o'r ymatebwyr a oedd wedi sylwi ar welliant mewn band eang hefyd fod hyn wedi gwneud cyfraniad positif i'r ardal.

**Ffigur 6.14: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Abertawe (busnesau)**





Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau, Beaufort Research

Sylfaen: % a oedd wedi sylwi ar fuddsoddiad: yr holl ymatebwyr.

% a nododd gyfraniad sylweddol i'r ardal: yr holl ymatebwyr a oedd wedi sylwi ar welliant mewn gwahanol fathau o seilwaith.

6.56 O blith y busnesau hynny a gredai fod buddsoddiad mewn seilwaith wedi gwneud cyfraniad positif i’r ardal, dywedodd 47% fod hyn wedi arwain at wella cysylltiadau busnes â cholegau neu brifysgolion a dywedodd 45% fod hyn wedi gwella eu mynediad at gwsmeriaid a marchnadoedd. Roedd buddion allweddol eraill i fusnesau yn cynnwys cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gwariant (33%) ac effeithlonrwydd prosesau busnes (31%).

**Ffigur 6.15: Pa rai o’r canlynol sydd wedi gwella o ganlyniad i fuddsoddiad seilwaith?**




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research Sylfaen: pob busnes a oedd yn meddwl bod o leiaf un math o fuddsoddiad mewn seilwaith wedi gwneud cyfraniad positif i’r ardal (221)

Cynllunio a chydlynu seilwaith

6.57 O ran y preswylwyr a'r busnesau a oedd wedi sylwi ar welliannau mewn mwy nag un math o seilwaith,[33] gofynnwyd nifer o gwestiynau iddynt am gynllunio a chydlynu'r seilwaith ac a oedd y gwahanol fathau o fuddsoddiad wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr ardal leol.

6.58 Roedd mwyafrif clir o fusnesau a phreswylwyr yn cytuno y gallent weld bod y buddsoddiadau yn rhan o gynllun tymor hir ar gyfer yr ardal (62% o breswylwyr a 71% o fusnesau). Roedd hon yn gyfran sylweddol uwch nag unrhyw un o'r ardaloedd astudiaeth achos eraill, ac mae'n awgrymu bod Cyngor Dinas Abertawe wedi llwyddo i gyfleu ei weledigaeth ar gyfer y ddinas. Roedd cyfran uchel hefyd yn cytuno bod y gwahanol fathau o fuddsoddiad wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr ardal leol (40% a 50% yn y drefn honno o gymharu â 22% a 20% a oedd yn anghytuno).

6.59 Roedd y farn yn fwy rhanedig ynghylch a oedd y gwaith o gynllunio a darparu gwahanol fathau o seilwaith wedi’i gydlynu'n dda, gyda 33% o breswylwyr a 37% o fusnesau’n anghytuno, a 27% o breswylwyr a 33% o fusnesau’n cytuno.

[33] 193 o breswylwyr a 206 o fusnesau

**Tabl 6.3: Barn ar gynllunio a chydlynu buddsoddiadau seilwaith ac a oeddent yn ategu ei gilydd**

| | Arolwg | Cytuno'n gryf | Tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno'n gryf | Net a oedd yn cytuno | Net a oedd yn anghytuno |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio a darparu mathau gwahanol o fuddsoddiad seilwaith wedi'i gydlynu'n dda | Preswylwyr | 5% | 22% | 26% | 16% | 17% | 27% | 33% |
| | Busnesau | 9% | 24% | 27% | 20% | 17% | 33% | 37% |
| Gallaf weld fod y mathau gwahanol o fuddsoddiad yn rhan o gynllun tymor hir ar gyfer yr ardal | Preswylwyr | 26% | 36% | 15% | 12% | 9% | 62% | 21% |
| | Busnesau | 29% | 42% | 13% | 8% | 4% | 71% | 12% |
| Mae'r mathau gwahanol o fuddsoddiad wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr ardal leol | Preswylwyr | 14% | 26% | 27% | 13% | 9% | 40% | 22% |
| | Busnesau | 13% | 37% | 26% | 13% | 7% | 50% | 20% |

Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: pawb a oedd wedi sylwi ar welliannau mewn mwy nag un math o seilwaith. Preswylwyr: 193; busnesau: 206

**Casgliadau**

6.60 Mae'r gwerthusiad wedi canfod tystiolaeth sylweddol bod buddsoddiadau ERDF yn Abertawe wedi ategu ei gilydd, yn ogystal ag ategu buddsoddiadau cyhoeddus a phreifat eraill. Roedd gweledigaeth hirdymor Cyngor Dinas Abertawe i fanteisio ar leoliad y glannau a'i ddathlu, wrth wneud hynny, trawsnewid delwedd y ddinas yng ngolwg buddsoddwyr, gweithwyr ac ymwelwyr, yn allweddol i hyn. Mae’r weledigaeth hon wedi’i chyflawni yn wyneb adfeilio difrifol a newid strwythurol sylweddol, sydd yn ei dro wedi gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn seilwaith.

6.61 Cafodd y rhaglenni buddsoddi yn SA1 a’r Ardal Forol ill dwy eu llywio gan y weledigaeth hon, ac felly hefyd rhaglen adfywio mwy diweddar Bae Copr a ariannwyd gan y Fargen Ddinesig. Mae’r gyfran uchel o fusnesau a phreswylwyr a gytunodd eu bod yn gallu gweld buddsoddiadau yn cael eu harwain gan gynllun hirdymor yn awgrymu bod dealltwriaeth dda o'r weledigaeth hon a'i bod wedi'i chyfleu’n glir.

6.62 Fodd bynnag, mae'r astudiaeth achos hefyd yn dangos faint o amser sydd ei angen ar raglenni buddsoddi mawr i wireddu eu hamcanion. Ar ôl dros 20 mlynedd, mae’r weledigaeth o adfywio canol y ddinas ac ailgysylltu â’r glannau yn parhau i fynd rhagddi. Cafodd hyn ei lesteirio'n ddifrifol gan ddirywiad economaidd 2008/9 (a arweiniodd at ostyngiad mewn buddsoddiad preifat a chanslo buddsoddiadau allweddol) yn ogystal â chan y newidiadau cymdeithasol ehangach fel y cynnydd mewn siopa ar-lein, sydd wedi cael effaith andwyol ar fywiogrwydd canol dinas Abertawe, ac mae'n parhau i fod yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r ddinas.

6.63 O ganlyniad i hynny, bu’n rhaid i’r strategaeth ar gyfer gwireddu’r weledigaeth addasu, ac ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae'r penderfyniad i newid o ddatblygiad hamdden yn SA1 i gampws AU a phentref arloesi, a’r newid mewn cynlluniau ar gyfer adfywio a arweinir gan fanwerthu o blaid cynlluniau â mwy o ffocws ar hamdden a lletygarwch ar gyfer safleoedd yng nghanol y ddinas a'r glannau.

6.64 Yn erbyn y cefndir hwn, mae ERDF wedi bod yn ffynhonnell allweddol o arian cyhoeddus a ddefnyddiwyd pan oedd ar gael er mwyn gwneud gwelliannau pwysig ond graddol yn aml i'r ddinas a'r glannau. Ymysg y cyflawniadau allweddol mae:

- Adfywio SA1 a chreu porth gwell i'r ddinas o'r dwyrain.
- Datblygu'r Ardal Forol a’i henw da ymhellach fel cyrchfan hamdden ac ymwelwyr deniadol i’r ddinas.
- Hybiau trafnidiaeth o ansawdd gwell a llwybrau cerdded/beicio gwell.

6.65 Mae rhywfaint o dystiolaeth bod buddsoddiad yn SA1 hefyd wedi cyfrannu at dwf economaidd y ddinas. Dengys Pennod 4 mai gwasanaethau ariannol a phroffesiynol fu'r prif ysgogydd twf mewn Gwerth Ychwanegol Gros a chyflogaeth yn Abertawe ers dechrau'r ganrif hon. Mae 27% o swyddi'r ddinas yn y sectorau hyn wedi'u lleoli yn SA1 sy'n awgrymu bod buddsoddiad yn y lleoliad hwn wedi cyfrannu at dwf drwy ddarparu lleoliad newydd, deniadol ar gyfer y sectorau gwasanaeth gwerth uchel hyn. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch ychwaneged y twf hwn.

6.66 Mae tystiolaeth hefyd bod buddsoddiadau wedi gwella canfyddiadau o'r ddinas, gyda chyfran sylweddol o'r preswylwyr yn nodi mai mwy o fuddsoddiad, datblygiad neu adfywio yw'r prif reswm pam mae Abertawe wedi gwella. Mae'r preswylwyr hefyd

wedi sylwi ar welliannau i'r seilwaith cerdded a beicio ac yn credu eu bod wedi gwella'r ddinas.

6.67 Yn olaf, er nad yw'r cysylltiadau rhwng buddsoddiadau a ariannwyd gan ERDF mewn AU newydd a chyfleusterau ymchwil a mathau eraill o fuddsoddiadau mor gryf, mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu bod y rhain wedi'u croesawu gan breswylwyr a busnesau ac wedi arwain at fuddion i fusnesau lleol.

## 7. Astudiaeth Achos Port Talbot

### Crynodeb o'r buddsoddiadau

7.1 Mae tref Port Talbot wedi cael lleiafswm o £73 miliwn o grant ERDF i'w fuddsoddi mewn seilwaith dros gyfnod y ddwy raglen (£147 miliwn gan gynnwys cyfraniadau arian cyfatebol), gyda £56.7 miliwn o hwn yn dod o raglen 2007-13. Cyfrannodd dros 85 y cant o'r cyllid hwn at raglen fuddsoddi hirdymor mewn seilwaith ffyrdd newydd neu well. Nod hyn oedd gwella cysylltedd rhwng y dref ac ardaloedd datblygu allweddol, a gwella mynediad rhwng yr Harbwr Dŵr Dwfn a Chyffordd 38 yr M4 (rhan o rwydwaith TEN-T). Ariannwyd Camau 1b ac 1c o dan raglen 2000-06, ac ariannwyd Cam 2 (Ffordd yr Harbwr) yn rhaglen 2007-13.

7.2 Mae'r £10 miliwn sy'n weddill o ERDF wedi cyfrannu at fuddsoddiadau mewn safleoedd ac eiddo a seilwaith ymchwil ac arloesi, gydag un buddsoddiad yn y seilwaith twristiaeth ym Mharc Margam. Ymysg y prosiectau allweddol mae Canolfan Arloesi Bae Baglan, sef Technium (cyfleusterau deori busnesau) yn wreiddiol ond sydd bellach yn cael ei ddefnyddio fel gofod busnes cyffredinol, er ei fod yn dal i gael ei dargedu at fusnesau uwch-dechnoleg.


7.3 Bu dau brif glwstwr daearyddol o fuddsoddiad:

- Parc Ynni Baglan i'r gogledd-orllewin o ganol y dref. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiadau mewn safleoedd ac eiddo a seilwaith ymchwil ac arloesi newydd, yn enwedig yn ystod rhaglen 2000-06
- Glannau'r Harbwr, i'r de o ganol y dref, sydd wedi elwa o well mynediad i'r ffordd ac sy'n lleoliad Pentref Ymchwil a Datblygu newydd a gafodd fuddsoddiad ERDF yn ystod 2007-13.

**Tabl 7.1: Buddsoddiadau seilwaith ym Mhort Talbot**

| | Math o Seilwaith | Teitl y Prosiect | Ymgeisydd | Disgrifiad | Gwariant Grant yr UE (£m) | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2000-06 | Ymchwil ac Arloesi | Technium Technolegau Cynaliadwy Baglan | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Technium yn wreiddiol. Bellach yn Ganolfan Arloesi Bae Baglan sy’n darparu lle i fusnesau uwch-dechnoleg, cynaliadwy a arweinir gan dechnoleg | 2.1 | 8.3 |
| | | Canolfan Dechnoleg TWI (Cymru) | TWI Ltd | Canolfan ragoriaeth mewn Archwiliadau Anninistriol (NDE) a rheoli asedau, ym Margam yn wreiddiol a bellach wedi'i hadleoli i Bentref Ymchwil a Datblygu Glannau'r Harbwr | 2.6 | 5 |
| | Safleoedd ac Eiddo | Parc Ynni Baglan Cam 1 | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Adeiladu uned ddiwydiannol newydd ar gam 1 Parc Ynni Baglan. | 1.4 | 3.5 |
| | Twristiaeth | Ailddatblygu Parc a Chastell Margam | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Rhaglen o welliannau i gyfleusterau ymwelwyr ym Mharc Margam, ased hamdden a thwristiaeth allweddol | 1.3 | 5.0 |
| | Trafnidiaeth | Adfywio Port Talbot - Seilwaith Mynediad o'r Gorllewin | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Cam 1c o'r buddsoddiad yn y Ffordd Ddosbarthu Ymylol. Darparodd hyn lôn gerbydau ychwanegol ar Ffordd Afan (A4241) gan gynyddu capasiti'r cyswllt. | 4.2 | 12.4 |
| | | Mynediad i'r Dociau ar Ystâd Ddiwydiannol Port Talbot | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Cam 1b o'r buddsoddiad yn y Ffordd Ddosbarthu Ymylol. Darparodd hyn ffordd ddeuol yn cysylltu'r dref ag ardal ddatblygu yn y dociau drwy ystâd ddiwydiannol Port Talbot. | 5.2 | 20.2 |
| 2007-13 | Safleoedd ac Eiddo | Cronfa Datblygu Eiddo De-orllewin Cymru. | Cynghorau Sir Caerfyrddin, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot | Darparu cyllid llenwi bwlch ar gyfer dau brosiect datblygu eiddo ym Mhort Talbot:<br>• Pentref Ymchwilio a Datblygu Glannau'r Harbwr<br>• Datblygu adeilad swyddfa 16,000 troedfedd sgwâr ym Mharc Ynni Baglan | ddim yn hysbys | ddim yn hysbys |
| | Trafnidiaeth | Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru | Llywodraeth Cymru | Mân welliannau i gyfleusterau yng ngorsaf reilffordd Baglan a thros £11 miliwn o fuddsoddiad yng Ngorsaf Parcffordd Port Talbot | ddim yn hysbys | ddim yn hysbys |
| | | Ffordd yr Harbwr | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Cam 2 y buddsoddiad yn y Ffordd Ddosbarthu Ymylol. Fe wnaeth y cam hwn wella mynediad rhwng yr Harbwr Dŵr Dwfn a Chyffordd 38 yr M4, a datgloi hyd at 250 hectar o dir llwyd i’w ddatblygu. | 53.7 | 92.7 |
| | Digidol | Band Eang y Genhedlaeth Nesaf | Llywodraeth Cymru | Prosiect cenedlaethol sy'n darparu mynediad i fand eang cyflym iawn, gan gynnwys 14 o bwyntiau seilwaith mynediad agored yng Nghastell-nedd Port Talbot | ddim yn hysbys | ddim yn hysbys |

**Ffigur 7.1: Lleoliad buddsoddiadau ERDF yng Nghlwstwr Port Talbot**



**Dadansoddiad o'r cyd-destun economaidd a'r cyd-destun polisi**

7.5 Roedd y buddsoddiadau ym Mharc Ynni Baglan ar ddechrau’r ganrif hon yn ymateb i gau gwaith BP ym Mae Baglan a oedd yn un o’r safleoedd petrocemegol mwyaf yn Ewrop, ac a oedd wedi cyflogi tua 2,500 o weithwyr pan oedd yn ei anterth yn y 1970au. Digwyddodd hyn tua'r un pryd ag y caewyd Purfa Olew Llandarsi British Petroleum (BP) yng Nghastell-nedd a oedd hefyd wedi cyflogi miloedd o bobl yn yr ardal leol. Arweiniodd hyn at gynnydd mawr mewn diweithdra; mae'r Arolwg o'r Llafurlu yn dangos bod 11% o breswylwyr o oedran gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ddi-waith ym 1999/2000 o gymharu â saith y cant yng Nghymru (ONS, 2000).

7.6 Cynigiwyd y Parc Ynni gan BP er mwyn lliniaru effeithiau economaidd ei ymadawiad a chafodd gefnogaeth gref gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBS CNPT) a oedd newydd gael ei ffurfio ac Awdurdod Datblygu Cymru. Cynhaliodd BP waith adfer tir er mwyn caniatáu i'r safle gael ei ailddatblygu at ddibenion datblygu economaidd cyn gwerthu'r tir i St Modwen Developments Limited (SMDL). Yna, ar y cyd â'r Cyngor, cychwynnodd SMDL ar brosiect adfywio mawr i drawsnewid y safle tir llwyd segur, a oedd yn mesur cyfanswm o tua 425 hectar, yn safle cyflogaeth strategol.

**Ffigur 7.2: Ffin Parc Ynni Baglan**



Ffynhonnell: CBS CNPT (2016)

7.7 Y weledigaeth ar gyfer y Parc Ynni oedd darparu cyfleoedd busnes a gweithgynhyrchu newydd ar safle dwysedd isel, o ansawdd uchel wedi’i dirweddu. Byddai meddianwyr y safle hefyd yn elwa o ynni fforddiadwy o ganlyniad i gynhyrchu pŵer ar y safle. Ystyriwyd bod y Parc Ynni yn hanfodol i helpu CNPT i roi terfyn ar ei ddibyniaeth ar ddiwydiannau trwm traddodiadol ac arallgyfeirio'r economi leol. Roedd

adroddiadau ar y pryd yn awgrymu y gallai'r datblygiad ddod â 10,000 o swyddi newydd i'r ardal yn y pen draw, ac ychwanegu tua £150 miliwn y flwyddyn at yr economi leol (BBC, 2001). Roeddent yn awgrymu y byddai'r mathau o ddefnydd a fwriadwyd yn cynnwys swyddfeydd, canolfannau galwadau, y diwydiant ysgafn ac o bosibl cyflogwyr mawr fel gweithgynhyrchwyr ceir neu wneuthurwyr cydrannau moduron.

7.8 Gwelwyd y Parc Ynni fel cam cyntaf tuag at adfywio Port Talbot. Cynllun tymor hwy CBS CNPT oedd dechrau ailddefnyddio dociau'r dref mewn modd cynhyrchiol. Roedd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Prif Gynllun Canol Port Talbot (CBS CNPT, 2009) yn cydnabod pwysigrwydd y Dociau a'r ardaloedd cyfagos a oedd yn cynnwys llawer iawn o dir llwyd mewn lleoliad canolog, yn agos at yr orsaf reilffordd a thraffordd yr M4. Dywedodd fod adfywio'r safleoedd hyn yn cynnig cyfle i drawsnewid delwedd Port Talbot ac i ddenu buddsoddiad a diwydiannau newydd a fyddai'n creu sylfaen economaidd fwy cynaliadwy i'r dref.

**Sut y cynlluniwyd y buddsoddiadau i ategu mathau eraill o seilwaith?**

7.9 Mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddiadau seilwaith ym Mhort Talbot wedi'u harwain gan strategaeth ddatblygu hirdymor ar gyfer y dref, ac ardaloedd adfywio allweddol fel y Parc Ynni a'r Dociau. O'r herwydd, mae cysylltiadau ategol clir rhwng nifer o'r buddsoddiadau.

7.10 Roedd y buddsoddiadau ym Mharc Ynni Baglan yn ystod rhaglen 2000-06 yn cynnwys:

- Adeiladu uned ddiwydiannol newydd yn ystod Cam 1
- Datblygu'r Technium Technolegau Cynaliadwy

7.11 Bwriad y buddsoddiadau hyn mewn adeilad busnes newydd oedd meithrin enw da y Parc Ynni fel lleoliad busnes newydd a rhoi hwb i fuddsoddiad newydd. Roedd uchelgais hefyd gan Lywodraeth Cymru a CBS CNPT i gwmnïau newydd bach a fyddai'n tyfu'n rhy fawr i Technium adleoli i eiddo arall yn y Parc Ynni. Roedd astudiaeth gwmpasu gan Awdurdod Datblygu Cymru wedi argymell y dylai'r Technium ganolbwyntio ar feysydd allweddol, sef ynni, deunyddiau a thechnolegau geo-amgylcheddol oherwydd cryfderau ac asedau presennol Port Talbot, a gobaith rhanddeiliaid y prosiect oedd y byddai'r holl fuddsoddiadau hyn yn helpu i ddatblygu'r clwstwr o fusnesau sy'n dod i'r amlwg yn y sectorau hyn.

7.12 Bwriadwyd i fuddsoddiadau ERDF ym Maglan hefyd weithio ochr yn ochr â buddsoddiadau seilwaith eraill a ariannwyd yn gyhoeddus ac yn breifat gan gynnwys y gwaith adfer a gwasanaethu tir a wnaed gan BP, pont gyswllt Parc Ynni Baglan a oedd yn gwella mynediad i'r safle, a'r gwaith cynhyrchu ynni a oedd yn darparu ynni am gost isel i feddianwyr.

7.13 Mae cysylltiadau clir sy'n ategu ei gilydd rhwng buddsoddiadau o dan raglen 2007-13 a buddsoddiadau a ariannwyd yn ystod rhaglenni 2000-06 a 2014-20. Mae hyn fwyaf amlwg ar gyfer buddsoddiadau trafnidiaeth a safleoedd ac eiddo:

- Bu dau fuddsoddiad pellach mewn eiddo busnes ym Mharc Ynni Baglan; cafodd Parc Brunel, adeilad swyddfa 16,000 troedfedd sgwâr gyllid, grant yn ystod rhaglen 2007-13, a chafodd Canolfan Dechnoleg y Bae, adeilad 25,000 troedfedd sgwâr gyda gofod swyddfa a labordy modern, ei ariannu o dan

raglen 2014-20. Roedd y rhain yn adeiladu ar y buddsoddiadau cynharach yn 2000-06 a'u bwriad oedd gwella mynediad i adeiladau a thyfu'r clwstwr o fusnesau sy'n canolbwyntio ar ymchwil yn y Parc Ynni.

- Roedd yn amlwg bod gwahanol gamau Ffordd Ddosbarthu Ymylol wedi'u cynllunio i ategu ei gilydd gan eu bod oll yn rhan o'r un rhaglen hirdymor o fuddsoddi mewn trafnidiaeth. Mae'r Ffordd Ddosbarthu orffenedig yn darparu ffordd ddeuol sy'n ymestyn o Gyffordd 38 (Margam) yr M4 yn y de, drwy ardal y Dociau i Faglan yn y gogledd ac yn darparu porth newydd i ganol y dref.
- Roedd y Ffordd Ddosbarthu Ymylol yn darparu mynediad i safle Ystâd Ddiwydiannol Port Talbot (iard bren, gwaith tunplat a ffowndri haearn gynt), a oedd yn adfail ac yn ddiolwg. Dyma leoliad safle cyflogaeth strategol Glannau'r Harbwr bellach, gan gynnwys y Pentref Ymchwil a Datblygu a gafodd grant datblygu a ariannwyd gan yr UE yn 2007-13. Caiff gwaith adfer gweddill y safle ei ariannu'n rhannol o dan raglen 2014-20.
- Mae safle Glannau'r Harbwr gerllaw Gorsaf Parcffordd Port Talbot, a gafodd £11 miliwn o gyllid ailddatblygu yn 2016 fel rhan o Raglen Gwella Gorsafoedd Cymru a'r Hyb Trafnidiaeth Integredig, a gwblhawyd yn 2018 (a ariannwyd o dan raglen 2014-20) sy'n dod â Gorsaf Parcffordd a therfynell fysiau, cyfleusterau beicio a safle tacsis newydd ynghyd. Cynlluniwyd y buddsoddiadau hyn i greu argraff gyntaf gadarnhaol o Bort Talbot ond hefyd i gysylltu ardaloedd preswyl a chyflogaeth yn well. Mae CBS CNPT yn gobeithio y bydd y ffaith bod yr orsaf yn agos at Lannau'r Harbwr yn gwneud y safle'n fwy deniadol i fuddsoddwyr masnachol.

**Y seilwaith heddiw**

7.14 Mae'r rhan helaethaf o'r seilwaith a ariannwyd gan ERDF yn dal i gael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd heddiw. Y prif eithriadau yw:

- Technium Technolegau Cynaliadwy Baglan: fel yn Abertawe, darparodd y Technium gwreiddiol ystod eang o gymorth i fusnesau bach o sectorau penodol gyda'r nod o ddatblygu a thyfu busnesau cyn iddynt symud i adeiladau mwy. Er bod busnesau a oedd yn denantiaid yn y Technium yn dal i elwa ar rywfaint o gymorth, mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel lleoliad busnes cyffredinol bellach.
- Canolfan Dechnoleg TWI: Derbyniodd TWI UK Ltd gyllid ERDF i ddatblygu ei gyfleuster Ymchwil a Datblygu gwreiddiol ym Margam yn ystod rhaglen 2000-06. Cafodd hwn ei adleoli i Bentref Ymchwil a Datblygu Glannau'r Harbwr a ariannwyd yn ystod rhaglen 2007-13. Yn ôl cronfa ddata VOA, mae'r hen gyfleuster bellach wedi'i ddymchwel.

7.15 Mae enghraifft TWI yn darparu rhywfaint o dystiolaeth o ddadleoli o seilwaith hŷn i seilwaith mwy newydd, ill dau wedi'u hariannu gan ERDF. Dywedodd ymgyngoreion fod hwn yn benderfyniad strategol a wnaed mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a CBS CNPT, gan fod awydd ar y cyd i sefydlu clwstwr o fusnesau tebyg yn y Pentref Ymchwil a Datblygu, gyda TWI yn ganolog iddo. Pwysleisiodd ymgyngoreion o TWI hefyd fuddion adleoli i gynhyrchiant a denu a chadw staff.


**Tystiolaeth o ganlyniadau ar sail ardal**

7.16 O ystyried natur a ffocws buddsoddiadau ym Mhort Talbot mae'r adran hon yn canolbwyntio ar adfywio Parc Ynni a Dociau Baglan, ac i ba raddau y mae hyn wedi arwain at fuddsoddiad, twf swyddi ac arallgyfeirio yn yr economi leol.

Parc Ynni Baglan

7.17 Cynlluniwyd a datblygwyd y Parc Ynni yn unol â Fframwaith Dylunio Trefol Parc Ynni Baglan 2003[34] (er bod rhai buddsoddiadau wedi rhagflaenu hyn). Roedd hwn yn disgrifio cam cyntaf y datblygiad a oedd yn canolbwyntio ar rannau gogleddol a dwyreiniol yr ardal gyflogaeth, a fyddai'n darparu parciau busnes a gweithgynhyrchu newydd ar safle dwysedd isel, o ansawdd wedi'i dirweddu.

**Ffigur 7.3: Map o Barc Ynni Baglan ac ardal ddatblygu Cam 1**




Ffynhonnell: CBS CNPT (2016)

7.18 Yn ôl data VOA, mae 52,000 metr sgwâr o eiddo busnes wedi'u datblygu yn yr ardal hon ers dechrau'r ganrif hon. Mae dros 37,000 o hwn yn ofod diwydiannol, mae 6,900 metr sgwâr yn swyddfeydd y cyngor a 7,600 metr sgwâr yn swyddfeydd masnachol. Amcangyfrifir y gellir priodoli tua 14,000 metr sgwâr o hyn yn uniongyrchol i fuddsoddiadau ERDF[35] ond credai ymgyngoreion fod y buddsoddiadau hyn wedi helpu i feithrin hyder ym Mharc Ynni Baglan ac wedi cyfrannu'n anuniongyrchol at ddatblygiadau eraill; cyflawnwyd 12,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr a ariannwyd gan ERDF yn gynnar ar ddechrau'r ganrif hon a dilynwyd hynny


[34] Ni fu'n bosibl cael mynediad at y ddogfen hon ac felly ni fu'n bosibl pennu'r targedau ar gyfer datblygu

[35] Yn seiliedig ar arwynebedd llawr adeilad Technium a'r gofod diwydiannol sydd bellach yn cael ei feddiannu gan Hi Lex Cable Systems

gan fuddsoddiadau preifat yn ddiweddarach yn y degawd fel ffatri 6,500 metr sgwâr Ecolab a agorodd yn 2007.

7.19 Fodd bynnag, mae nifer o leiniau yn y parc ynni gwreiddiol sy'n parhau i fod ar gael neu heb eu datblygu.

**Ffigur 7.4: Arwynebedd llawr busnes yn ardal datblygu Cam 1 Parc Ynni Baglan**





Ffynhonnell: VOA (2022)

7.20 Mae'r safle bellach yn ystâd ddiwydiannol/busnes fodern sefydledig ac mae ystod eang o gwmnïau ar y safle. Mae Tŷ’r Cwmnïau yn dangos bod 89 o fusnesau ar y safle, o sectorau sy’n cynnwys adeiladu, gweithgynhyrchu a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Mae'r busnesau mwyaf i gyd yn weithgynhyrchwyr, gan gynnwys Ecolab, Intertissue (gwneuthurwr papur) a Hi-Lex Cable Systems (gwneuthurwr cydrannau ar gyfer y diwydiant modurol). Mae’r cwmnïau sydd wedi’u lleoli yng Nghanolfan Arloesi Bae Baglan yn cynnwys Npower Renewables, Netalogue Ltd a Vishay Electronics, yn ogystal â’r Ganolfan Peirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol (SPECIFIC).

7.21 Roedd sylwadau asiantau masnachol hefyd yn gadarnhaol am gyfraniad y Parc Ynni i Bort Talbot. Dywedodd yr asiantau hyn ei fod bellach yn lleoliad sydd wedi'i hen sefydlu ac y mae galw mawr amdano ar gyfer swyddfeydd a diwydiant. Er mai prin yw'r galw am swyddfeydd ym Mhort Talbot, yn hanesyddol mae'r dref wedi cael trafferth i fodloni'r galw lleol hwn gan nad oes unrhyw swyddfeydd sefydledig yn y dref. Dywedodd yr asiantau fod datblygu gofod busnes o ansawdd uchel ym Mharc Ynni Baglan wedi helpu i fynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y farchnad.

7.22 Yn dystiolaeth o hyn mae'r ffaith bod datblygiad hapfasnachol Gradd A ym Mharc Brunel (a ariannwyd gan ERDF yn ystod rhaglen 2007-13) wedi'i osod yn llawn o fewn 12 mis i'w gwblhau. Roedd y tenantiaid yn cynnwys S&C Electrics (darparwr byd-eang cyfarpar a gwasanaethau ar gyfer systemau pŵer trydan), Ministry of Furniture (darparwr dodrefn swyddfa) ac Allied Healthcare. Dywedwyd bod y rhain i gyd eisoes wedi'u lleoli yn yr ardal ond eu bod wedi symud i Barc Brunel er mwyn ehangu'r busnes.

**Ffigur 7.5: Proffil busnesau ym Mharc Ynni Baglan yn ôl diwydiant, 2021**




Ffynhonnell: Tŷ'r Cwmnïau

7.23 Aseswyd y newid mewn cyflogaeth drwy nodi'r gyfatebiaeth orau o ardal cynnyrch ehangach haen is ar gyfer y Parc Ynni[36] a dadansoddi newid mewn setiau data cyflogaeth. Dengys hyn fod nifer y cyflogeion yn ardal Parc Ynni Bae Baglan wedi cynyddu o 1,600 yn 2003 i 5,000 yn 2020, cynnydd o 3,400 o swyddi[37]. Dros yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd o 6,000 yng nghyfanswm y gweithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n awgrymu bod Parc Ynni Baglan wedi bod yn lleoliad twf pwysig i'r fwrdeistref, er nad yw'r twf wedi bod mor fawr ag yr awgrymwyd gan rai o'r rhagolygon cychwynnol.

7.24 Mae'n anodd dadansoddi sut y mae'r twf hwn mewn swyddi yn cael ei ddosbarthu ar draws sectorau oherwydd newidiadau i godau SIC yn ystod y cyfnod hwn. Ond o ddadansoddiad lefel uchel, gellir gweld mai mewn dau sector y gwelwyd twf yn bennaf:

- Y sector cyhoeddus (tua 2,300 o swyddi), yn bennaf oherwydd bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Bro Morgannwg wedi agor swyddfeydd yn y Parc Ynni. Mae 45% o swyddi'r Parc Ynni yn y sector hwn sy’n llawer uwch nag unrhyw ddiwydiant arall (gweler Ffigur 7.6).
- Gweithgynhyrchu (tua 450 o swyddi), gyda'r rhan fwyaf o'r twf hwn ym maes gweithgynhyrchu papur (oherwydd ffatri Intertissue) a chynhyrchion a thechnolegau glanhau (oherwydd cyfleuster Ecolab).


7.25 Mae hyn yn awgrymu bod cyfran fawr o dwf swyddi yn y Parc Ynni i'w briodoli i feddianwyr o'r sector cyhoeddus yn hytrach na buddsoddiad preifat. Felly, er bod

[36] LSOAs W01000897 a W01000892. Mae hyn yn cynnwys rhai ardaloedd y tu allan i Barc Ynni Baglan sy’n golygu bod nifer y swyddi’n debygol o orbwysleisio nifer y gweithwyr, er mai ardaloedd preswyl yw’r rhain yn bennaf.

[37] Mae hyn yn defnyddio data o’r Ymchwiliad Busnes Blynyddol ar gyfer 2003 a’r Gofrestr Busnes a’r Arolwg Cyflogaeth ar gyfer 2020. Mae'r arolygon hyn yn defnyddio methodolegau gwahanol ac felly nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol. Dylid trin y twf mewn cyflogaeth felly fel twf dangosol.

Parc Ynni Baglan wedi denu nifer o weithgynhyrchwyr mawr, hyd yn hyn ymddengys mai dim ond cyfraniad bach y mae wedi'i wneud at dwf economaidd, arallgyfeirio'r economi leol a rhoi terfyn ar ddibyniaeth Port Talbot ar ddiwydiannau trwm.

**Ffigur 7.6: Proffil y cyflogeion ym Mharc Ynni Baglan yn ôl diwydiant, 2020**




Ffynhonnell: ONS (2020)

7.26 Mae cwymp economaidd 2008/9 ac ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol gwaith dur Port Talbot wedi bod yn rhwystrau i ddenu buddsoddiad newydd i'r Parc Ynni. Arweiniodd y cyntaf at ostyngiad mawr mewn gwerthoedd rhent a olygai nad oedd datblygiad hapfasnachol yn fasnachol hyfyw am gyfnod hir heb gymorth grant, a chyfyngodd hyn yn ddifrifol ar y datblygiadau newydd yn y parc. Mae'n nodedig bod yr holl fuddsoddiadau mawr gan weithgynhyrchwyr yn y Parc Ynni wedi rhagflaenu'r cwymp.

7.27 Bu rhywfaint o ddatblygiad diwydiannol newydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, megis Parc Mardon, y dywedodd asiantau fod galw mawr amdano. Fodd bynnag, mae hyn wedi tueddu i fod yn unedau bach a nododd asiantau dangyflenwad difrifol o unedau diwydiannol o ansawdd da dros 10,000 troedfedd sgwâr sydd wedi bod yn rhwystr i ddenu buddsoddiad ac i dwf busnesau presennol.

7.28 I grynhoi, mae buddsoddiadau ERDF ym Mharc Ynni Baglan wedi ategu buddsoddiadau seilwaith eraill ac wedi cyfrannu at adfywiad ffisegol rhan o'r hen safle tir llwyd hwn. Mae bellach yn ystâd fusnes a diwydiannol ddeniadol sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac y mae galw mawr amdani gan fusnesau lleol a chenedlaethol. Er nad yw'r uchelgeisiau gwreiddiol ar gyfer y safle wedi'u cyflawni eto, erys potensial datblygu sylweddol yn y Parc Ynni a allai ysgogi twf a buddsoddiad yn y dyfodol. Yn allweddol i hyn bydd annog datblygiadau newydd mewn eiddo diwydiannol mwy nad ydynt yn cael eu darparu gan y farchnad ar hyn o bryd.

Dociau Port Talbot

7.29 Mae'r gwaith o adfywio tir yn nociau Port Talbot yn llai datblygedig na Pharc Ynni Baglan a ddechreuodd ym mlynyddoedd cynnar y ganrif hon, sy'n golygu ei bod yn dal yn rhy gynnar i gynnal asesiad ystyrlon o lwyddiant y buddsoddiad.

7.30 Cwblhawyd y gwaith o ddatblygu Ffordd yr Harbwr a ariannwyd gan ERDF yn 2013, gan agor y tir i'w ddatblygu. Hyd yma, yr unig ddatblygiad fu'r Pentref Ymchwil a Datblygu ar safle Glannau'r Harbwr (Ystâd Ddiwydiannol Port Talbot gynt), a gafodd grant drwy ERDF ac a gwblhawyd yn 2014. Darparodd hyn 5,400 metr sgwâr o adeiladau newydd, gyda 3,600 metr sgwâr ohonynt yn swyddfeydd neu labordai (roedd y 1,800 metr sgwâr arall yn llysoedd barn yng Nghanolfan Gyfiawnder Port Talbot).

**Ffigur 7.7: Golygfa o Bentref Ymchwil a Datblygu Glannau'r Harbwr**



Ffynhonnell: [Glannau'r Harbwr Port Talbot (npt-business.co.uk)]

7.31 Dengys cofnodion Tŷ'r Cwmnïau mai dim ond dau fusnes sydd wedi'u cofrestru yn y Pentref Ymchwil a Datblygu; Seren Support Services (darparwr gofal cartref lleol) a Cymru Gynnes (Cwmni Buddiannau Cymunedol sy'n ceisio trechu tlodi tanwydd). Fodd bynnag, deallir mai'r tenantiaid mwyaf yw Tata Steel (perchennog a gweithredwr gwaith dur Port Talbot) a TWI Ltd, arbenigwr mewn datblygu a chymhwyso dulliau profi anninistriol, a symudodd o safle arall ym Margam. Nid yw nifer y gweithwyr yn y Pentref Ymchwil a Datblygu na faint o'r rhain sy'n ychwanegol i Bort Talbot yn hysbys[38]. Fodd bynnag, o ystyried bod y ddau denant mawr yn fusnesau presennol neu wedi adleoli o rywle arall yn y dref, mae lefel y twf swyddi ychwanegol net yn debygol o fod yn gymedrol.

7.32 Dylai'r gwaith o adfer a gwasanaethu gweddill y safle (sy'n cael ei ariannu drwy raglen 2014-20) gael ei gwblhau yn 2022, a bydd yn cynnwys ffordd fynediad newydd, mesurau lliniaru llifogydd ac estyniad i'r maes parcio ger Gorsaf Reilffordd

[38] Mae'r LSOA sy'n cwmpasu'r safle hwn yn fawr iawn ac mae'n cynnwys gwaith dur Tata ac ardaloedd cyflogaeth eraill i'r de, sy'n ei gwneud yn anos ynysu'r gyflogaeth yn y Pentref Ymchwil a Datblygu.

Parcffordd Port Talbot.  Mae CBS CNPT yn gobeithio y bydd lleoliad y safle drws nesaf i'r orsaf a Ffordd yr Harbwr yn gwneud hwn yn safle hynod ddeniadol ar gyfer mewnfuddsoddi, ac y bydd yn gatalydd ar gyfer adfywio'r dociau.

7.33 Unwaith eto, mae'n amlwg bod buddsoddiadau ERDF wedi gwneud cyfraniad hollbwysig at adfywiad ffisegol yr ardal ac wedi gwneud cynnydd tuag at ddechrau ailddefnyddio'r hen ddociau mewn modd cynhyrchiol. Fodd bynnag, mae'n dal yn rhy gynnar i asesu a fydd yr amcanion hirdymor ar gyfer y safle yn cael eu cyflawni.

**Canfyddiadau'r arolwg**

Lefelau boddhad

7.34 Canfu'r arolwg o breswylwyr a busnesau fod y lefelau boddhad cyffredinol â Phort Talbot fel lle i fyw a gwneud busnes yn dda, ond nid cystal ag ardaloedd eraill fel Abertawe ac Ynys Môn/Bangor:

- Dywedodd 61% o breswylwyr eu bod yn weddol fodlon neu'n fodlon iawn, o gymharu â 74% yn Abertawe ac 86% yn Ynys Môn a Bangor.
- Dywedodd 48% o fusnesau ei fod yn lle rhagorol neu dda i wneud busnes, o gymharu â 55% yn Abertawe ac Ynys Môn a Bangor.

7.35 Dywedodd 65% o breswylwyr mai'r peth gorau am Bort Talbot oedd ei fynediad i'r amgylchedd naturiol, a oedd yn sylweddol fwy nag unrhyw ffactor arall.  Dywedwyd mai'r peth gwaethaf am Bort Talbot oedd y gwaith dur a llygredd, a chyfeiriwyd at hynny gan 33% ac 13% o'r ymatebwyr yn y drefn honno.

7.36 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr ym Mhort Talbot eu bod yn fodlon ar nifer o agweddau ar yr ardal gan gynnwys yr amgylchfyd cyhoeddus, gwasanaethau cyhoeddus, diogelwch personol, trafnidiaeth gyhoeddus a thelathrebu.  Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn anfodlon â bywiogrwydd canol y dref.  Dywedodd 42% hefyd eu bod yn anfodlon ag argaeledd swyddi.

**Tabl 7.2: Boddhad gyda gwahanol agweddau ar fyw ym Mhort Talbot**


| | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Cyfanswm a oedd yn fodlon | Cyfanswm a oedd yn anfodlon |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atyniad yr amgylchfyd cyhoeddus | 18% | 38% | 19% | 13% | 8% | 56% | 21% |
| Diogelwch personol | 30% | 38% | 12% | 13% | 6% | 68% | 19% |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 16% | 34% | 24% | 8% | 12% | 50% | 20% |
| Pethau i'w gwneud yn yr ardal | 11% | 26% | 23% | 23% | 13% | 37% | 36% |
| Y cyfleoedd gwaith sydd ar gael | 1% | 11% | 16% | 24% | 18% | 12% | 42% |
| Bywiogrwydd canol y dref | 6% | 16% | 19% | 26% | 30% | 22% | 56% |
| Tai fforddiadwy | 18% | 21% | 16% | 13% | 7% | 39% | 20% |
| Ansawdd ffyrdd | 5% | 26% | 16% | 26% | 22% | 31% | 48% |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 20% | 33% | 9% | 11% | 10% | 53% | 21% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Argaeledd parcio | 13% | 25% | 21% | 17% | 16% | 38% | 33% |
| Telathrebu | 32% | 39% | 13% | 5% | 5% | 71% | 10% |

Ffynhonnell: Arolwg Preswylwyr Beaufort Research.
Sylfaen: yr holl ymatebwyr (201) – ni ddangosir yr atebion 'ddim yn gwybod' neu 'gwell gennyf beidio â dweud'

7.37 Dywedodd busnesau mai cryfderau allweddol ardal Port Talbot yw ei chysylltiadau trafnidiaeth, cyflymder y rhyngrwyd ac argaeledd parcio. Ar gyfer pob un o'r rhain, roedd canran y busnesau a ddywedodd ei fod yn gryfder ym Mhort Talbot yn uwch na'r ganran a ddywedodd ei fod yn wendid. Ei phrif wendidau yw mynediad at lafur crefftus, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chost/argaeledd eiddo busnes.

**Ffigur 7.8: Pwysigrwydd ffactorau gwahanol o gymharu ag a yw hwn yn gryfder neu'n wendid ym Mhort Talbot**




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research
Sylfaen: yr holl ymatebwyr (61). Noder: mae echelin y yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n credu bod y mater yn gryfder ym Mhort Talbot namyn y ganran sy'n credu ei fod yn wendid. Os oedd y ffigur hwn yn gadarnhaol (uwchlaw echelin x), mae hyn yn golygu bod cyfran uwch o bobl yn credu ei fod yn gryfder yn hytrach na gwendid.


Newidiadau yn y canfyddiad o'r ardal

7.38 Dengys yr arolygon o fusnesau a phreswylwyr fod y farn yn amrywio ynghylch a yw Port Talbot wedi gwella dros y deng mlynedd diwethaf:

- Roedd 33% o breswylwyr yn credu bod y dref wedi gwella o gymharu â 27% a oedd yn meddwl ei bod wedi gwaethygu
- Roedd 34% o fusnesau yn credu bod y dref wedi gwella o gymharu â 33% a oedd yn meddwl ei bod wedi gwaethygu.

7.39 O blith y preswylwyr hynny a oedd yn teimlo bod yr ardal wedi gwella, dywedodd 41% mai'r prif reswm am hyn oedd mwy o fuddsoddiad ac adfywio'r dref. Nodwyd hyn yn fwy aml nag unrhyw reswm arall, a hynny o gryn dipyn.

**Ffigur 7.9: Newid mewn boddhad â Phort Talbot fel lle i fyw neu i weithio**





Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: 201 (arolwg o breswylwyr); 61 (arolwg o fusnesau)

7.40 Roedd preswylwyr yn fwy tebygol o ddweud bod pethau wedi gwaethygu nag wedi gwella ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar fyw yn yr ardal. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod cyfran uwch o bobl yn credu bod gwelliant cyffredinol wedi bod ym Mhort Talbot o gymharu â'r rhai a gredai fod yr ardal wedi gwaethygu.

7.41 Yr unig agweddau lle roedd cyfran uwch yn credu y bu gwelliant oedd yr amgylchfyd cyhoeddus, trafnidiaeth gyhoeddus a thelathrebu. Credai cyfran fawr o bobl fod argaeledd swyddi, bywiogrwydd canol y dref, ffyrdd a pharcio i gyd wedi gwaethygu.


**Ffigur 7.10: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Bort Talbot wedi newid? - preswylwyr**




Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr Beaufort Research.
Sylfaen: gweler y rhifau uwchben y colofnau. Roedd hyn yn cynnwys pobl a roddodd sgôr boddhad ar gyfer pob agwedd ac a oedd â barn ynghylch a oedd hyn wedi newid

7.42 Dywedodd 42% o fusnesau fod mynediad at lafur crefftus ym Mhort Talbot wedi gwaethygu dros y deng mlynedd diwethaf. Dywedodd cyfran uchel hefyd fod cost/argaeledd eiddo busnes a throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd wedi gwaethygu (29% a 35% yn y drefn honno). Y prif agweddau a oedd wedi gwella oedd cysylltiadau trafnidiaeth (a nodwyd gan 39% o fusnesau) a chyflymder y rhyngrwyd (37%).

**Ffigur 7.11: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Bort Talbot wedi newid? - busnesau**




Ffynhonnell: Arolwg Busnes Beaufort Research

Sylfaen: gweler y rhifau uwchben y colofnau. Roedd hyn yn cynnwys ymatebwyr a oedd â barn ynghylch a oedd pob agwedd yn gryfder/gwendid ac a oedd â barn ynghylch a oedd hyn wedi newid


Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith a'i gyfraniad

7.43 Mae canlyniadau'r arolwg o breswylwyr yn dangos mai'r buddsoddiadau amlycaf ym Mhort Talbot oedd gwelliannau i orsafoedd trafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfeydd (a nodwyd gan 73% o'r ymatebwyr) ac yna llwybrau cerdded/beicio (58%), tai (54%), prif ffyrdd (53%) a band eang (53%). Mae tri o'r mathau hyn o seilwaith wedi elwa o fuddsoddiad ERDF yn y deng mlynedd diwethaf (gorsafoedd a chyfnewidfeydd, prif ffyrdd a band eang[39]).

7.44 O blith y rhai a oedd wedi sylwi ar welliannau, credai 35% fod buddsoddiad mewn prif ffyrdd wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol i'r ardal, gyda 33% yn dweud yr un peth am orsafoedd a chyfnewidfeydd a 27% yn dweud hynny am fand eang. Os cynhwysir y rhai a gredai fod buddsoddiadau wedi gwneud "cyfraniad eithaf positif" i'r ardal hefyd, mae hyn yn cynyddu i 82% ar gyfer prif ffyrdd, 73% ar gyfer gorsafoedd a chyfnewidfeydd ac 84% ar gyfer band eang. Mae hyn yn cynnig tystiolaeth dda bod buddsoddiadau a ariannwyd gan ERDF wedi gwneud cyfraniadau positif i Bort Talbot fel lle i fyw.

[39] Dylid nodi bod cyfran fawr o'r buddsoddiad mewn seilwaith digidol wedi cael ei wneud drwy'r sector preifat, a bod ERDF wedi cael ei ddefnyddio i lenwi bylchau lle nad oedd yn hyfyw ar gyfer y farchnad. Nid yw'n bosibl pennu pa gyfran o fuddsoddiad ym Mhort Talbot a ariannwyd yn gyhoeddus neu'n breifat gyda'r data sydd ar gael. Yn achos prif ffyrdd a gorsafoedd/cyfnewidfeydd, mae'r buddsoddiadau mawr i gyd wedi'u hariannu'n rhannol drwy ERDF.

**Ffigur 7.12: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Bort Talbot - preswylwyr**





Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr Beaufort Research. Sylfaen: % a oedd wedi sylwi ar fuddsoddiad: yr holl ymatebwyr (201); % yn adrodd ar gyfraniad sylweddol i'r ardal: pawb a oedd wedi sylwi ar welliant neu fuddsoddiad mewn gwahanol fathau o seilwaith.

7.45 Mae'r arolwg busnes hefyd yn dangos mai'r buddsoddiadau mwyaf amlwg oedd budd mewn gorsafoedd a chyfnewidfeydd (66%), prif ffyrdd (65%) a llwybrau cerdded/beicio (50%).

7.46 O blith y rhai a oedd wedi sylwi ar welliannau, credai 40% fod buddsoddiad mewn prif ffyrdd wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol at yr ardal, gyda 28% yn dweud yr un peth am orsafoedd a chyfnewidfeydd. Os cynhwysir y rhai a gredai fod buddsoddiadau wedi gwneud "cyfraniad eithaf positif" at yr ardal hefyd, mae hyn yn cynyddu i 76% ar gyfer prif ffyrdd a 76% ar gyfer gorsafoedd a chyfnewidfeydd. Mae hyn yn cynnig tystiolaeth dda bod buddsoddiadau a ariannwyd gan ERDF wedi gwneud cyfraniadau positif i Bort Talbot.

7.47 Mae'n nodedig, fodd bynnag, bod cyfran fach o fusnesau wedi sylwi ar fuddsoddiad mewn swyddfeydd neu ystadau diwydiannol, er mai dyma oedd ffocws buddsoddiad ERDF.


**Ffigur 7.13: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Bort Talbot - busnesau**




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research Sylfaen: % a oedd wedi sylwi ar fuddsoddiad: yr holl ymatebwyr (61); % yn adrodd ar gyfraniad sylweddol i'r ardal: pawb a oedd wedi sylwi ar welliant neu fuddsoddiad mewn gwahanol fathau o seilwaith.

7.48 O blith y busnesau hynny a gredai fod buddsoddiad mewn seilwaith wedi gwneud cyfraniad positif i'r ardal, dywedodd 47% fod hyn wedi arwain at wella cysylltiadau busnes â cholegau neu brifysgolion a dywedodd 45% fod hyn wedi gwella eu mynediad at gwsmeriaid a marchnadoedd. Roedd buddion allweddol eraill i fusnesau yn cynnwys cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gwariant (33%) ac effeithlonrwydd prosesau busnes (31%).

**Ffigur 7.14: Pa rai o'r canlynol sydd wedi gwella o ganlyniad i fuddsoddiad seilwaith?**




Ffynhonnell: Arolwg Busnes Beaufort Research. Sylfaen: pob busnes a oedd yn meddwl bod o leiaf un math o fuddsoddiad mewn seilwaith wedi gwneud cyfraniad positif i'r ardal (49)

Cynllunio a chydlynu seilwaith

7.49 O blith y rhai a oedd wedi sylwi ar welliannau mewn mwy nag un math o seilwaith, roedd cyfran fawr o breswylwyr a busnesau'n cytuno bod y rhain wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr ardal leol (40%/45% o gymharu â 25%/18% a oedd yn anghytuno). Gallai cyfran uchel hefyd weld bod y buddsoddiadau yn rhan o gynllun tymor hir ar gyfer Port Talbot, er bod hyn yn llawer is nag yn Abertawe.

7.50 Roedd y farn yn fwy rhanedig ynghylch a oedd y gwaith o gynllunio a darparu gwahanol fathau o seilwaith wedi'i gydlynu'n dda, gyda 24% o breswylwyr a 37% o fusnesau'n anghytuno, a 28% o breswylwyr a 33% o fusnesau'n cytuno.

**Tabl 7.3: Barn ar gynllunio a chydlynu buddsoddiadau seilwaith ac a oeddent yn ategu ei gilydd**

| | Arolwg | Cytuno'n gryf | Tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno'n gryf | Cyfanswm yn cytuno | Anghytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio a darparu mathau gwahanol o fuddsoddiad seilwaith wedi'i gydlynu'n dda | Preswylwyr | 4% | 20% | 36% | 17% | 11% | 24% | 28% |
| | Busnesau | 2% | 30% | 29% | 12% | 16% | 32% | 28% |
| Gallaf weld fod y mathau gwahanol o fuddsoddiad yn rhan o gynllun tymor hir ar gyfer yr ardal | Preswylwyr | 11% | 29% | 23% | 14% | 17% | 40% | 31% |
| | Busnesau | 8% | 40% | 21% | 10% | 10% | 48% | 20% |
| Mae'r mathau gwahanol o fuddsoddiad wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr ardal leol | Preswylwyr | 9% | 31% | 24% | 12% | 13% | 40% | 25% |
| | Busnesau | 4% | 41% | 32% | 10% | 8% | 45% | 18% |

Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: pawb a oedd wedi sylwi ar welliannau mewn mwy nag un math o seilwaith. Preswylwyr: 179; busnesau: 49

## Casgliadau

7.51 Mae bron pob un o fuddsoddiadau ERDF ym Mhort Talbot wedi'u harwain gan strategaeth hirdymor i agor ac adfywio safleoedd tir llwyd, gyda'r nod o arallgyfeirio'r economi a gwella mynediad at gyflogaeth. Yn hynny o beth, mae cysylltiadau clir, sy'n ategu ei gilydd rhwng buddsoddiadau a wnaed ym mhob un o'r tair rhaglen ERDF ddiwethaf (2000-06, 2007-13 a 2014-20).

7.52 Y cyflawniadau allweddol hyd yma fu adfywio ffisegol:

- Hen safle BP, sef Parc Ynni Baglan bellach; parc busnes modern a deniadol ac un o leoliadau buddsoddi mwyaf deniadol Port Talbot. Mae nifer o fuddsoddiadau ERDF mewn eiddo busnes newydd wedi gweithio ochr yn ochr â buddsoddiadau i adfer y safle a buddsoddiadau mewn trafnidiaeth i wneud cyfraniad hanfodol i esblygiad y safle hwn.
- Yr hen ddociau, Glannau'r Harbwr erbyn hyn. Nid yw'r safle hwn wedi'i ddatblygu i'r un graddau ond mae'r cynnydd hyd yma wedi deillio o fuddsoddiad ERDF ategol mewn ffyrdd newydd, cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus ac eiddo busnes newydd.

7.53 Fodd bynnag, fel yn astudiaeth achos Abertawe, dim ond cynnydd rhannol a wnaed tuag at nod terfynol y buddsoddiad hwn (yn yr achos hwn tyfu ac amrywio'r sylfaen gyflogaeth leol). Mae twf swyddi'r sector preifat ym Maglan wedi bod yn gymedrol ar y cyfan, ac mae'r rhan fwyaf o hyn yn dyddio'n ôl i ganol degawd cyntaf y ganrif hon pan ddenodd y safle nifer o fuddsoddiadau mawr gan weithgynhyrchwyr.

7.54 Bu llai o fuddsoddiadau ers y cwymp economaidd yn 2008/9; adlewyrchiad o'r cwymp mewn gwerthoedd rhentu yn y farchnad eiddo ar ôl yr argyfwng a olygai nad oedd datblygiad diwydiannol a swyddfeydd yn fasnachol hyfyw heb gyllid llenwi bwlch gan y sector cyhoeddus (sydd wedi'i ddarparu mewn nifer o achosion gan ERDF).

7.55 Nes bydd gwerthoedd rhent yn adfer i lefelau hyfyw, bydd cefnogaeth barhaus y cyhoedd i ddatblygu Parc Ynni Baglan a Glannau'r Harbwr yn hanfodol felly wrth adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Mae potensial datblygu sylweddol o hyd ar y ddau safle ac mae asiantau yn adrodd bod galw cudd am eiddo busnes gan fusnesau cenedlaethol a lleol (yn enwedig unedau diwydiannol). Ategir hyn gan yr arolwg busnes a ddangosodd fod cost/argaeledd eiddo busnes yn cael ei weld fel un o wendidau allweddol y dref. Mae'r astudiaeth achos hon felly'n dangos bod sicrhau datblygiad economaidd hirdymor mewn ardaloedd sydd â heriau strwythurol dwfn yn heriol a bydd angen buddsoddiad cyhoeddus parhaus dros gyfnod maith.

7.56 Yn fwy cyffredinol, mae'r arolygon o breswylwyr a busnesau yn darparu peth sail i ddod i'r casgliad bod buddsoddiadau ERDF wedi gwella Port Talbot fel lle i fyw ac i weithio ac wedi sicrhau buddion cymunedol. Mae nifer sylweddol o bobl yn credu bod y dref wedi gwella o ganlyniad i fwy o fuddsoddiad a gwaith adfywio, a'r gwelliannau mwyaf amlwg mawr eu heffaith fu'r rhai i'r seilwaith sydd wedi elwa o arian ERDF. Mae hyn yn cynnwys prif ffyrdd a gwell gorsafoedd a chyfnewidfeydd.

# 8. Astudiaeth Achos Blaenau Gwent

## Crynodeb o'r buddsoddiadau

8.1 Mae Blaenau Gwent wedi cael lleiafswm o £113 miliwn o fuddsoddiad seilwaith wedi'i ariannu drwy grant ERDF dros gyfnod y ddwy raglen (£267 miliwn gan gynnwys arian cyfatebol). Roedd cyfran sylweddol o hyn ar ffurf buddsoddiad yn ffordd Blaenau'r Cymoedd yng ngogledd y fwrdeistref. Roedd hwn yn fuddsoddiad strategol mawr, a bwriadwyd i'w fuddion economaidd ymestyn i ardal lawer ehangach na Blaenau Gwent yn unig ac ymhell y tu hwnt i gyfnod y rhaglen.

8.2 Buddsoddwyd £22 miliwn o gyllid ERDF mewn prosiectau yn ystod rhaglen 2000-06, gyda chyfanswm o £72 miliwn o fuddsoddiad gan gynnwys arian cyfatebol. Roedd hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar safleoedd ac eiddo a phrosiectau trafnidiaeth. Roedd y buddsoddiad yn rhaglen 2007-13 yn canolbwyntio'n sylweddol ar gynllun ffyrdd Blaenau'r Cymoedd ond roedd hefyd yn cynnwys buddsoddiadau mewn safleoedd ac eiddo, trafnidiaeth a seilwaith dysgu.

8.3 Mae'r prif glwstwr daearyddol o brosiectau yn nhref Glynebwy, y mae nifer ohonynt yn gysylltiedig ag adfywio safle'r hen waith dur ('Y Gweithfeydd'). Roedd y buddsoddiadau yn cynnwys:

- Gwelliannau i Reilffordd Cwm Ebwy a ganiataodd i wasanaethau teithwyr ailagor ar y llwybr. Gwnaed gwaith cychwynnol yn ystod rhaglen 2000-06 gyda £7.3 miliwn o gyllid ERDF. Cwblhawyd y gwaith yn ystod cyfnod rhaglen 2007-13 fel rhan o brosiect Cryfhau Rheilffyrdd y Cymoedd, a oedd yn cynnwys agor gorsaf newydd ym Mharcffordd Glynebwy.
- Creu llwybr newydd o'r gogledd i'r de drwy Lynebwy (y Prif Lwybr Dosbarthu). Roedd hyn yn darparu mynediad i gyfleusterau'r Gweithfeydd ar gyfer cymunedau a busnesau lleol, a chyswllt rhwng y Gweithfeydd a'r A465.
- Adeiladu campws addysg newydd ar gyfer Coleg Gwent (Parth Dysgu Blaenau Gwent (PDBG)).
- Canolfan Arloesi Glyn Ebwy, sy'n cynnwys swyddfeydd a gweithdai wedi'u targedu at fusnesa bach a chanolig. Cafodd hyn fuddsoddiad o dan y ddwy raglen.
- Paratoi safle a seilwaith ar gyfer safle Rhyd-y-Blew sydd i'r gogledd-orllewin o Lynebwy ac ychydig i'r de o gefnffordd Blaenau'r Cymoedd (rhan o'r Gronfa Seilwaith Safleoedd Cyflogaeth Strategol).


**Tabl 8.1: Buddsoddiadau Seilwaith a ariannwyd gan ERDF ym Mlaenau Gwent**

| | Math o Seilwaith | Teitl y Prosiect | Ymgeisydd | Disgrifiad | Gwariant Grant yr UE (£m) | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2000-06 | Safleoedd ac Eiddo | Canolfan Arloesi Glynebwy | UK Steel | Datblygu canolfan fusnes newydd wedi'i thargedu at BBaChau, gan gynnig gofod swyddfa a diwydiant ysgafn | 1.1 | 2.8 |
| | | Unedau Diwydiannol Parc Busnes Victoria | Cyngor Blaenau Gwent | Adeiladu dwy uned ddiwydiannol 1,250 metr sgwâr ym Mharc Busnes Victoria, Glynebwy | 0.8 | 1.9 |
| | | Parc Busnes Tredegar Cam Dau | Llywodraeth Cymru | Datblygu 2,800 metr sgwâr o arwynebedd swyddfa ym Mharc Busnes Tredegar | 1.2 | 3.2 |
| | | Parc Busnes Roseheyworth | Cyngor Blaenau Gwent | Adeiladu pedair uned ddiwydiannol ar safle tir llwyd ym Mharc Busnes Roseheyworth yn Abertyleri | 1.5 | 4.8 |
| | | Unedau Ystâd Ddiwydiannol Waun-y-Pond | Cyngor Blaenau Gwent | Paratoi safle ac adeiladu unedau diwydiannol newydd | 0.9 | 2.3 |
| | Seilwaith dysgu | Canolfan Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Cymoedd | Cyngor Blaenau Gwent | Canolfan hyfforddi sy'n canolbwyntio ar fusnes yn Nhredegar gyda'r nod o hybu datblygu gwybodaeth a sgiliau TGCh | 1.4 | 2.9 |
| | Trafnidiaeth | Rheilffordd Cwm Ebwy | Cyngor Blaenau Gwent | Ailagorwyd y rheilffordd cludo nwyddau rhwng prif reilffordd De Cymru a Pharcffordd Glynebwy i wasanaethau i deithwyr. | 7.3 | 25.8 |
| | | Deuoli'r A465 – Tredegar i Dowlais Top | Llywodraeth Cymru | Rhan o raglen buddsoddi ffyrdd Blaenau'r Cymoedd. Fe wnaeth y prosiect hwn wella'r ffordd i safon ffordd ddeuol rhwng Tredegar a Dowlais Top. | 8.2 | 27.9 |
| 2007-13 | Seilwaith Dysgu | Parth Dysgu Blaenau Gwent | Cyngor Blaenau Gwent | Adeiladu adeilad coleg AB/trydyddol yng Nglynebwy | 7.2 | 31.0 |
| | Safleoedd ac eiddo | Canolfan Arloesi Glynebwy Cam 2 | UK Steel | Ehangu Canolfan Arloesi Glyn Ebwy drwy adeiladu 43 o swyddfeydd pellach a 12 gweithdy ar gyfer busnesau bach a chanolig | 1.5 | 3.7 |
| | | Rhyd y Blew (rhan o'r rhaglen Safleoedd Cyflogaeth Strategol) | Llywodraeth Cymru | Buddsoddiad mewn paratoi safle a seilwaith ar gyfer safle Rhyd-y-Blew, rhan o Ardal Fenter Glyn Ebwy | * | * |
| | Trafnidiaeth | Cynllun Deuoli Blaenau'r Cymoedd | Llywodraeth Cymru | Deuoli'r A465 rhwng Tredegar a Brynmawr. | 78.5 | 138.5 |
| | | Prif Lwybr Dosbarthu ar gyfer Gwaith | Cyngor Blaenau Gwent | Gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd presennol i greu llwybr newydd rhwng y Gogledd a'r De drwy Lynebwy. | 3.4 | 8.9 |
| | | Cryfhau Rheilffyrdd y Cymoedd. | Llywodraeth Cymru | Gwelliannau pellach i Reilffordd Cwm Ebwy gan gynnwys agor gorsafoedd newydd yn Pye Corner a Thref Glynebwy | * | * |
| | Digidol | Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru | Llywodraeth Cymru | Prosiect cenedlaethol sy'n darparu mynediad i fand eang cyflym iawn, gan gynnwys 6 phwynt seilwaith mynediad agored ym Mlaenau Gwent | * | * |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymysg | Adfywio Canol Tref Glynebwy | Cyngor Blaenau Gwent | Rhaglen adfywio canol y dref a ariannodd welliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus, gan gynnwys car cebl newydd i gysylltu'r Gweithfeydd â chanol y dref a safle bws/tacsi | 4.5 | 13.2 |

* data gwariant ddim ar gael

**Ffigur 8.1: Lleoliad buddsoddiadau ym Mlaenau Gwent**



### Y Cyd-destun Economaidd a'r Cyd-destun Polisi

8.4 Roedd nifer fawr o'r buddsoddiadau ym Mlaenau Gwent yn ymateb i gau gwaith dur Glyn Ebwy yn 2002. Arferai hon fod yn felin ddur fwyaf yn Ewrop, gan gyflogi 14,500 o bobl ar un adeg. Erbyn diwedd y 1990au roedd hyn wedi gostwng i tua 1,500 ond dyma oedd y cyflogwr mwyaf yng Nglynebwy o hyd ac roedd yn gonglfaen i'r economi a'r gymuned leol. Yn sgil cau'r ffatri gwelwyd cynnydd mawr mewn diweithdra a chollodd y gymuned leol ei hunaniaeth, a gadawodd safle tir llwyd mawr yr oedd angen ei adfer yn sylweddol.

**Ffigur 8.2: Gwaith Dur Glyn Ebwy, yn y 1970au**



© Hawlfraint Ian Taylor a thrwyddwyd i'w ailddefnyddio o dan y Drwydded Creative Commons hon.

8.5 Fframwaith Adfywio'r Pum Sir oedd yr ymateb polisi cychwynnol i gau gweithfeydd dur Glynebwy a Llanwern (Casnewydd). Rhagwelwyd y byddai'r pum awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Casnewydd, Torfaen, Caerffili a Sir Fynwy) yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn sgil cau'r gweithfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal prosiectau adfywio strategol mawr a fyddai'n cael effaith leol a rhanbarthol. Darparodd hyn yr achos strategol dros nifer o'r buddsoddiadau a wnaed yn rhaglen 2000-06[40], gan gynnwys:

- Safleoedd ac eiddo: nododd y strategaeth yr angen am unedau diwydiannol a swyddfeydd bach i fynd i'r afael â phrinder y mathau hyn o eiddo, ac annog mwy o amrywiaeth economaidd drwy dwf BBaChau.


[40] Nid oedd yn bosibl cael gafael ar gopi o'r strategaeth hon felly mae hyn yn seiliedig ar adborth gan ymgyngoreion

- Rheilffordd Cwm Ebwy: roedd ailagor y rheilffordd i wasanaethau teithwyr yn rhan ganolog o'r strategaeth, er mwyn gwella mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau a gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio.

8.6 Ochr yn ochr â hyn, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (CBS BG) wedi dechrau cynllunio dyfodol safle'r hen waith dur ei hun, a sut y gallai hyn sicrhau'r buddion mwyaf i Lynebwy. Cymeradwywyd prif gynllun yn 2007 a oedd yn seiliedig ar amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i greu cymuned wirioneddol gynaliadwy ar y safle. Roedd y rhain yn cynnwys cadw hanes a threftadaeth yr ardal, cynnwys y gymuned wrth ddatblygu'r safle a chreu buddion cyflogaeth a masnachol ehangach i Flaenau Gwent.

8.7 Prif ffocws y strategaeth oedd addysg a hyfforddiant i ddatblygu sgiliau cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn byw yng Nglynebwy, a darparu'r sylfaen ar gyfer ffyniant yn y dyfodol. Ceisiodd hefyd fynd i'r afael â heriau iechyd lleol, a chysylltu Glynebwy yn well ag ardaloedd o ffyniant economaidd yng Nghaerdydd ac ar hyd coridor yr M4 drwy agor gorsaf drenau newydd ar safle'r Gweithfeydd ei hun (Parcffordd Glynebwy). Arweiniodd yr egwyddorion cynaliadwyedd hyn at gymysgedd arfaethedig o ddefnyddiau a oedd yn cynnwys campws dysgu newydd, ysbyty, canolfan hamdden, swyddfeydd newydd a thua 500 o gartrefi.

**Ffigur 8.3: Cynllun defnydd tir ar gyfer Y Gweithfeydd, Glynebwy**




Ffynhonnell: CBS BG (2013a)

8.8 Roedd y cynllun buddsoddi yn ffordd Blaenau'r Cymoedd wedi'i nodi ers tro byd fel blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r A465 yn gyswllt allweddol i drafnidiaeth yng Nghymru ac yn rhan o'r rhwydwaith TEN-T[41]. Mae'n

[41] Rhwydwaith o seilwaith trafnidiaeth strategol gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr a seilwaith dŵr yn yr Undeb Ewropeaidd yw'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd.

llwybr strategol pwysig ar gyfer ardal drefol De Cymru, gan ddarparu cysylltiadau rhwng De a Gorllewin Cymru a Chanolbarth Lloegr a thu hwnt. Mae hefyd yn hanfodol i drefi a chymunedau Cymoedd y De-orllewin (‘Blaenau’r Cymoedd’), yr hen ardaloedd glofaol lle mae crynodiadau o amddifadedd sy’n gysylltiedig yn rhannol ag ymyloldeb a chysylltedd gwael.

8.9 Roedd y ffordd bresennol yn gerbytffordd tair lôn, gyda dwy lôn yn mynd i fyny'r allt ac un ar i lawr. Roedd hyn wedi creu problemau traffig hirsefydlog gan gynnwys tagfeydd ac amseroedd teithio annibynadwy. Cynlluniwyd y prosiect deuoli felly i ddarparu llwybr cyflymach a mwy dibynadwy drwy Dde Cymru, ond hefyd i hwyluso mwy o fuddsoddiad a mwy o waith adfywio yn yr ardaloedd hyn o amddifadedd.

**Sut y cynlluniwyd y buddsoddiadau i ategu mathau eraill o seilwaith?**

8.10 Nid oedd y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau a ariannwyd o dan raglen 2000-06 wedi'u cynllunio i ategu ei gilydd yn uniongyrchol, nac i ategu mathau eraill o seilwaith. Nid oedd y rhan fwyaf o brosiectau wedi'u crynhoi mewn un man ac roeddent yn ymateb i heriau neu flaenoriaethau economaidd penodol, gan gynnwys diffyg cyflenwad o eiddo diwydiannol, yr angen i wella sgiliau digidol a chysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus. Er bod cysylltiad buddiol o bosibl rhwng rhai buddsoddiadau (e.e. gwell argaeledd sgiliau digidol i denantiaid eiddo masnachol) roedd unrhyw gysylltiad yn anuniongyrchol ac nid oedd wedi'i gynllunio'n benodol fel rhan o'r gweithgareddau hyn.

8.11 Yr unig eithriad i hyn yw Canolfan Arloesi Glyn Ebwy (EVIC) a adeiladwyd drws nesaf i Orsaf Parcffordd Glynebwy ar Reilffordd Cwm Ebwy wedi iddi ailagor. Datblygwyd y Ganolfan Arloesi gan UK Steel mewn ymateb i gau’r gwaith dur, ond bu’n gweithio gyda CBS BG i ddatblygu’r cysyniad. Dylanwadwyd yn rhannol ar leoliad y cyfleuster gan ei gysylltiadau ffordd a rheilffordd.

8.12 Roedd prosiectau a ariannwyd yn ystod rhaglen 2007-13 yn canolbwynti'n fwy ar leoliadau penodol ac roeddent yn strategol, ac fe'u cynlluniwyd i ategu mathau eraill o seilwaith. Mae'r prif gysylltiadau fel a ganlyn:

- Cynlluniwyd y Ffordd Ddosbarthu Ymylol i wella mynediad i mewn ac allan o safle adfywio'r Gweithfeydd, gan gynnwys yr ardaloedd cyflogaeth a'r holl gyfleusterau cymunedol newydd. Dywedodd y cynllun busnes y byddai darparu mynediad i hyd at 20 hectar a ddynodwyd ar gyfer datblygiad tai (hyd at 520 o gartrefi) a tua 10,000 metr sgwâr o dir llwyd yn cael ei ailddefnyddio gan fasnach a diwydiant. Ynghyd â statws y Gweithfeydd fel Ardal Fenter, bydd y tir yn denu defnyddwyr busnes newydd ac yn gwella cyfleoedd cyflogaeth i geiswyr gwaith lleol ym Mlaenau Gwent.” (CBS BG, 2013b).
- Cynlluniwyd Ffordd Ddosbarthu Ymylol hefyd i ddarparu cyswllt cyflym ac uniongyrchol i’r A465 (cefnffordd Blaenau’r Cymoedd, a gafodd fuddsoddiad ERDF hefyd), gan wneud y Gweithfeydd yn fwy deniadol i fusnesau a phreswylwyr.
- Bwriadwyd hefyd i fuddsoddiad mewn seilwaith ar safle cyflogaeth Rhyd-y-Blew (sydd wedi’i leoli ychydig i’r de o’r A465) ategu'r buddsoddiad yn ffordd Blaenau’r Cymoedd drwy wneud hyn yn fwy deniadol i ddatblygwyr a darpar fewnfuddsoddwyr ac arwain at greu swyddi.

- Bwriad buddsoddi mewn cyfleusterau AB newydd ochr yn ochr â safleoedd cyflogaeth y Gweithfeydd oedd annog ymgysylltiad rhwng y coleg a busnesau lleol. Dywedodd y cynllun busnes y byddai hyn yn cynorthwyo mentrau hyfforddi a chyflogaeth ac yn annog datblygiad busnes (CBS BG, 2012).
- Bwriad cydleoli'r PDBG ochr yn ochr â'r ysgol uwchradd newydd (Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr) oedd helpu i newid agweddau at ddysgu ymhlith plant. Ar y pryd roedd nifer fawr o blant yn rhoi'r gorau i addysg yn 16 oed felly'r gobaith oedd y byddai'r ddau gyfleuster newydd o'r radd flaenaf yn teimlo'n integredig ac yn gwella pontio o'r ysgol i addysg ôl-16.
- Y gobaith hefyd oedd y byddai lleoliad y coleg ger yr orsaf reilffordd newydd a ariannwyd gan ERDF yn Nhref Glynebwy yn gwneud y coleg yn fwy hygyrch i fyfyrwyr ac yn gwella cysylltiadau â champysau eraill Coleg Gwent.
- Bwriad PDBG ac agor gorsaf reilffordd newydd yn Nhref Glynebwy oedd ategu Rhaglen Adfywio Canol Tref Glynebwy drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref gan gyfrannu at wella'i bywiogrwydd. Ymhlith pethau eraill, ariannodd Rhaglen Adfywio Canol y Dref reilffordd halio newydd sy'n cysylltu'r Gweithfeydd a chanol y dref (gweler Ffigur 8.4Ffigur 8.4).

**Ffigur 8.4: Ffordd Gebl Glynebwy sy'n cysylltu Y Gweithfeydd â chanol tref Glynebwy**




© Hawlfraint Jaggery a thrwyddedwyd i'w ailddefnyddio o dan y Drwydded Creative Commons hon.

### Y seilwaith heddiw

8.13 Mae'r rhan fwyaf o'r seilwaith a ariannwyd drwy ERDF yn dal i gael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd. Yr un eithriad i hyn yw Canolfan Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Cymoedd, a ariannwyd yn ystod rhaglen 2000-06. Yn wreiddiol, cefnogwyd y prosiect gan BT fel partner allweddol mewn diwydiant ac roedd nifer o fusnesau wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyfleuster, ond bu oedi gyda'r broses

ymgeisio ac erbyn iddo gael ei sefydlu, roedd BT wedi tynnu ei gefnogaeth yn ôl. Parhaodd y cyngor i redeg y cyfleuster am gyfnod o amser ond prin oedd y defnydd ohono gan fusnesau a buan iawn y daeth y dechnoleg i ddiwedd ei hoes. Mae'r adeilad bellach yn cael ei ddefnyddio gan y cyngor i ddarparu gwasanaethau eraill.

**Tystiolaeth o ganlyniadau**

Gwell ffordd fynediad i'r Gweithfeydd a'u hadfywio

8.14 Mae tystiolaeth dda bod y Ffordd Ddosbarthu Ymylol wedi gwella mynediad i'r Gweithfeydd ac wedi hwyluso adfywiad yr ardal. Daeth gwerthusiad o'r cynllun i'r casgliad canlynol:

"Construction of the PDR has been fundamental in realising the full benefits of the Ebbw Vale Works Regeneration Strategy. Quite simply, it has enabled optimal functionality of all of the Works developments, such as learning and leisure facilities, community services, businesses and housing, by providing a significantly improved means of access to the Works Regeneration site" (Gleeds, 2015).

8.15 Dylid nodi, fodd bynnag, bod y rhan fwyaf o'r datblygiad hyd yma wedi bod yn gyfleusterau cyhoeddus/cymunedol, gan gynnwys y coleg, ysgol, ysbyty a chanolfan hamdden. Mae darparu tai newydd a gofod masnachol ar y safle wedi bod yn arafach na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.

8.16 Y prif arf polisi ar gyfer annog darparu gofod cyflogaeth newydd oedd Ardal Fenter Glyn Ebwy. Fodd bynnag, araf iawn fu'r cynnydd, a than yn ddiweddar nid oedd buddsoddiad cyhoeddus ar gael i gyflawni'r gwaith ar y safle a'r seilwaith sydd ei angen i gyflwyno safleoedd i'w defnyddio.

8.17 Mae nifer o brosiectau allweddol bellach wedi'u datblygu yn sgil cael cyllid cyhoeddus yn fwy diweddar. Mae'r rhain yn cynnwys y Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol (NDEC), sef canolfan seiberddiogelwch newydd sydd wedi'i datblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, PCYDDS a Thales ac sydd hyd yma wedi creu 20 o swyddi newydd ar safle Y Gweithfeydd.

8.18 Ochr yn ochr â hyn crëwyd:

- naw uned fusnes 'hybrid' newydd mewn tri adeilad sy'n cyfuno gofod diwydiannol ysgafn, swyddfa a warws. Mae'r rhain wedi'u datblygu drwy Gyd-fenter rhwng CBS BG a Llywodraeth Cymru ac wedi'u hariannu'n rhannol gan ERDF (2014-20). Cwblhawyd y rhain ddiwedd 2021 ac mae Thales eisoes wedi meddiannu dau o'r adeiladau.
- 'Hwb Bocs' yn cynnwys unedau bocs, wedi'u gwneud o gynwysyddion llongau wedi'u haddasu sy'n ddeulawr o uchder, ac yn darparu lle i 21 o swyddfeydd. Ariannwyd hyn gan Lywodraeth Cymru a CBSBG a bydd yn cael ei gwblhau yn 2022.

8.19 Amcangyfrifir y bydd y ddau brosiect yn cefnogi tua 100 o swyddi i gyd. Mae cais cynllunio ar gyfer chwe adeilad arall sy'n cynnwys 25 o unedau masnachol newydd hefyd wedi'i gyflwyno i'r Cyngor gan CRT Property Investments (Perez, 2022).

8.20 Hyd yma, nid oes unrhyw dai newydd wedi'u hadeiladu ar y safle, er bod cynlluniau ar gyfer datblygu 56 o gartrefi newydd ar ran o'r safle wedi'u cymeradwyo.

Mwy o ymgysylltu rhwng PDBG a chyflogwyr yn Y Gweithfeydd

8.21 Mae datblygiad cyfyngedig eiddo busnes newydd ar safle Y Gweithfeydd yn golygu mai cyfyngedig fu'r cyfle i gynyddu'r ymgysylltu rhwng y coleg a chyflogwyr hyd yma. Serch hynny, dywedodd ymgyngoreion fod y coleg wedi ymgysylltu â Thales ac arweiniodd hynny at Goleg Gwent yn cynnig cyrsiau seiberddiogelwch yn y Parth Dysgu. Mae CBS BG hefyd yn gweithio gyda Choleg Gwent i annog prosiectau deillio posibl gan fyfyrwyr i gael eu lleoli yn yr Hwb Bocs, sydd wedi'i leoli'n union gerllaw'r PDBG.

Cynyddu atyniad safle Rhyd-y-Blew i ddatblygu a buddsoddi

8.22 Dywedodd yr ymgyngoreion, gan gynnwys asiantau masnachol a’r cyngor, fod buddsoddiad Blaenau’r Cymoedd wedi gwella atyniad safleoedd diwydiannol yn rhan ogleddol Blaenau Gwent ac wedi cynyddu gwerthoedd rhent[42]. Amlygir hyn yn y cyhoeddiad diweddar bod Ciner, gwneuthurwr gwydr o Dwrci, yn bwriadu agor ffatri newydd ar ystâd ddiwydiannol Rasa ger yr A465, a fydd yn creu hyd at 600 o swyddi (Dickins, 2021). Mae TVR, gwneuthurwr ceir cyflym hefyd wedi dewis Ystâd Ddiwydiannol Rasa fel lleoliad ei ffatri newydd yn dilyn buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i adnewyddu hen adeilad 'Techboard'. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru a CBS BG wedi derbyn nifer fawr o ymholiadau, yn enwedig ar gyfer gofod B2 (diwydiannol cyffredinol) hefyd yn dystiolaeth o'r galw mawr (BE Group, 2019). Ni ellir bodloni'r ymholiadau hyn ar hyn o bryd oherwydd nad oes llawer o adeiladau diwydiannol gwag yn y fwrdeistref (1%).

8.23 Er gwaethaf hyn, mae safle Rhyd-y-Blew, a gafodd fuddsoddiad ERDF ar gyfer seilwaith y safle yn ystod rhaglen 2007-13 ac a gafodd ei gynnwys yn yr Ardal Fenter, yn dal heb ei ddatblygu. Llywodraeth Cymru sy’n berchen ar y safle hwn a chyhoeddodd gynlluniau ar gyfer Parc Technoleg Modurol yn 2017. Roedd hyn yn dilyn yr ymgais aflwyddiannus i ddatblygu Cylchffordd Cymru (trac rasio newydd) yng Nglynebwy ar ôl i warant arfaethedig o £210 miliwn wedi’i hariannu gan y trethdalwr gael ei gwrthod gan Lywodraeth Cymru. Er bod cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer datblygiad diwydiannol, nid oes unrhyw waith datblygu wedi cael ei wneud hyd yma.

8.24 Deellir bod datblygiad hapfasnachol o uned ddiwydiannol 50,000 troedfedd sgwâr newydd i fod i ddechrau'n fuan ac y dylai fod ar gael i'r farchnad yn gynnar yn 2022. Mae hyn yn cael ei arwain a’i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn trafod gyda gwneuthurwr mawr arall ynghylch datblygu ei chyfleuster ei hun ar y safle (adroddodd yr ymgyngoreion fod y busnes hwn eisoes wedi’i leoli yn yr ardal, ond byddai’r datblygiad yn ei alluogi i dyfu). Gobaith Llywodraeth Cymru yw y bydd y datblygiadau hyn yn profi bod galw yn y farchnad ac yn gweithredu fel ysgogiad i'r sector preifat ddatblygu gweddill y safle.

[42] Er bod data’r farchnad eiddo gan CoStar yn dangos cynnydd mewn gwerth eiddo sy'n agos at ffyrdd, digwyddodd y rhan fwyaf o’r cynnydd yn 2017 ac nid oedd yn sylweddol uwch na’r cynnydd cyfartalog ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Felly mae'r data'n amhendant.

Gwell dilyniant i addysg ôl-16 a newid agweddau tuag at ddysgu

8.25 Mae'n anodd asesu a yw cydleoli'r ysgol uwchradd ochr yn ochr â PDBG wedi arwain at newid mewn agweddau tuag at ddysgu a gwell dilyniant. Mae’r newid yn yr oedran gadael ysgol yn 2015 yn golygu y byddem yn disgwyl gweld cynnydd yng nghyfran y myfyrwyr sy’n aros mewn addysg amser llawn ôl-16. Fodd bynnag, dywedodd yr ymgyngoreion fod cyfraddau cadw myfyrwyr yn sylweddol uwch nag yr oeddent ar gampws blaenorol Coleg Gwent yng Nglynebwy neu yn unrhyw un o'r pedwar chweched dosbarth blaenorol a phriodolwyd hynny i ansawdd y cyfleusterau. Mae hyn wedi cyd-fynd â chynnydd mewn cyrhaeddiad ar gyfer arholiadau Safon Uwch; yn 2019 roedd gan y Parth Dysgu gyfradd lwyddo gyffredinol o 100% ar gyfer graddau A*-E a chynyddodd y gyfradd lwyddo ar gyfer graddau A*-C o 73.5% yn 2017 i 75.9% yn 2019 (CBS BG, 2019).

8.26 Yn fwy anecdotaidd, dywedodd yr ymgyngoreion fod lefel uchel iawn o integreiddio rhwng y coleg a’r ysgol, i’r pwynt eu bod yn teimlo fel yr un cyfleuster. Mae perthynas waith gref hefyd rhwng yr ysgol a’r coleg sy’n anelu at ysbrydoli a hysbysu plant am eu hopsiynau ar gyfer astudiaethau pellach, sydd wedi gwneud i’r coleg deimlo fel llwybr dilyniant naturiol i lawer o fyfyrwyr.


Gwella hygyrchedd y coleg

8.27 Dywedir bod yr orsaf drenau newydd gerllaw'r PDBG wedi galluogi myfyrwyr i symud yn hawdd rhyngddynt a champws Cross Keys Coleg Gwent. Mae hyn yn galluogi'r coleg i gynnull grwpiau o fyfyrwyr sy'n ddigon mawr i wneud cyrsiau sy'n denu niferoedd bach o fyfyrwyr yn hyfyw e.e. ieithoedd tramor modern neu dechnoleg cerddoriaeth. Mae Coleg Gwent yn darparu cymhorthdal ar gyfer tocynnau trên i fyfyrwyr er mwyn hwyluso trefniadau teithio i fyfyrwyr rhwng y ddau gampws, ond mae'n golygu bod y coleg yn gallu cynnig ystod ehangach o bynciau nag a fyddai'n bosibl fel arall. Dywedir bod y parth dysgu yn denu dysgwyr o rannau o dde Powys ac ardal Cwmbrân, yn rhannol oherwydd ei gysylltiadau trafnidiaeth a’r ddarpariaeth estynedig y mae’n gallu ei chynnig.

Gwelliannau i fywiogrwydd canol y dref

8.28 Ymddengys mai ychydig o effaith a gafodd Rhaglen Adfywio Canol y Dref, a oedd yn cynnwys gwelliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus a rheilffordd halio newydd i'r Gweithfeydd, ar fywiogrwydd canol y dref. Disgrifiodd yr ymgyngoreion rai o’r gwelliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus fel rhai arwynebol a theimlent nad oedd hyn yn gwneud fawr ddim i ddenu pobl yn ôl i ganol y dref. Canfu'r arolwg o breswylwyr hefyd fod 67% o bobl yn anfodlon â bywiogrwydd canol y dref a chredai 74% ei fod wedi gwaethygu yn ystod y deng mlynedd diwethaf, sef yr uchaf o bedair ardal yr astudiaethau achos.

**Ffigur 8.5: A yw eich barn ar fywiogrwydd canol y dref wedi newid yn ystod y deng mlynedd diwethaf?**




Arolwg o Breswylwyr Beaufort Research. Sylfaen: 161 (pawb a roddodd sgôr boddhad ar gyfer bywiogrwydd canol y dref)

8.29 Mae Adolygiad Gwasanaeth o Ffordd Gebl Glyn Ebwy sy'n cysylltu'r Gweithfeydd â chanol y dref yn dangos bod nifer fawr o fyfyrwyr yn defnyddio'r Ffordd Gebl i symud rhwng y ddwy ardal. Canfu arolwg a gynhaliwyd ym mis Mai 2018 fod 2,154 o bobl wedi defnyddio'r lifft dros gyfnod o chwe diwrnod, gyda 74% ohonynt yn defnyddio'r lifft at ddibenion addysg. Canfuwyd bod hyn yn dod â masnach i nifer cyfyngedig o siopau (McDonalds, Greggs a siopau brechdanau) amser cinio ond yn gyffredinol nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r ffaith bod Ffordd Gebl Glynebwy wedi darparu buddion economaidd i Ganol y Dref hyd yma. Rhagwelir bod buddion i fusnesau lleol eto i'w gwireddu (CBS BG, 2018).

8.30 Canfu arolwg o 55 o fusnesau lleol hefyd fod 33 yn credu nad oedd y ffordd gebl o fudd i'w busnes, er bod yr un nifer yn credu bod y cyswllt wedi bod yn dda i Ganol Tref Glynebwy. Er bod busnesau'n teimlo bod y cyswllt yn ased i'r dref, roeddent yn anfodlon ar nifer yr achlysuron nad oedd yn gweithio, a oedd wedi gadael rhai pobl mewn picil. Rhwystredigaeth arall oedd bod y ffordd gebl ond yn weithredol rhwng 7.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac felly nid yw'n cyd-fynd â threnau'n cyrraedd gyda'r nos ac ar benwythnosau masnachu canol y dref.

**Canfyddiadau'r arolwg**

Lefelau boddhad

8.31 Canfu'r arolwg o breswylwyr a busnesau fod lefelau boddhad yn is ym Mlaenau Gwent nag yn ardaloedd yr astudiaethau achos eraill:

- Dywedodd 48% o breswylwyr eu bod yn eithaf bodlon neu'n fodlon iawn, o gymharu â 74% yn Abertawe ac 86% yn Ynys Môn a Bangor.
- Dywedodd 42% o fusnesau ei fod yn lle rhagorol neu dda i wneud busnes, o gymharu â 55% yn Abertawe ac Ynys Môn a Bangor.

8.32 Yn ôl y preswylwyr, y pethau gorau am Flaenau Gwent oedd y bobl (18%) a mynediad i'r amgylchedd naturiol (16%). Y pethau gwaethaf oedd prinder swyddi (19%) a phrinder pethau i'w gwneud (13%).

8.33 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr ym Mlaenau Gwent eu bod yn fodlon ar atyniad yr amgylchfyd cyhoeddus, diogelwch personol, tai, trafnidiaeth gyhoeddus a thelathrebu. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn anfodlon ar yr amrywiaeth o bethau i'w gwneud, argaeledd swyddi, bywiogrwydd canol y dref ac ansawdd ffyrdd.


**Tabl 8.2: Boddhad gyda gwahanol agweddau ar fyw ym Mlaenau Gwent**

| | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Net bodlon | Net anfodlon |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atyniad yr amgylchfyd cyhoeddus | 17% | 41% | 24% | 13% | 5% | 58% | 18% |
| Diogelwch personol | 19% | 39% | 18% | 15% | 8% | 59% | 23% |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 10% | 34% | 22% | 20% | 14% | 44% | 34% |
| Pethau i'w gwneud yn yr ardal | 3% | 13% | 17% | 36% | 31% | 16% | 67% |
| Y cyfleoedd gwaith sydd ar gael | 2% | 13% | 17% | 27% | 41% | 15% | 67% |
| Bywiogrwydd canol y dref | 2% | 15% | 17% | 29% | 38% | 17% | 67% |
| Tai fforddiadwy | 17% | 40% | 23% | 11% | 10% | 57% | 20% |
| Ansawdd ffyrdd | 5% | 16% | 15% | 21% | 42% | 21% | 64% |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 17% | 33% | 17% | 20% | 13% | 50% | 33% |
| Argaeledd parcio | 7% | 30% | 16% | 18% | 29% | 37% | 47% |
| Telathrebu | 25% | 44% | 15% | 10% | 5% | 70% | 15% |

Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr Beaufort Research.
Sylfaen: yr holl ymatebwyr (201) – ni ddangosir yr atebion 'ddim yn gwybod' neu 'gwell gennyf beidio â dweud'

8.34 Dywedodd busnesau mai prif gryfderau Blaenau Gwent yw'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyflymder y rhyngrwyd. Nodwyd y ddau fel materion pwysig iawn ac roedd canran y busnesau a ddywedodd ei fod yn gryfder ym Mlaenau Gwent yn uwch na'r ganran a ddywedodd ei fod yn wendid. Y prif wendidau yw mynediad at lafur crefftus a throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Ffigur 8.6: Pwysigrwydd ffactorau gwahanol o gymharu ag a yw hwn yn gryfder neu'n wendid ym Mlaenau Gwent yn ôl busnesau**




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research
Sylfaen: yr holl ymatebwyr (116). Noder: mae echelin y yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n credu bod y mater yn gryfder ym Mlaenau Gwent namyn y ganran sy'n credu ei fod yn wendid. Os oedd y ffigur hwn yn gadarnhaol (uwchlaw echelin x), mae hyn yn golygu bod cyfran uwch o bobl yn credu ei fod yn gryfder yn hytrach na gwendid.


Newidiadau yn y canfyddiad o'r ardal

8.35 Mae'r arolygon yn dangos bod cyfran uchel o breswylwyr a busnesau yn credu bod Blaenau Gwent wedi gwaethygu dros y deng mlynedd diwethaf.

- Roedd 51% o breswylwyr yn credu bod yr ardal wedi gwaethygu o gymharu â 22% a oedd yn meddwl ei bod wedi gwella
- Roedd 36% o fusnesau yn credu bod yr ardal wedi gwaethygu o gymharu â 26% a oedd yn meddwl ei bod wedi gwella

8.36 O blith y preswylwyr hynny a oedd yn teimlo bod yr ardal wedi gwaethygu, dywedodd 25% mai'r prif reswm am hyn oedd prinder swyddi neu ddiweithdra uchel. Nodwyd hyn yn amlach nag unrhyw reswm arall a dyma hefyd y gyfran uchaf a roddodd y rheswm hwn o blith unrhyw un o bedair ardal yr astudiaethau achos.


**Ffigur 8.7: Newid mewn boddhad â Blaenau Gwent fel lle i fyw neu i weithio**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: 200 (arolwg o breswylwyr); 116 (arolwg o fusnesau)

8.37 Roedd y preswylwyr yn fwy tebygol o ddweud bod pethau wedi gwaethygu nag wedi gwella ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar fyw yn yr ardal. Yr unig agweddau lle roedd cyfran uwch yn credu y bu gwelliant oedd telathrebu. Y prif agweddau yr adroddwyd eu bod wedi gwaethygu oedd bywiogrwydd canol trefi, pethau i'w gwneud, argaeledd swyddi ac ansawdd ffyrdd.

**Ffigur 8.8: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Flaenau Gwent wedi newid? - preswylwyr**





Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr, Beaufort Research

Sylfaen: gweler y rhifau uwchben y colofnau. Roedd hyn yn cynnwys pobl a roddodd sgôr boddhad ar gyfer pob agwedd ac a oedd â barn ynghylch a oedd hyn wedi newid

8.38 Dywedodd 58% o fusnesau fod troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mlaenau Gwent wedi gwaethygu dros y deng mlynedd diwethaf. Dywedodd cyfran uchel hefyd fod mynediad at lafur crefftus a throseddu a chyfleusterau i weithwyr wedi gwaethygu (37% a 40% yn y drefn honno). Y prif agweddau a oedd wedi gwella oedd cysylltiadau trafnidiaeth (a nodwyd gan 45% o fusnesau) a chyflymder y rhyngrwyd (44%).

**Ffigur 8.9: A yw eich barn ar yr agweddau hyn ar Flaenau Gwent wedi newid? - busnesau**




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau, Beaufort Research

Sylfaen: gweler y rhifau uwchben y colofnau. Roedd hyn yn cynnwys busnesau a roddodd sgôr boddhad ar gyfer pob agwedd ac a oedd â barn ynghylch a oedd hyn wedi newid

Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith a'i gyfraniad

8.39 Mae cyfran uchel o breswylwyr Blaenau Gwent wedi sylwi ar welliannau i sawl math gwahanol o seilwaith. Roedd o leiaf hanner y preswylwyr wedi sylwi ar welliannau mewn prif ffyrdd (73%), tai (70%), cyfleusterau colegau AB (69%), gwasanaethau rheilffordd (68%) a gorsafoedd/cyfnewidfeydd (60%). Ar gyfer pedwar o'r mathau hyn o seilwaith, mae'r buddsoddiadau mawr wedi'u hariannu gan ERDF; prif ffyrdd (cynllun deuoli Blaenau'r Cymoedd), cyfleusterau colegau AB (PDBG), gwasanaethau rheilffordd a gorsafoedd/cyfnewidfeydd (ymestyn rheilffordd Cwm Ebwy ac agor gorsaf newydd ym Mharcffordd Glynebwy).


8.40 O blith y rhai a oedd wedi sylwi ar welliannau, credai 40% fod buddsoddiad mewn gwasanaethau rheilffyrdd wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol i'r ardal, gyda 43% yn dweud yr un peth am orsafoedd a chyfnewidfeydd, 45% yn dweud hynny am gyfleusterau coleg a 33% yn nodi prif ffyrdd. Os cynhwysir y rhai a gredai fod buddsoddiadau wedi gwneud “cyfraniad eithaf positif” i'r ardal hefyd, mae hyn yn cynyddu i 86% ar gyfer prif ffyrdd, 80% ar gyfer gorsafoedd a chyfnewidfeydd a 69% ar gyfer band eang.

8.41 Mae hyn yn cynnig tystiolaeth dda bod buddsoddiadau a ariannwyd gan ERDF wedi gwneud cyfraniadau positif i Flaenau Gwent. Fodd bynnag, mae'r gyfran uchel o breswylwyr sy'n credu bod yr ardal wedi gwaethygu yn awgrymu nad yw hyn wedi bod yn ddigon i wrthbwyso materion negyddol eraill, yn enwedig mynediad at swyddi.

8.42 Roedd y gyfran uchel o bobl a oedd yn credu bod buddsoddi mewn gwasanaethau rheilffordd wedi gwella Blaenau Gwent yn gyson ag adborth gan yr ymgyngoreion, a oedd yn credu mai’r buddsoddiad hwn a wnaeth y cyfraniad mwyaf i Lynebwy fel lle i

fyw.  Yn ogystal â gwella cysylltiadau â Chaerdydd adroddwyd bod hyn wedi helpu cydlyniant cymunedol drwy ei gwneud yn haws i bobl symud o fewn y cwm.

**Ffigur 8.10: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Flaenau Gwent - preswylwyr**





Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr Beaufort Research. Sylfaen: % a oedd wedi sylwi ar fuddsoddiad: yr holl ymatebwyr (200); % yn adrodd ar gyfraniad sylweddol i'r ardal: pawb a oedd wedi sylwi ar welliant neu fuddsoddiad mewn gwahanol fathau o seilwaith.

8.43 Y buddsoddiadau amlycaf i fusnesau oedd gwelliannau i brif ffyrdd (a nodwyd gan 61% o fusnesau) ac yna gorsafoedd a chyfnewidfeydd (47%), gwasanaethau rheilffordd (45%) a cholegau AB (46%).

8.44 O blith y rhai a oedd wedi sylwi ar welliannau, credai 37% fod buddsoddiad mewn prif ffyrdd wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol at yr ardal, gyda 43% yn dweud yr un peth am wasanaethau rheilffordd a 37% yn dweud hynny am golegau AB.  Os cynhwysir y rhai a gredai fod buddsoddiadau wedi gwneud “cyfraniad eithaf positif” i'r ardal hefyd, mae hyn yn cynyddu i 78% ar gyfer prif ffyrdd, 85% ar gyfer gorsafoedd a chyfnewidfeydd a 749% ar gyfer colegau AB. Mae hyn yn cynnig tystiolaeth dda bod buddsoddiadau a ariannwyd gan ERDF wedi gwneud cyfraniadau positif i Flaenau Gwent.


**Ffigur 8.11: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Flaenau Gwent - busnesau**




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research Sylfaen: % a oedd wedi sylwi ar fuddsoddiad: yr holl ymatebwyr (116); % yn adrodd ar gyfraniad sylweddol i'r ardal: pawb a oedd wedi sylwi ar welliant neu fuddsoddiad mewn gwahanol fathau o seilwaith.

8.45 O blith y busnesau hynny a gredai fod buddsoddiad mewn seilwaith wedi gwneud cyfraniad positif i'r ardal, dywedodd 35% fod hyn wedi arwain at wella mynediad eu busnes i farchnadoedd. Roedd buddion allweddol eraill i fusnesau yn cynnwys gwell argaeledd eiddo (31%) a gwell cysylltiadau gyda cholegau/prifysgolion (30%).

**Ffigur 8.12: Pa rai o'r canlynol sydd wedi gwella o ganlyniad i fuddsoddiad seilwaith?**




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research Sylfaen: pob busnes a ddywedodd fod o leiaf un buddsoddiad neu welliant wedi arwain at gyfraniad positif i'r ardal (93)

Cynllunio a chydlynu seilwaith

8.46 O blith y rhai a oedd wedi sylwi ar welliannau mewn mwy nag un math o seilwaith, roedd cyfran uchel o breswylwyr a busnesau yn gallu gweld bod y buddsoddiadau yn rhan o gynllun tymor hir ar gyfer yr ardal (48% o breswylwyr a 70% o fusnesau).

8.47 Roedd 47% o fusnesau hefyd yn cytuno bod gwahanol fathau o fuddsoddiadau seilwaith wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr ardal leol. Fodd bynnag, roedd preswylwyr yn fwy tebygol o anghytuno â'r datganiad hwn (37% o gymharu â 33% a oedd yn cytuno).

8.48 Roedd dros 40% o breswylwyr a busnesau'n anghytuno bod y gwaith o gynllunio a darparu mathau gwahanol o seilwaith wedi'i gydlynu'n dda, a oedd yn sylweddol uwch na'r gyfran a oedd yn cytuno.

**Tabl 8.3: Barn ar gynllunio a chydlynu buddsoddiadau seilwaith ac a oeddent yn ategu ei gilydd**

| | Arolwg | Cytuno'n gryf | Tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno'n gryf | Cyfanswm yn cytuno | Anghytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio a darparu mathau gwahanol o fuddsoddiad seilwaith wedi'i gydlynu'n dda | Preswylwyr | 4% | 15% | 28% | 20% | 22% | 19% | 42% |
| | Busnesau | 7% | 15% | 28% | 19% | 22% | 22% | 41% |
| Gallaf weld fod y mathau gwahanol o fuddsoddiad yn rhan o gynllun tymor hir ar gyfer yr ardal | Preswylwyr | 15% | 33% | 17% | 16% | 14% | 48% | 30% |
| | Busnesau | 25% | 45% | 11% | 6% | 13% | 70% | 19% |
| Mae'r mathau gwahanol o fuddsoddiad wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr ardal leol | Preswylwyr | 7% | 26% | 21% | 20% | 17% | 33% | 37% |
| | Busnesau | 11% | 36% | 20% | 14% | 17% | 47% | 31% |

Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: pawb a oedd wedi sylwi ar welliannau mewn mwy nag un math o seilwaith. Preswylwyr: 185; busnesau: 49

## Casgliadau

8.49 Cynlluniwyd nifer fawr o fuddsoddiadau ERDF ym Mlaenau Gwent i ategu mathau eraill o seilwaith. Mae hyn yn arbennig o wir am fuddsoddiadau yn rhaglen 2007-13, yr oedd llawer ohonynt yn rhan o'r strategaeth integredig ar gyfer adfywio Glynebwy ar ôl cau'r gwaith dur, sef cyflogwr mwyaf y dref.

8.50 Mae ERDF wedi gwneud cyfraniad sylweddol at adfywio safle Y Gweithfeydd drwy gydariannu PDBG, y ffordd fynediad newydd a'r cyswllt rheilffordd a'r buddsoddiad diweddar mewn unedau busnes hybrid. Mae hyn wedi gweithio ochr yn ochr â buddsoddiadau cyhoeddus eraill mewn amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys canolfan hamdden, ysbyty ac ysgol newydd i drawsnewid y safle tir llwyd mawr yn ofod cymunedol a ddefnyddir yn aml. Mae rhai enghreifftiau hefyd o sut y mae'r gwahanol fathau o seilwaith wedi ategu ei gilydd yn uniongyrchol e.e. y buddion i'r coleg o gael ei leoli ger yr ysgol a'r orsaf drenau.

8.51 Dengys y dystiolaeth o'r arolwg fod pob un o'r buddsoddiadau mawr a gydariannwyd gan ERDF wedi gwneud cyfraniadau positif i'r ardal (yn enwedig y buddsoddiad yn y coleg newydd, yr orsaf drenau a ffordd Blaenau'r Cymoedd). Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn ddigon i chwalu'r canfyddiadau bod yr ardal wedi gwaethygu. Yn allweddol i hyn mae diffyg cyfleoedd cyflogaeth newydd yn y dref. Gwelwyd gostyngiad o 3000 yng nghyfanswm y swyddi ym Mlaenau Gwent yn yr ugain mlynedd diwethaf ac mae'r dwysedd swyddi (cymhareb swyddi i breswylwyr o oedran gweithio) wedi gostwng o 0.54 i 0.47. Felly, er bod buddsoddiadau seilwaith wedi sicrhau nifer o fuddion creu lleoedd a chymdeithasol, nid ydynt eto wedi hwyluso adfywiad economaidd Blaenau Gwent.

8.52 Fel y dangosir ym Mhennod 4, mae Blaenau Gwent yn wynebu nifer o heriau strwythurol ac wedi dioddef o dwf gwan iawn ers dechrau'r ganrif hon. Un o'r heriau allweddol oedd y ffaith bod y fwrdeistref ar y cyrion a chysylltiadau ffyrdd gwael. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy fuddsoddi yn ffordd Blaenau'r Cymoedd sydd wedi gwneud Blaenau Gwent yn fwy deniadol fel lleoliad buddsoddi. Fodd bynnag, hyd yma mae'r buddsoddiadau a gynlluniwyd i fanteisio ar y cysylltedd hwn (e.e. Rhyd-y-Blew) wedi tanberfformio.

8.53 Bu nifer o ddatblygiadau cadarnhaol yn ddiweddar, gan gynnwys buddsoddiad Thales sy'n cynnig y potensial i ddatblygu'r clwstwr o fusnesau digidol a chreu cyfleoedd swyddi newydd o ansawdd uchel yng Nglynebwy, a'r cynlluniau sydd ar fin digwydd ar gyfer datblygiad diwydiannol newydd yn Rhyd-y-Blew. Mae hyn yn cynnig y potensial ar gyfer creu swyddi ar raddfa fawr, a dylai datblygiad parhaus y safle hwn fod yn flaenoriaeth uchel i CBS BG a Llywodraeth Cymru.

# 9. Astudiaeth Achos Ynys Môn a Bangor

9.1 Mae Ynys Môn a Bangor wedi cael lleiafswm o £48.6 miliwn o fuddsoddiad seilwaith a ariannwyd gan grant ERDF dros gyfnod y ddwy raglen (£93 miliwn gan gynnwys arian cyfatebol). Gwnaethpwyd £35 miliwn o'r buddsoddiad ERDF hwn yn ystod rhaglen 2000-06.

9.2 Mae ERDF wedi ariannu amrywiaeth o wahanol fathau o seilwaith, gan gynnwys:

- £16.2 miliwn mewn seilwaith ymchwil ac arloesi, gan gynnwys Technium newydd (y Ganolfan Uwch Dechnoleg Meddalwedd (CAST) a PONTIO; canolfan y celfyddydau ac arloesi ym Mhrifysgol Bangor.
- £12.5 miliwn mewn safleoedd ac eiddo, gan gynnwys buddsoddiad sylweddol ym Mharc Cybi yng Nghaergybi, Bryn Cefni yn Llangefni a Pharc Bryn Cegin ym Mangor.
- £9.4 miliwn mewn buddsoddiad trafnidiaeth gan gynnwys gwelliannau ym Mhorthladd Caergybi a phont droed newydd (y Porth Celtaidd) sy'n cysylltu'r porthladd â chanol y dref.


9.3 Bu'r prif glystyrau buddsoddi yn yr ardaloedd a ganlyn:

- Caergybi, gan gynnwys y buddsoddiadau yn y porthladd, y Porth Celtaidd a Pharc Cybi
- Bangor, gan gynnwys nifer o fuddsoddiadau ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Menai

**Tabl 9.1: Buddsoddiadau seilwaith a ariannwyd gan yr UE yn Ynys Môn a Bangor**

| Rhaglen | Math o Seilwaith | Teitl y prosiect | Ymgeisydd | Disgrifiad | Gwariant Grant yr UE (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2000-06 | Ymchwil ac Arloesi | Canolfan Uwch Dechnoleg Meddalwedd | Llywodraeth Cymru | Adeilad technium ym Mharc Menai wedi'i dargedu at fusnesau meddalwedd a thechnoleg | 8.5 | 15.8 |
| | Safleoedd ac eiddo | Penrhos/Tŷ Mawr - Rhan 1 | Cyngor Sir Ynys Môn | Cyllid seilwaith ar gyfer safle strategol yn Nhŷ Mawr (a elwir bellach yn Barc Cybi) | 1.5 | 4.1 |
| | | Seilwaith Tŷ Mawr a Datblygu'r Safle | Llywodraeth Cymru | Cyllid seilwaith pellach ar gyfer Parc Cybi | 4.0 | 10.9 |
| | | Unedau Technoleg Parc Menai | Llywodraeth Cymru | Adeiladu dau adeilad wedi'u rhannu'n saith uned fusnes ym Mharc Menai. | 0.7 | 1.9 |
| | | Bryn Cefni Cam 2 - Unedau 8 a 9 | Llywodraeth Cymru | Datblygu dwy uned ffatri ar wahân ar ystâd ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni | 0.8 | 2.0 |
| | | Parc Bryn Cegin | Llywodraeth Cymru | Darparu'r seilwaith oddi ar y safle ac ar y safle sydd ei angen i hwyluso datblygiad 36 hectar o dir ym Mharc Bryn Cegin ym Mangor | 3.4 | 9.0 |
| | Seilwaith dysgu | Canolfan Hyfforddi Gwasanaethau Gofal Plant a Gofal | Coleg Menai | Ariannu canolfan hyfforddi gwasanaethau plant a gofal arbenigol newydd ar gampws Llangefni'r coleg (a elwir bellach yn Ganolfan Ofal) | 0.7 | 1.3 |
| | | Canolfan Datblygu Rheolwyr Gogledd-orllewin Cymru | Prifysgol Bangor | Ariannu Canolfan Datblygu Rheolaeth newydd gyda'r nod o ddiwallu anghenion dysgu a datblygu rheolwyr lefel uwch busnesau a sefydliadau yng Ngogledd-orllewin Cymru. | 6.3 | 12.6 |
| | Trafnidiaeth | Ehangu Porthladd Caergybi | Porthladd Caergybi | Adeiladu ramp mynediad dwy haen newydd a seilwaith ffyrdd ym Mhorthladd Caergybi i ganiatáu defnyddio fferïau Ro-Pax mwy ar y llwybr o Gaergybi i Ddulyn | 3.4 | 12 |
| | | Porth Celtaidd | Cyngor Sir Ynys Môn | Adeiladu pont droed newydd i gysylltu'r porthladd â chanol y dref | 2.1 | 6.0 |
| 2007-13 | Safleoedd ac eiddo | Parc Bryn cegin (rhan o'r Gronfa Seilwaith Safleoedd Cyflogaeth Strategol) | Llywodraeth Cymru | Buddsoddiad mewn gwaith paratoi a seilwaith ar gyfer safle Parc Bryn Cegin | | |
| | | Seilwaith Strategol yn Ynys Môn | Cyngor Sir Ynys Môn | Buddsoddi mewn seilwaith safle ac unedau diwydiannol newydd ym Mryn Cefni, Llangefni | 2.1 | 3.4 |
| | Twristiaeth | Datblygu Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn | Cyngor Sir Ynys Môn | Mynediad wedi'i ariannu a gwelliannau eraill i arfordir Ynys Môn, gan gynnwys llithrfeydd, mannau hamdden a chyfleusterau lansio i helpu pobl i fanteisio ar yr arfordir | 3.5 | 6.9 |
| | Ymchwil ac Arloesi | PONTIO | Prifysgol Bangor | Datblygu canolfan y celfyddydau ac arloesi newydd sy'n darparu theatr, mannau perfformio a chynadledda a chyfleusterau deori | 7.7 | 10.9 |

**Ffigur 9.1: Lleoliad buddsoddiadau seilwaith a ariannwyd gan yr UE yn Ynys Môn a Bangor**



**Dadansoddiad o'r cyd-destun economaidd a'r cyd-destun polisi**

Adfywio Caergybi

9.4 Roedd nifer o fuddsoddiadau a ariannwyd o dan raglen 2000-06 yn ymateb i'r bygythiad o golledion swyddi gan ddau gyflogwr mawr yn Ynys Môn. Roedd ofnau y byddai'r bwriad i gau Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa yn 2010 a'r posibilrwydd o gau'r gwaith cyfagos a weithredir gan Anglesey Aluminium Metal Ltd (AAM) yn sgil hynny, yn cael effaith andwyol a hirdymor ar economi'r ynys. Roedd Wylfa ac AAM Ltd ill dau wedi bod yn sbardunwyr economaidd allweddol i economi Ynys Môn, gan ddarparu ychydig o dan 10% o swyddi a chyfran uwch o enillion lleol.

9.5 Roedd tref Caergybi, yn arbennig, mewn perygl. Roedd cau'r ffati gweithgynhyrchu teganau, Hedstrom, yn 2004 wedi arwain at golli dros 100 o swyddi. Roedd cau Wylfa ac AAM (un o gyflogwyr mwyaf y dref) yn golygu bod perygl mawr o ddiweithdra ar raddfa fawr. Roedd angen dybryd felly am ymyriadau a fyddai'n creu ffynonellau incwm newydd a swyddi ac yn addasu i newid strwythurol.

9.6 Strategaeth adfywio deng mlynedd oedd Caergybi Ymlaen, a lansiwyd yn 2003. Nod hyn oedd adfywio economi'r dref, creu swyddi newydd a mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol. Nodwyd twristiaeth a hamdden fel cyfleoedd economaidd mawr, gan fanteisio ar yr harbwr mawr cysgodol, y promenâd a'r glannau a'r amgylchedd arfordirol deniadol.

9.7 Ffocws allweddol y strategaeth oedd cynhyrchu mwy o fuddion economaidd o Borthladd Caergybi, sy'n borth mawr rhwng y DU ac Iwerddon ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy wella mynediad rhwng y porthladd a chanol y dref drwy adeiladu pont droed newydd y Porth Celtaidd a fyddai'n annog teithwyr fferi i gerdded i'r siopau.

9.8 Roedd y strategaeth hefyd yn anelu at fanteisio ar gysylltedd ffordd Caergybi a oedd wedi'i gwella'n ddiweddar yn sgil cwblhau rhan olaf yr A55 rhwng ffordd osgoi Llanfairpwll a Chaergybi. Un o'r prosiectau a fyddai'n elwa oedd safle cyflogaeth strategol Parc Cybi ar Gyffordd 2 yr A55, a oedd yn cynnig y potensial i ddenu gweithgaredd gweithgynhyrchu, dosbarthu a warws yn gysylltiedig â'r porthladd.

Blaenoriaethau eraill

9.9 Nid oedd buddsoddiadau eraill yng nghlwstwr Ynys Môn a Bangor yn rhan o strategaethau adfywio'n seiliedig ar le a'u bwriad oedd mynd i'r afael ag ystod o wahanol flaenoriaethau datblygu economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- **Annog arloesi**: Roedd CAST ym Mangor yn rhan o raglen Technium, menter gan Lywodraeth Cymru. Llywiwyd hyn gan y strategaeth genedlaethol Cymru'n Ennill (Llywodraeth Cymru, 2002) a nododd angen i hybu nifer y cyfleusterau deori yng Nghymru. Roedd PONTIO (a ariannwyd yn ystod rhaglen 2007-13) hefyd yn ceisio annog arloesi ond roedd hefyd yn ymateb i'r angen am gyfleusterau sy'n gwella diwylliant Cymru ac yn denu/cadw pobl ifanc.
- **Gwella mynediad i safleoedd ac eiddo**: cynlluniwyd buddsoddiadau mewn safleoedd ac eiddo (gan gynnwys ystâd ddiwydiannol Bryn Cefni a Pharc Bryn Cegin) i fynd i'r afael â methiant y farchnad sy'n atal darparu mannau newydd

ar gyfer cyflogaeth. Mae hon yn her hirsefydlog yng Ngorllewin Cymru ac fe'i hamlygir mewn nifer o strategaethau a dogfennau tystiolaeth cenedlaethol a lleol (e.e. Cynllun Datblygu Safleoedd ac Eiddo Cyflogaeth Ynys Môn 2007).

**Sut y cynlluniwyd y buddsoddiadau i ategu mathau eraill o seilwaith?**

9.10 Roedd nifer o fuddsoddiadau'r rhaglen 2000-06 wedi'u cynllunio i ategu ei gilydd neu i ategu mathau eraill o seilwaith. Mae'r cysylltiadau ategol hyn i'w gweld fwyaf amlwg ar gyfer buddsoddiadau yn nhref Caergybi:

- Bwriad pont droed y Porth Celtaidd oedd ategu'r buddsoddiad a ariannwyd gan ERDF ym Mhorthladd Caergybi, a fyddai'n cynyddu capasiti ar gyfer teithwyr a cherbydau, drwy annog mwy o'r teithwyr hyn i ymweld â chanol y dref.
- Cynlluniwyd y ddau fuddsoddiad hefyd i ategu buddsoddiadau eraill mewn seilwaith ffyrdd, megis ymestyn yr A55 i Gaergybi (a ariannwyd drwy fenter cyllid preifat). Roedd y buddsoddiad mewn ffyrdd wedi cwtogi'n sylweddol ar amseroedd teithio ar gyfer cludo nwyddau/teithwyr. Cynlluniwyd buddsoddiad ERDF yn y porthladd i wella'r ffordd rhwng y porthladd a'r A55, a fyddai'n lleihau amseroedd teithio ymhellach ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r porthladd ac yn ymweld â Chaergybi.
- Bwriad y buddsoddiadau hyn oedd gweithio ochr yn ochr â gwelliannau eraill yng nghanol y dref gyda'r nod o gynyddu nifer yr ymwelwyr a bywiogrwydd canol y dref. Roedd hyn yn cynnwys Menter Treftadaeth Treflun Caergybi a ariannwyd gan y loteri, a ariannodd raglen adnewyddu ffisegol yng nghanol y dref.
- Bwriadwyd i'r buddsoddiad yn safle Parc Cybi ategu gwaith gwella'r A55 a'r capasiti cynyddol yn y porthladd drwy ddenu buddsoddiad o ddefnydd yn gysylltiedig â'r porthladd (e.e. storio a dosbarthu).

**Ffigur 9.2: Pont y Porth Celtaidd yng Nghaergybi**



© Hawlfraint Terry Robinson a thrwyddedwyd i'w ailddefnyddio o dan y Drwydded Creative Commons hon.

9.11 Mae'n llai amlwg sut y bwriadwyd i fuddsoddiadau seilwaith eraill a ariannwyd gan yr UE ategu ei gilydd a buddsoddiadau seilwaith eraill. Mae'n debygol mai nod buddsoddi mewn eiddo busnes newydd ym Mharc Menai oedd ategu Technium CAST drwy ddarparu gofod i fusnesau sy'n tyfu ac sy'n symud allan o'r cyfleusterau deori (roedd y Technium wedi'i leoli ym Mharc Menai ac mae disgrifiad o'r prosiect yn nodi y byddai'r eiddo yn cael ei dargedu at fusnesau meddalwedd a thechnoleg sy'n gyson â ffocws sector CAST). Fodd bynnag, ni allai'r ymgyngoreion nac adolygiad o ddogfennau'r prosiect gadarnhau hyn (nid oedd cynlluniau busnes a gwerthusiadau ar gael ar gyfer prosiectau 2000-06).

9.12 Mae'n bosibl hefyd y bu cysylltiadau sy'n ategu ei gilydd yn anuniongyrchol rhwng buddsoddiadau. Er enghraifft, gallai Canolfan Datblygu Rheolaeth Gogledd Orllewin Cymru fod wedi gwella mynediad at sgiliau rheoli ac arwain i fusnesau sy'n meddiannu safleoedd ac eiddo. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod buddsoddiadau wedi'u cynllunio'n benodol i ategu ei gilydd yn y modd hwn.

### Y seilwaith heddiw

9.13 Mae'r rhan fwyaf o'r seilwaith a ariannwyd gan ERDF yn dal i gael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd. Yr un eithriad i hyn yw Technium CAST. Tŷ Menai yw'r enw ar y ganolfan hon bellach ac mae'n rhan o barc busnes Parc Menai. Mae'n cynnig gofod busnes cyffredinol a chyfleusterau cynadledda, ond mae CAST yn parhau i fod wedi'i leoli yn y cyfleuster. Defnyddir y cyfleuster gan ystod o wahanol sectorau, gan gynnwys nifer bach o fusnesau digidol. Er bod y deunydd marchnata yn dal i gyfeirio at ystafelloedd deori, unedau swyddfa bach sydd ar gael ar delerau hyblyg yw'r rhain

mewn gwirionedd.  Fodd bynnag, nid oes cymorth busnes ar y safle i fusnesau digidol.

**Tystiolaeth o ganlyniadau**

Adfywio Caergybi

9.14 Mae tystiolaeth bod y buddsoddiad yn yr A55 a'r cynnydd yng nghapasiti Porthladd Caergybi wedi arwain at gynnydd yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r porthladd i deithio rhwng Cymru ac Iwerddon. Cwblhawyd y buddsoddiad yn y porthladd erbyn 2005, a defnyddiodd Stena y llongau fferi newydd o 2007 ymlaen.  Ffigur 9.3

9.15 Nid oes unrhyw ddata ar nifer y teithwyr fferi sy'n ymweld â chanol y dref, ond dywedodd yr ymgyngoreion mai dim ond lleiafrif bach o'r 2 filiwn o deithwyr blynyddol sy'n defnyddio'r porthladd sy'n gwneud hynny. Nododd adroddiad yn 2014 fod Cyngor Ynys Môn yn amcangyfrif bod tua 5,000 o deithwyr a chriw wedi dewis ymlacio yng Nghaergybi a'r cyffiniau er nad yw'n glir sut y mae hyn wedi'i amcangyfrif na thros ba gyfnod o amser (BBC, 2014).

**Ffigur 9.3: Niferoedd y teithwyr blynyddol rhwng Caergybi a Dulyn, 1998-2020**




Ffynhonnell: Stats Cymru

9.16 Nid oes llawer o dystiolaeth bod unrhyw gynnydd mewn ymwelwyr wedi mynd law yn llaw â buddsoddiadau eraill i wella bywiogrwydd canol y dref neu i greu effaith economaidd amlwg ar y dref.

9.17 Mae nifer y swyddi i gyflogeion yng nghanol y dref wedi gostwng o 700 yn 2003 i 600 yn 2020[43].  Yng Nghaergybi yn gyffredinol[44], mae nifer y cyflogeion wedi aros yn ddigyfnewid, sef 4,000 o swyddi. O ystyried bod 500 o swyddi wedi'u colli yn AAM Ltd gellir dadlau bod hyn yn berfformiad cryf.  Fodd bynnag, mae dadansoddiad manylach yn datgelu bod y rhan fwyaf o'r twf wedi bod mewn gwasanaethau

---

[43] Mae hyn yn seiliedig ar un LSOA sy'n cwmpasu canol y dref (W01000016) ac mae'n defnyddio dwy ffynhonnell ddata wahanol (ABI a BRES) sydd wedi cael eu dirwyn i ben bellach.

[44] Yn ogystal â'r LSOA uchod mae hyn hefyd yn cynnwys W010000-17, 29, 30, 33, 34, 36, 37 a 40

cyhoeddus (iechyd a gofal a gweinyddiaeth gyhoeddus) a greodd 300 o swyddi, ac yn y sector manwerthu ond y tu allan i ganol y dref. Felly ni ellir priodoli hyn i'r buddsoddiadau seilwaith.

9.18 Nid oes data cyfredol a dibynadwy ar y siopau gwag yng Nghaergybi, sy'n gwneud unrhyw ddadansoddiad o fywiogrwydd canol y dref yn anodd. Canfu Astudiaeth Manwerthu Ynys Môn a Gwynedd 2012 (Cynllunio Cymhwysol, 2012) fod 40% o unedau canol y dref yn wag ac mewn adroddiadau newyddion ar y pryd dywedwyd mai'r dref sydd â'r gyfradd siopau gwag yn uchaf yn y DU (BBC, 2013). Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod hyn wedi gostwng i lai nag 20% erbyn 2013 o ganlyniad i Fenter Siopau Gwag Caergybi (Adfywio Cymru, 2013).

9.19 Mae'r arolwg o breswylwyr hefyd yn dangos lefelau uchel o anfodlonrwydd gyda bywiogrwydd canol trefi yn Ynys Môn a Bangor (51% o'r ymatebwyr, o gymharu â 27% a oedd yn fodlon), ond dylid nodi bod hyn yn cwmpasu ardal lawer ehangach na Chaergybi.

9.20 Mae'n bwysig nodi bod canol tref Caergybi wedi wynebu heriau sylweddol oherwydd newidiadau ym mhatrymau siopa ond hefyd mwy o gystadleuaeth gan ganolfannau siopa y tu allan i'r dref. Daeth Astudiaeth Manwerthu 2012 i'r casgliad: "Caergybi yw'r mwyaf heriol o holl ganolfannau ardal yr Astudiaeth. Ar hyn o bryd mae gorgyflenwad sylweddol o arwynebedd llawr tu hwnt i'r hyn y gall y farchnad ei gynnal, yn bennaf oherwydd y swm a'r math o arwynebedd llawr sydd wedi cael ei ddatblygu ym Mhenrhos[45]" (Applied Planning, 2012). Mae adroddiadau hefyd yn nodi bod cau siopau Woolworths ac Ethel Austin yn dilyn methiant cenedlaethol y cadwyni hyn wedi gwaethygu'r heriau sy'n wynebu canol y dref gan fod hyn wedi arwain at ostyngiad pellach yn nifer yr ymwelwyr (Adfywio Cymru, 2013).

9.21 Yn y cyd-destun hwn mae'n bosibl bod cynnydd yng ngwariant ymwelwyr sy'n deithwyr fferi wedi lliniaru'n rhannol y golled mewn incwm a gwariant o ffynonellau eraill, fodd bynnag mae'n anodd iawn profi hyn gydag unrhyw hyder.

9.22 Mae Parc Cybi hefyd wedi tanberfformio hyd yma ac wedi methu â denu mewnfuddsoddiad yn unol â'r bwriad. Er y cafwyd cynigion i ddatblygu warws ers dechrau'r ganrif hon, yr unig ddatblygiad hyd yma yw gwesty a chyfleuster yrwyr lorïau ar eu ffordd i Borthladd Caergybi gael egwyl. Mae'r safle bellach wedi'i brynu gan Lywodraeth y DU ac mae cynlluniau ar gyfer Cyfleuster Ffiniau Mewndirol newydd, y disgwylir iddo greu tua 200 o swyddi pan fydd yn weithredol.

**Canfyddiadau'r arolwg**

Lefelau boddhad

9.23 Canfu'r arolygon lefelau uchel iawn o foddhad ag Ynys Môn a Bangor fel lleoedd i fyw a lefelau boddhad gweddol uchel ymhlith busnesau:

- Dywedodd 86% o breswylwyr eu bod yn fodlon a 63% eu bod yn fodlon iawn, sy'n sylweddol uwch nag unrhyw un o'r ardaloedd eraill.
- Dywedodd 55% o fusnesau ei fod yn lle rhagorol neu dda i wneud busnes. Roedd hyn yn gydradd uchaf gydag Abertawe.

[45] Parc Manwerthu Penrhos

9.24 Yn ôl y preswylwyr, ymysg y pethau gorau am Ynys Môn a Bangor mae mynediad i'r amgylchedd naturiol (40% o'r ymatebwyr), y golygfeydd prydferth (21%) ac amgylchedd tawel neu heddychlon (21%).

9.25 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr yn Ynys Môn a Bangor eu bod yn fodlon ar atyniad yr amgylchfyd cyhoeddus, diogelwch personol, tai, trafnidiaeth gyhoeddus a thelathrebu. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn anfodlon ag argaeledd swyddi, bywiogrwydd canol y dref a thai fforddiadwy.

**Tabl 9.2: Boddhad gyda gwahanol agweddau ar fyw yn Ynys Môn a Bangor**


| | Sylfaen | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | Eithaf anfodlon | Anfodlon iawn | Net bodlon | Net anfodlon |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atyniad yr amgylchfyd cyhoeddus | 202 | 37% | 37% | 14% | 7% | 4% | 75% | 11% |
| Diogelwch personol | 202 | 53% | 32% | 12% | 3% | 0% | 85% | 3% |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 192 | 20% | 35% | 19% | 16% | 10% | 55% | 26% |
| Pethau i'w gwneud yn yr ardal | 204 | 14% | 29% | 28% | 19% | 10% | 43% | 29% |
| Y cyfleoedd gwaith sydd ar gael | 173 | 5% | 14% | 16% | 33% | 32% | 19% | 65% |
| Bywiogrwydd canol y dref | 196 | 8% | 19% | 22% | 23% | 28% | 27% | 51% |
| Tai fforddiadwy | 175 | 5% | 22% | 21% | 28% | 24% | 27% | 52% |
| Ansawdd ffyrdd | 202 | 11% | 38% | 21% | 15% | 14% | 49% | 29% |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 177 | 21% | 25% | 25% | 17% | 11% | 46% | 29% |
| Argaeledd parcio | 194 | 21% | 36% | 19% | 19% | 5% | 57% | 24% |
| Telathrebu | 200 | 30% | 35% | 16% | 10% | 9% | 64% | 19% |

Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr, Beaufort Research

Sylfaen: nid yw'r nifer a ddangosir yn cynnwys pobl a atebodd 'ddim yn gwybod' neu 'mae'n well gen i beidio â dweud'

9.26 Dywedodd busnesau mai prif gryfderau Ynys Môn a Bangor yw'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyflymder y rhyngrwyd. Nodwyd y ddau fel materion pwysig iawn lle roedd canran y busnesau a ddywedodd ei fod yn gryfder yn Ynys Môn a Bangor yn uwch na'r ganran a ddywedodd ei fod yn wendid. Y prif wendidau yw mynediad at lafur crefftus a throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Ffigur 9.4: Pwysigrwydd ffactorau gwahanol o gymharu ag a yw hwn yn gryfder neu'n wendid yn Ynys Môn a Bangor yn ôl busnesau**




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research
Sylfaen: yr holl ymatebwyr (210). Noder: mae echelin y yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n credu bod y mater yn gryfder yn Ynys Môn a Bangor namyn y ganran sy'n credu ei fod yn wendid. Os oedd y ffigur hwn yn gadarnhaol (uwchlaw echelin x), mae hyn yn golygu bod cyfran uwch o bobl yn credu ei fod yn gryfder yn hytrach na gwendid.


Newidiadau yn y canfyddiad o'r ardal

9.27 Mae'r arolygon yn dangos bod gwahaniaeth barn ynghylch a yw Ynys Môn a Bangor wedi gwella neu waethygu:

- Dywedodd 34% o breswylwyr fod eu canfyddiad o'r ardal wedi gwella o gymharu â 31% a ddywedodd ei fod wedi gwaethygu. Dywedodd 35% nad oedd eu canfyddiadau wedi newid.
- Roedd 41% o fusnesau yn meddwl bod yr ardal wedi gwella a oedd ychydig yn uwch na'r ganran a oedd yn meddwl ei fod wedi gwaethygu (34%).

9.28 O blith y preswylwyr hynny yr oedd eu canfyddiadau wedi gwella, dywedodd 19% nad oedd hyn oherwydd newid yn yr ardal ond oherwydd eu bod yn ei gwerthfawrogi'n fwy wrth iddynt fynd yn hŷn. Roedd hyn yn uwch nag unrhyw ffactor arall. O blith y rhai yr oedd eu canfyddiadau wedi gwaethygu, dywedodd 47% fod hyn oherwydd diffyg swyddi neu ddiweithdra. Nodwyd hyn yn amlach nag unrhyw reswm arall a dyma hefyd y gyfran uchaf a roddodd y rheswm hwn o blith unrhyw un o bedair ardal yr astudiaethau achos.


**Ffigur 9.5: Newid mewn boddhad gydag Ynys Môn a Bangor**




Ffynhonnell: Beaufort Research. Sylfaen: 204 (arolwg o breswylwyr); 210 (arolwg o fusnesau)

9.29 Dywedodd dros 60% o breswylwyr fod argaeledd swyddi, bywiogrwydd canol y dref a thai fforddiadwy wedi gwaethygu. Yr un maes lle y credai cyfran uchel o bobl y bu gwelliant oedd telathrebu (51%).

**Ffigur 9.6: A yw'r agweddau hyn ar Ynys Môn a Bangor wedi gwaethygu neu wella yn ystod y deng mlynedd diwethaf? - preswylwyr**




Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr, Beaufort Research


Sylfaen: gweler y rhifau uwchben y colofnau. Roedd hyn yn cynnwys pobl a roddodd sgôr boddhad ar gyfer pob agwedd ac a oedd â barn ynghylch a oedd hyn wedi newid

9.30 Adroddodd y mwyafrif o fusnesau fod y rhan fwyaf o agweddau ar Ynys Môn a Bangor wedi aros yr un fath yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Yr unig eithriad i hyn oedd cyflymder y rhyngrwyd, lle y nododd 52% o fusnesau welliant.

9.31 Credai tua 30% o fusnesau fod mynediad at grefftwyr, cost/argaeledd eiddo busnes, trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a pharcio wedi gwaethygu, a oedd yn uwch na'r gyfran a gredai ei fod wedi gwella.

9.32 Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd rhwng 27 a 33 y cant o fusnesau'n credu bod cyfleusterau i weithwyr, cysylltiadau â cholegau neu brifysgolion ac ansawdd yr amgylchedd lleol wedi gwella, a oedd yn uwch na'r gyfran a gredai fod y rhain wedi gwaethygu.

**Ffigur 9.7: A yw'r agweddau hyn ar Ynys Môn a Bangor wedi gwaethygu neu wella yn ystod y deng mlynedd diwethaf? - busnesau**




Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith a'i gyfraniad


9.33 Roedd y canfyddiad o fuddsoddiadau mewn seilwaith yn gyffredinol is yn Ynys Môn a Bangor nag mewn nifer o ardaloedd astudiaethau achos eraill. Y gwelliannau mwyaf amlwg oedd tai (63%), band eang (58%) a llwybrau cerdded/beicio. O blith y rhain dim ond band eang a gafodd fuddsoddiad ERDF yn ystod rhaglen 2007-13[46].

9.34 Serch hynny, roedd 51% o fusnesau wedi sylwi ar fuddsoddiad mewn ystadau diwydiannol, a 43% wedi sylwi ar fuddsoddiad mewn cyfleusterau AU/ymchwil, ill dau wedi'u hariannu yn ystod rhaglen 2007-13.

[46] Mae'n bosibl bod prosiect Twristiaeth Arfordirol Ynys Môn wedi gwella llwybrau troed a llwybrau beicio, fodd bynnag mae'n anodd cadarnhau maint hyn o'r dystiolaeth sydd ar gael.

9.35 O blith y rhai a oedd wedi sylwi ar welliannau, credai 37% fod buddsoddiad mewn cyfleusterau AU/ymchwil wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol i'r ardal, gyda dim ond 22% yn dweud yr un peth am ystadau diwydiannol. Os cynhwysir y rhai a gredai fod buddsoddiadau wedi gwneud “cyfraniad eithaf positif” i'r ardal hefyd, mae hyn yn cynyddu i 78% ar gyfer cyfleusterau AU/ymchwil ac 81% ar gyfer band eang.

**Ffigur 9.8: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Ynys Môn a Bangor - preswylwyr**





Ffynhonnell: Arolwg o Breswylwyr Beaufort Research. Sylfaen: % a oedd wedi sylwi ar fuddsoddiad: yr holl ymatebwyr (203); % yn adrodd ar gyfraniad sylweddol i’r ardal: pawb a oedd wedi sylwi ar welliant neu fuddsoddiad mewn gwahanol fathau o seilwaith.

9.36 Ymhlith busnesau, y buddsoddiadau a’r gwelliannau mwyaf amlwg oedd band eang, swyddfeydd/parciau busnes ac ystadau diwydiannol (50% o’r ymatebwyr). O blith y rhain, roedd 45% yn credu bod band eang wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol i'r ardal o gymharu â llai nag 20% ar gyfer parciau busnes ac ystadau diwydiannol. Roedd cyfran is wedi sylwi ar fuddsoddiad neu welliant mewn cyfleusterau AU/ymchwil (33%). O blith y rhai a oedd wedi gwneud hynny, roedd 44% yn credu bod hyn wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol.

9.37 Os cynhwysir y rhai a gredai fod y buddsoddiadau hyn wedi gwneud peth cyfraniad positif, bydd hyn yn cynyddu i 87% ar gyfer band eang, 71% ar gyfer swyddfeydd/parciau busnes, 63% ar gyfer ystadau diwydiannol ac 84% ar gyfer cyfleusterau AU/ymchwil.

**Ffigur 9.9: Canfyddiadau o fuddsoddiad mewn seilwaith o gymharu â'r cyfraniad i Ynys Môn a Bangor - busnesau**





Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research Sylfaen: % a oedd wedi sylwi ar fuddsoddiad: yr holl ymatebwyr (203); % yn adrodd ar gyfraniad sylweddol i'r ardal: pawb a oedd wedi sylwi ar welliant neu fuddsoddiad mewn gwahanol fathau o seilwaith.

9.38 O blith y busnesau hynny a gredai fod buddsoddiad mewn seilwaith wedi gwneud cyfraniad positif i'r ardal, dywedodd 58% fod hyn wedi arwain at gynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr a'r gwariant gan ymwelwyr. Er bod un buddsoddiad gan yr UE yn ystod y deng mlynedd diwethaf a oedd yn anelu at gynyddu gwariant ymwelwyr (prosiect Twristiaeth Arfordirol) nid yw'n bosibl priodoli'r canlyniad hwn i'r prosiect gydag unrhyw hyder.

9.39 Ymhlith y buddion allweddol eraill i fusnesau roedd argaeledd safleoedd busnes (37%). Ers i ymgyngoreion adrodd bod y rhan fwyaf o ddatblygu eiddo busnes newydd wedi bod yn dibynnu ar arian grant yr UE[47], gallwn fod yn fwy hyderus y gellir priodoli hyn i fuddsoddiadau ERDF.

[47] Bu datblygiadau pellach o ran eiddo a ariannwyd gan raglen 2014-20, gan gynnwys nifer o unedau diwydiannol newydd ym Mryn Cefni.

**Ffigur 9.10: Pa rai o'r canlynol sydd wedi gwella o ganlyniad i fuddsoddiad seilwaith?**




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Beaufort Research Sylfaen: pob busnes a ddywedodd fod o leiaf un buddsoddiad neu welliant wedi arwain at gyfraniad positif i'r ardal (171)

Cynllunio a chydlynu seilwaith

9.40 O blith y rhai a oedd wedi sylwi ar welliannau mewn mwy nag un math o seilwaith, roedd cyfran uchel o breswylwyr a busnesau yn gallu gweld bod y buddsoddiadau yn rhan o gynllun tymor hir ar gyfer yr ardal (46% o breswylwyr a 49% o fusnesau).

9.41 Roedd 40% o fusnesau hefyd yn cytuno bod gwahanol fathau o fuddsoddiadau seilwaith wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr ardal leol.

9.42 Fodd bynnag, roedd dros 30% o breswylwyr a busnesau'n anghytuno bod cynllunio a darparu gwahanol fathau o seilwaith wedi'u cydlynu'n dda, a oedd yn uwch na'r gyfran a oedd yn cytuno.

**Tabl 9.3: Barn ar gynllunio a chydlynu buddsoddiadau seilwaith ac a oeddent yn ategu ei gilydd**

| | Arolwg | Cytuno'n gryf | Tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno'n gryf | Cyfanswm yn cytuno | Anghytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio a darparu mathau gwahanol o fuddsoddiad seilwaith wedi'i gydlynu'n dda | Preswylwyr | 7% | 16% | 32% | 19% | 11% | 23% | 30% |
| | Busnesau | 7% | 22% | 29% | 15% | 20% | 29% | 35% |
| Gallaf weld fod y mathau gwahanol o fuddsoddiad yn rhan o gynllun tymor hir ar gyfer yr ardal | Preswylwyr | 16% | 30% | 20% | 14% | 16% | 46% | 30% |
| | Busnesau | 13% | 36% | 19% | 16% | 12% | 49% | 28% |
| Mae’r mathau gwahanol o fuddsoddiad wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr ardal leol | Preswylwyr | 7% | 34% | 26% | 15% | 10% | 41% | 25% |
| | Busnesau | 10% | 32% | 22% | 11% | 19% | 42% | 30% |

### Casgliadau

9.43 Mae’r astudiaeth achos hon wedi canfod llai o dystiolaeth na’r astudiaethau achos eraill bod buddsoddiadau a ariannwyd gan yr UE wedi gweithio gyda’i gilydd (ac ochr yn ochr â buddsoddiadau seilwaith eraill) i gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol i’r ardal leol a’i heconomi. Mae hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad llawer is o gymharu ag ardaloedd eraill, a'r ffaith bod buddsoddiadau wedi'u gwasgaru'n ehangach ac (ac eithrio Caergybi) nad oeddent yn rhan o strategaeth integredig sy'n seiliedig ar le.

9.44 Arweiniwyd y buddsoddiadau yng Nghaergybi gan amcan cyffredin i gynyddu gwerth y porthladd i'r eithaf drwy gynyddu nifer yr ymweliadau â'r dref a’r gwariant ynddi a denu mwy o fuddsoddiad sy'n gysylltiedig â’r porthladd i Barc Cybi, ac wrth wneud hynny creu swyddi newydd yn y dref. Prin yw’r dystiolaeth fod hyn wedi bod yn llwyddiannus hyd yma, ond dylai’r buddsoddiad arfaethedig mewn Cyfleuster Ffiniau Mewndirol newydd greu hyd at 200 o swyddi ym Mharc Cybi.

9.45 Fodd bynnag, mae angen edrych ar hyn yng nghyd-destun:

- yr heriau sylweddol a wynebwyd gan ganol tref Caergybi dros yr ugain mlynedd diwethaf (gan gynnwys prif gadwyni siopa cenedlaethol yn cau a chystadleuaeth gan barciau manwerthu y tu allan i’r dref) sydd wedi tanseilio bywiogrwydd y dref ac wedi’i gwneud yn anoddach denu ymwelwyr
- maint cymharol fach y buddsoddiad i fynd i’r afael â hyn, o ran ERDF a chyllid cyhoeddus arall ar gyfer adfywio canol trefi.

9.46 Mae tystiolaeth yr arolwg yn anos ei dehongli ac yn ymwneud â buddsoddiadau ERDF yn achos Ynys Môn. Mae hyn oherwydd bod cyfran fawr o fuddsoddiadau a ariannwyd gan ERDF wedi cael eu gwneud fel rhan o raglen 2000-06 ac felly nid ydynt wedi dylanwadu ar y canfyddiadau o'r ardal dros y deng mlynedd diwethaf. Serch hynny, mae rhywfaint o dystiolaeth bod buddsoddiadau ERDF mewn safleoedd ac eiddo ac mewn cyfleusterau AU/ymchwil wedi arwain at rai buddion i fusnesau.

## 10. Casgliadau

10.1 Nod y gwerthusiad hwn oedd asesu a yw'r seilwaith newydd a'r gwelliannau i seilwaith a ariannwyd gan ERDF wedi gweithio gyda'i gilydd er budd rhanbarthau, o ran yr economi leol, y preswylwyr a busnesau (gan ymateb i'r ail nod werthuso); Mae'r casgliadau wedi'u strwythuro o amgylch y cwestiynau ymchwil allweddol.

A ddyluniwyd y seilwaith i'w ddefnyddio mewn ffordd sy'n ategu mathau eraill o seilwaith ac a yw hyn wedi digwydd yn ymarferol?

10.2 Canfu'r astudiaeth fod cyfran fawr o'r buddsoddiad yn ardaloedd yr astudiaethau achos wedi'i gynllunio i ategu seilwaith arall. Mae'r cysylltiadau hyn ar eu mwyaf amlwg lle mae cyllid ERDF wedi cyfrannu at raglenni adfywio ffisegol yn seiliedig ar le, gan gynnwys:

- Adfywio canol dinas Abertawe (gan gynnwys adfywio safleoedd adfeiliedig y glannau) gyda'r nod o wella delwedd y ddinas a denu buddsoddwyr ac ymwelwyr.
- Adfywio hen ddociau a safleoedd purfa olew BP ym Mhort Talbot i ysgogi twf swyddi ac arallgyfeirio'r economi leol.
- Adfywio hen waith dur Glynebwy yn ddatblygiad defnydd cymysg i ddarparu swyddi newydd ac adfer balchder yn yr ardal leol.

10.3 Mae Tabl 9.4 isod yn rhoi'r prif enghreifftiau o ble y cynlluniwyd buddsoddiadau i ategu seilwaith arall. Mae'r cysylltiadau amlycaf rhwng buddsoddiadau mewn safleoedd ac eiddo a thrafnidiaeth. Canfu'r astudiaeth lai o enghreifftiau o fuddsoddi mewn cyfleusterau ymchwil ac arloesi a gynlluniwyd i ategu mathau eraill o seilwaith (ar wahân i gyfleusterau Technium), er gwaetha'r ffaith bod hyn yn cyfrif am gyfran fawr o'r buddsoddiad mewn rhai ardaloedd (e.e. Abertawe). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod buddsoddiadau yn rhaglen 2007-13 wedi'u harwain yn bennaf gan brifysgolion yn hytrach na Llywodraeth Cymru neu gynghorau lleol, a'u bod yn ymateb i amcanion polisi cenedlaethol yn hytrach na rhaglenni adfywio ar sail ardal. Dywedodd ymgyngoreion ei bod yn anodd cysoni'r blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac arloesi ag amcanion partneriaid o ran buddsoddi mewn seilwaith ffisegol ac adfywio.

10.4 Mae'r tabl hefyd yn cyflwyno casgliadau'r gwerthusiad ynghylch a yw seilwaith wedi'i ddefnyddio mewn ffordd sy'n ategu seilwaith arall yn ymarferol, gan ddefnyddio sgôr Coch-Oren-Gwyrdd:

- Mae blychau wedi'u hamlygu mewn gwyrdd lle ceir tystiolaeth glir bod y seilwaith yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n ategu seilwaith arall.
- Mae oren yn golygu bod y dystiolaeth yn aneglur, neu lle mae rhywfaint o dystiolaeth o ddefnydd ategol ond nid yw hyn cystal ag y gallai fod.
- Mae coch yn golygu nad oes tystiolaeth bod y seilwaith yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n ategu seilwaith arall.

**Tabl 9.4: Enghreifftiau o sut y cynlluniwyd seilwaith i'w ddefnyddio mewn ffordd sy'n ategu seilwaith arall**

| | Sut y cafodd ei gynllunio i ategu seilwaith arall? | A yw hyn wedi digwydd? |
|---|---|---|
| **Safleoedd ac eiddo – Trafnidiaeth** | **SA1**: darparodd buddsoddiad ym Mhorth Fabian fynediad i safle SA1 i ddefnyddwyr safleoedd ac eiddo newydd. | Datblygiad ar raddfa fawr yn SA1, y mae'r rhan fwyaf ohono'n cael ei feddiannu ac mae Porth Fabian yn dal i ddarparu mynediad allweddol |
| | **Port Talbot**: fe wnaeth buddsoddi mewn Ffordd Ddosbarthu Ymylol newydd wella mynediad i Faglan a rhyddhau tir i'w ddatblygu yn ardal yr hen ddociau. | Mae niferoedd da o feddianwyr ym mhentref Ymchwil a Datblygu Glannau'r Harbwr ac ni ellid bod wedi'i ddatblygu heb fuddsoddiad ffordd |
| | **Port Talbot**: Cyflogaeth strategol yng Nghlannau'r Harbwr wedi'i lleoli'n agos at orsaf drenau Port Talbot, y gwnaed gwelliannau iddi, er mwyn gwneud y safle'n fwy deniadol. | Rhy gynnar i asesu gan fod y rhan fwyaf o safle Glannau'r Harbwr eto i'w gwblhau |
| | **Glynebwy**: fe wnaeth buddsoddi mewn Ffordd Ddosbarthu Ymylol newydd wella mynediad i'r safle er mwyn hwyluso adfywio, gan gynnwys safleoedd ac eiddo cyflogaeth newydd | Mae rhywfaint o waith datblygu eiddo newydd wedi digwydd yn ddiweddar ond ar raddfa fach ac mae potensial datblygu sylweddol yn parhau |
| | **Glynebwy**: ailagor rheilffordd a gorsaf Cwm Ebwy yn nhref Glynebwy gyda'r nod o wella cysylltedd a gwneud safleoedd ac eiddo cyflogaeth yn fwy deniadol gan gynnwys EVIC. | Fel uchod, er bod ymgyngoreion yn adrodd bod EVIC bron yn llawn a'i fod wedi elwa o gysylltiadau rheilffordd. |
| | **Glynebwy**: buddsoddiad yn Rhyd-y-Blew wedi'i gynllunio i fanteisio ar well cysylltedd ffyrdd drwy fuddsoddiad Blaenau'r Cymoedd. | Mae'r safle'n dal heb ei ddatblygu ond disgwylir i ddatblygiad hapfasnachol ddechrau'n fuan |
| | **Caergybi**: safle cyflogaeth Parc Cybi wedi'i ddylunio i ategu gwell mynediad i Gaergybi ar hyd yr A55 (heb ei ariannu gan ERDF) | Mae'r safle'n dal heb ei ddatblygu ond bydd yn cael ei ddefnyddio'n fuan fel Cyfleuster Ffiniau Mewndirol |
| **Campysau AB – Safleoedd ac eiddo** | **Glynebwy**: buddsoddi mewn cyfleusterau AB newydd ochr yn ochr â safleoedd cyflogaeth y Gweithfeydd gyda'r nod o annog ymgysylltiad rhwng y coleg a busnesau lleol | Ychydig iawn o gyflogwyr sydd wedi'u lleoli ar y safle ar hyn o bryd oherwydd diffyg datblygiad, ond mae'r coleg yn darparu rhai cyrsiau seiberddiogelwch newydd o ganlyniad i ymgysylltu â Thales |
| **Campysau AB – Trafnidiaeth** | **Glynebwy**: lleoli PDBG ger yr orsaf drenau newydd gyda'r bwriad o wneud y coleg yn fwy hygyrch i fyfyrwyr a gwella cysylltiadau â champysau eraill. | Dangosodd arolwg teithwyr ar reilffordd Cwm Ebwy fod 9% o deithwyr yn defnyddio'r trên i gyrraedd y coleg/prifysgol. Dywed yr ymgyngoreion fod myfyrwyr yn defnyddio'r trên i gyrraedd campysau eraill Coleg Gwent sy'n galluogi'r coleg i gynnig mwy o gyrsiau. |
| | **Glynebwy**: arweiniodd y Ffordd Ddosbarthu Ymylol at wella mynediad i'r Gweithfeydd, gan gynnwys y PDBG. | Nid oes data ar gael ar faint o fyfyrwyr sy'n defnyddio'r Ffordd Ddosbarthu Ymylol i gael mynediad i'r coleg ond mae'r gwerthusiad ohoni yn dangos bod mynediad wedi gwella |
| **Seilwaith Ymchwil a Datblygu - Safleoedd ac Eiddo** | **Canolfannau Technium**: wedi'u lleoli mewn parciau busnes newydd i annog busnesau sy'n gadael y ddeorfa i aros yn yr ardal (e.e. Canolfan Arloesedd Bae Baglan a Technium 2). | Dim tystiolaeth bod busnesau wedi symud o Ganolfannau Technium i safleoedd busnes lleol. Yn Abertawe adroddwyd bod llawer o'r tenantiaid gwreiddiol yn dal yn adeilad Technium2. |
| **Seilwaith twristiaeth - Trafnidiaeth** | **Abertawe**: buddsoddi mewn seilwaith cerdded/beicio a gynlluniwyd i wella cysylltiadau rhwng canol y ddinas a'r Ardal Forol, gan gynnwys Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, a gwella profiad ymwelwyr. | Dywedwyd bod Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a'r seilwaith cerdded/beicio yn cael eu defnyddio'n dda sydd wedi cyfrannu at fywiogrwydd yr Ardal Forol. |
| **Safleoedd ac eiddo – Safleoedd ac eiddo** | **SA1 a Phort Talbot**: buddsoddiadau mewn eiddo newydd gyda'r bwriad o hybu buddsoddiad cychwynnol mewn eiddo newydd eraill | Credai'r ymgyngoreion fod hyn wedi bod yn llwyddiannus ond dim tystiolaeth glir i brofi hyn. Efallai fod hyn yn wir cyn y dirywiad economaidd ond bu angen buddsoddiad cyhoeddus ar y datblygiadau diweddaraf. |

| | | |
|---|---|---|
| **Trafnidiaeth – Trafnidiaeth** | **Glynebwy**: Cynlluniwyd y Ffordd Ddosbarthu Ymylol i ddarparu cyswllt cyflym ac uniongyrchol i'r A465 y gwnaed gwelliannau iddi, gan wella cysylltedd ar gyfer Y Gweithfeydd. | Nid oes dim data ar gael ar ddefnydd ond mae gwerthusiad o'r Ffordd Ddosbarthu Ymylol yn dangos bod hyn yn llwyddiannus |
| | **Glynebwy**: Rheilffordd halio wedi'i dylunio i wella mynediad i ganol y dref i bobl sy'n cyrraedd yr orsaf drenau newydd. | Mae'r arolwg o ddefnyddwyr y Ffordd Gebl yn dangos bod llai na 5% o ddefnyddwyr yn dod o'r orsaf drenau ac mae oriau gweithredu'n golygu na all unrhyw ddefnyddwyr rheilffordd ddefnyddio'r ffordd gebl ar benwythnosau a gyda'r nosau. |
| | **Caergybi**: pont droed newydd i gerddwyr wedi'i dylunio i fanteisio ar y cynnydd yn y capasiti ym Mhorthladd Caergybi a'r A55, i ddenu mwy o ymwelwyr i ganol y dref | Dim data ar ddefnydd ond noda'r ymgyngoreion mai dim ond cyfran fach o ddefnyddwyr y porthladd sy'n ymweld â chanol y dref |

Buddion i economïau rhanbarthol

10.5 Mae'r gwerthusiad hefyd wedi asesu a yw buddsoddiad mewn seilwaith wedi gweithio gyda'i gilydd er budd yr economi ranbarthol. Cymysg yw'r dystiolaeth ar gyfer hyn ac, mewn llawer o achosion, nid yw'n glir.

10.6 Mae'r astudiaethau achos yn rhoi enghreifftiau niferus o brosiectau adfywio ffisegol llwyddiannus sydd wedi adfer safleoedd diffaith ac anneniadol i gyflwr sy'n eu galluogi i gael eu hailddefnyddio'n gynhyrchiol (SA1, Parc Ynni Baglan, Glannau'r Harbwr a'r Gweithfeydd). Ym Maglan ac SA1 mae hyn wedi cynnwys datblygu eiddo cyflogaeth newydd ar raddfa fawr sy'n gartref i nifer fawr o swyddi ac y mae asiantau masnachol yn dweud eu bod yn lleoliadau busnes deniadol. Fodd bynnag, mae ansicrwydd o hyd ynghylch i ba raddau y mae adfywio'r ardaloedd hyn wedi cyfrannu at wella perfformiad economaidd rhanbarth y De-orllewin.

10.7 Mae'r achos ar ei gryfaf mewn perthynas â SA1 yn Abertawe sy'n gartref i 27% o swyddi'r ddinas yn y gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Dangosodd Pennod 4 mai'r sectorau hyn fu'r prif ysgogydd twf mewn Gwerth Ychwanegol Gros a chyflogaeth yn Abertawe ers dechrau'r ganrif hon, ac yn ei dro mae wedi dod yn ardal sy'n perfformio orau yn Ne-orllewin Cymru. Gellir cyflwyno dadl gredadwy felly bod SA1 wedi cyfrannu at dwf rhanbarthol drwy ddarparu lleoliad newydd, deniadol ar gyfer y sectorau gwasanaeth gwerth uchel hyn, a'i fod wedi trawsnewid safle tir llwyd segur mewn lleoliad allweddol yn y broses. Mae'r ffaith bod swyddfeydd newydd a gyflwynwyd i'r farchnad wedi bod yn gyfyngedig drwy gydol y cyfnod hwn oherwydd cyfyngiadau hyfywedd hefyd yn awgrymu bod cyflawni SA1 wedi helpu i ddarparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen er mwyn i'r sectorau hyn dyfu.

10.8 Ym Mharc Ynni Baglan, er y bu rhywfaint o dwf mewn gweithgynhyrchu yn ogystal â nifer o fusnesau bach uwch-dechnoleg, mae dros hanner y twf swyddi wedi bod yn y sector cyhoeddus sy'n awgrymu bod buddion economaidd ychwanegol i'r economi ranbarthol wedi bod yn gyfyngedig hyd yma. Fodd bynnag, mae angen rhoi hyn yng nghyd-destun yr heriau sylweddol sy'n wynebu Port Talbot, gan gynnwys y nifer fawr o safleoedd tir llwyd halogedig a diffaith, delwedd wael y dref oherwydd y gwaith dur ac ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol y diwydiant dur lleol. Arafodd dirywiad economaidd 2008/9 hefyd y cynnydd a'i gwneud yn llawer anoddach datblygu'r eiddo sydd ei angen i ddenu buddsoddiad a chefnogi twf.

10.9 Yn y cyd-destun hwn, mae'r gwerthusiad yn canfod bod buddsoddiadau ERDF wedi gwneud cyfraniad pwysig at ddarparu'r amodau ar gyfer twf yn y dyfodol, gan gynnwys darparu parciau busnes newydd o ansawdd uchel y mae galw amdanynt gan fusnesau lleol a chenedlaethol.

10.10 Mewn achosion eraill mae'n amlwg nad yw canlyniadau economaidd bwriadedig rhaglenni buddsoddi wedi'u cyflawni eto, gan gynnwys adfywio canol dinas Abertawe ac adfywiad economaidd Glynebwy. Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos y cyfnod hir o amser sydd ei angen i raglenni buddsoddi gyflawni eu hamcanion (yn enwedig pan fydd hyn yn cynnwys dirwasgiad mawr) a'r angen am fuddsoddiad cyhoeddus parhaus i oresgyn y newidiadau strwythurol a'r heriau cysylltiedig sy'n wynebu rhai ardaloedd.

10.11 Fodd bynnag, mae arwyddion o gynnydd yn y ddau faes, a gellir priodoli llawer ohonynt i fuddsoddiadau ERDF.

- Yng nghanol dinas Abertawe, mae hyn yn cynnwys Ardal Forol fwy bywiog, hybiau trafnidiaeth gwell sy'n cael eu defnyddio'n helaeth, amgylchfyd cyhoeddus gwell, gwell llwybrau cerdded/beicio a chysylltiadau cryfach rhwng y craidd manwerthu a'r glannau. At hynny, mae buddsoddiadau ERDF a wnaed ar draws y ddwy raglen yn parhau i ategu buddsoddiadau diweddar sydd â'r nod o adfywio'r ddinas a'i hailgysylltu â'r glannau (e.e. Bae Copr).
- Ym Mlaenau Gwent, mae datblygiad diweddar NDEC ynghyd ag unedau busnes newydd yn Y Gweithfeydd a'r datblygiad hapfasnachol arfaethedig o ofod diwydiannol newydd yn Rhyd-y-Blew yn rhoi rhywfaint o obaith y gallai hyn arwain at greu swyddi ar ôl 20 mlynedd o gyflogaeth ddigyfnewid neu ddirywiad mewn cyflogaeth.

A fu unrhyw ddadleoli o brosiectau hŷn i brosiectau mwy diweddar yn yr un rhanbarth (nad ydynt o reidrwydd wedi'u hariannu gan ERDF)?

10.12 Dim ond un enghraifft y mae'r gwerthusiad wedi'i nodi o feddiannydd eiddo a ariannwyd yn ystod rhaglen 2000-06 yn adleoli i eiddo newydd a ariannwyd yn ystod rhaglen 2007-13 (ond gallai hyn adlewyrchu bylchau yn y data sydd ar gael). TWI oedd hwn, a symudodd o Fargam i Lannu'r Harbwr ym Mhort Talbot. Dywedodd ymgyngoreion o TWI fod yr adleoli hwn wedi arwain at nifer o fuddion gan gynnwys cynhyrchiant gwell a denu a chadw staff. Serch hynny, mae'r ffaith ei bod yn ymddangos bod yr eiddo blaenorol bellach wedi'i ddymchwel yn codi cwestiynau ynghylch gwerth am arian ac a ellid bod wedi gwneud mwy i ddod o hyd i ddefnydd newydd i'r adeilad blaenorol.

10.13 Mae enghreifftiau eraill o ddadleoli o seilwaith hŷn i seilwaith mwy newydd (lle na chafodd y seilwaith hŷn ei ariannu gan ERDF) yn cynnwys:

- Y PDBG yng Nglynebwy, a ddisodlodd ac a gyfunodd nifer o golegau chweched dosbarth.
- Mae nifer o enghreifftiau o fusnesau sydd wedi symud o safleoedd yn y rhanbarth i safleoedd newydd a ariannwyd gan ERDF. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys Acorn Recruitment a Ministry of Furniture a symudodd i Barc Brunel ym Mae Baglan.

10.14 Yn y ddau achos, ni ddylai'r dadleoli hwn gael ei ystyried yn rhywbeth negyddol. Dywedodd ymgyngoreion ym Mlaenau Gwent fod y seilwaith newydd wedi gwella profiad dysgu i fyfyrwyr yn aruthrol. Mae cyfran y myfyrwyr sy'n cael canlyniadau da mewn arholiadau Safon Uwch wedi gwella'n gyson ers i'r Parth Dysgu ddisodli dosbarthiadau chwech lleol. Mae hefyd wedi perfformio'n gyson well na phob un o gampysau eraill Coleg Gwent (er y byddai angen rhagor o ymchwil i ddangos perthynas achosol).

10.15 Mae adleoli meddianwyr i eiddo mwy newydd hefyd yn cynrychioli gweithrediad arferol y farchnad eiddo. Mae'r adleoliadau hyn yn rhyddhau capasiti yn yr eiddo y maent yn ei adael, a fydd wedyn ar gael i fusnesau sy'n chwilio am arwynebedd llawr llai neu lety rhatach. Mae buddsoddiad ERDF mewn eiddo newydd wedi chwarae rhan arbennig o bwysig wrth hwyluso'r newid hwn oherwydd bod capasiti'r farchnad eiddo wedi'i gyfyngu'n ddifrifol yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae gwerthoedd rhentu isel wedi golygu na fu unrhyw ddatblygiadau hapfasnachol wedi'u harwain gan y farchnad yn unrhyw un o'r ardaloedd.

Nodi arfer gorau ar gyfer sicrhau'r berthynas fwyaf buddiol rhwng seilwaith hŷn a seilwaith newydd yn yr un ardal

10.16 Mae astudiaethau achos Abertawe a Phort Talbot yn rhoi'r enghreifftiau gorau o sut y mae seilwaith newydd wedi ategu seilwaith hŷn. Er enghraifft, yn Abertawe, mae buddsoddiadau diweddar a wnaed gan raglen Adfywio Bae Copr yn ategu ac yn adeiladu ar welliannau cynharach i'r amgylchfyd cyhoeddus a seilwaith cerdded a beicio a wnaed yn rhaglen 2007-13, a oedd yn ei dro yn ategu buddsoddiadau cynharach yn yr Ardal Forol megis Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn 2000-06. Ym Mhort Talbot, cafodd buddsoddiadau mewn safleoedd ac eiddo yn yr hen ddociau a Pharc Ynni Baglan fudd o'r buddsoddiad cynharach mewn seilwaith ffyrdd gwell yn y dref.

10.17 Nid yw'r gwerthusiad wedi nodi enghreifftiau penodol o arfer gorau ar gyfer sicrhau'r berthynas fuddiol hon, y tu hwnt i gael gweledigaeth glir, hirdymor sy'n llywio rowndiau buddsoddi olynol. Mae'r weledigaeth hon yn glir yn Abertawe a Phort Talbot, lle y dywedodd yr ymgyngoreion ei bod wedi caniatáu iddynt wneud gwelliannau graddol a chynyddrannol dros amser yn unol â'r weledigaeth.

10.18 Mae gwersi pwysig eraill sy'n deillio o'r gwerthusiad fel a ganlyn:

- Dylai seilwaith adeiladu ar gryfderau presennol. Mae'r buddsoddiad yn SA1 wedi bod yn llwyddiannus yn bennaf oherwydd ei fod yn manteisio ar gryfderau presennol Abertawe yn y maes gwasanaethau ariannol a phroffesiynol ac addysg uwch ond hefyd ei leoliad ar y glannau. Yn yr un modd, mae buddsoddiadau seilwaith yn yr Ardal Forol wedi adeiladu ar asedau presennol ac wedi gwella bywiogrwydd yr ardal hon.
- Dylai strategaethau gael eu hategu gan gyfres o brosiectau seilwaith a dylent ddilyn trefn resymegol. Dylai seilwaith trafnidiaeth trawsnewidiol ar raddfa fawr fel Blaenau'r Cymoedd a'r Ffordd Ddosbarthu Ymylol ym Mhort Talbot fod yn gonglfaen strategaethau, ond mae angen dilyn y rhain gan fuddsoddiadau eraill sy'n manteisio'n llawn ar y seilwaith hwn (yn enwedig safleoedd ac eiddo). Er bod hyn bellach yn digwydd ar safle Rhyd-y-Blew yng Nglynebwy, nododd rhanddeiliaid lleol rywfaint o rwystredigaeth ynghylch yr amser y mae wedi'i gymryd.
- Mae angen i lywodraeth leol a rhanbarthol chwarae rhan ganolog mewn cynllunio seilwaith. Y sefydliadau hyn sydd yn y sefyllfa orau i nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r ardal leol, ac i ddatblygu strategaethau seilwaith cydgysylltiedig hirdymor i gefnogi twf lleol. Mae angen i hyn hefyd sicrhau atebolrwydd i fusnesau a phreswylwyr lleol o ran sut y caiff cyllid ei wario.
- Mae angen i lywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol gydnabod natur hirdymor y broses adfywio mewn ardaloedd sy'n destun newid strwythurol, a'r angen am fuddsoddiad cyhoeddus parhaus dros gyfnodau hir o amser. Mae'n bwysig bod yn realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni yn y tymor byr a mesur/cydnabod cynnydd bach a graddol tuag at gyflawni'r weledigaeth hirdymor.
- Yn ogystal â sicrhau bod y strategaeth yn un hirdymor, mae angen iddi hefyd fod yn hyblyg ac yn ymaddasol, gan gydnabod y bydd digwyddiadau mawr,

newidiadau polisi a thechnolegol/economaidd yn cyflwyno heriau newydd. Ymysg yr enghreifftiau yn yr astudiaeth hon mae newid mewn patrymau siopa, sydd wedi atal cynnydd cynlluniau adfywio canol trefi sy'n dibynnu ar fuddsoddiad manwerthu.

- Dylai buddsoddiadau mewn safleoedd ac eiddo gael eu hategu gan dystiolaeth glir o alw yn y farchnad, nid dim ond angen strategol. Mae nifer o enghreifftiau o safleoedd strategol yn parhau heb eu datblygu oherwydd bod y galw yn y farchnad yn wan, gan gynnwys Parc Cybi yng Nghaergybi a Pharc Bryn Cegin ym Mangor.

Pa fuddion cymunedol y mae prosiectau wedi'u cyflwyno hyd yn hyn?

10.19 Mae'r prif fuddion cymunedol a nodwyd gan y gwerthusiad fel a ganlyn:

- Mae trawsnewid ardaloedd a fu gynt neu heb eu defnyddio'n ddigonol yn fannau cymunedol a ddefnyddir yn aml wedi bod yn fudd allweddol a ddeilliodd o raglenni sy'n seiliedig ar ardal a oedd yn cynnwys ERDF. Yr enghreifftiau gorau o hyn yw
  - yr Ardal Forol yn Abertawe, lle mae buddsoddiadau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, yr amgylchfyd cyhoeddus a seilwaith cerddwyr wedi ffurfio conglfaen y clwstwr hamdden o amgylch y marina, gan gyfrannu at fwy o fywiogrwydd a chynyddu niferoedd yr ymwelwyr.
  - Y Gweithfeydd yng Nglynebwy, sydd wedi trawsnewid hen safle'r gwaith dur yn dirwedd werdd a modern ddeniadol yn gartref i amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol.
- Mae buddsoddiadau mewn gwasanaethau rheilffordd gwell wedi gwella mynediad at gyfleoedd hamdden yn sylweddol ac wedi'i gwneud yn haws i bobl ymweld â ffrindiau a theulu a chael mynediad at gyfleusterau addysg ac iechyd. Yn ôl yr arolwg o breswylwyr Glynebwy, mae cyfran fawr o breswylwyr yn credu bod ailagor rheilffordd Cwm Ebwy wedi gwneud cyfraniad positif sylweddol i'r ardal, ac ategwyd hyn gan yr ymgyngoreion.
- Mae'r arolwg o breswylwyr hefyd yn dangos y bu nifer o fuddsoddiadau ERDF eraill sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan breswylwyr, gan gynnwys prif ffyrdd a chyfleusterau AB newydd ym Mlaenau Gwent (Blaenau'r Cymoedd a PDBG), campysau prifysgol newydd a seilwaith cerdded/beicio yn Abertawe a'r orsaf drenau well ym Mhort Talbot.

**Adran gyfeiriadau**


4theregion (2021): Landmark bridge installed as Swansea's £1bn regeneration progresses | 4theRegion

Academy of Urbanism (2019): Maritime Quarter, Swansea | Assessment for the Great Place Award 2019

Adfywio Cymru (2013): Holyhead Empty Shops Case Study

Amgueddfa Cymru (2021): Ebrill 2019 - Mawrth 2020 | Cyfanswm ymwelwyr ag Amgueddfa Cymru

Applied Planning (2012): Astudiaeth Manwerthu Gwynedd ac Ynys Môn

BBC (2001): Energy park's £4m jobs hope. BBC News | WALES | Energy park's £4m jobs hope

BBC (2013): Holyhead views sought to help regenerate town - BBC News

BDP (2021): Swansea City Centre Repurposing Strategy

BE Group (2019): Blaenau Gwent Employment Land Review

Blaenau Gwent (2013b): Works: Primary Distributor Route – Business Plan

Blaenau Gwent (2018): Service Review - Ebbw Vale Cableway

Blaenau Gwent (2019): Post 16 Learning Outcomes at Blaenau Gwent Learning Zone

CBS Blaenau Gwent (2012): Parth Dysgu Blaenau Gwent – Cynllun Busnes

CBS Blaenau Gwent (2013a): The Works Design and Masterplan

CBS CNPT (2009): Canllawiau Cynllunio Atodol drafft Prif Gynllun Canol Port Talbot, Mawrth 2009

CBS CNPT (2016): CCA Fframwaith Datblygu Parc Ynni Baglan, Hydref 2016

Cyngor Dinas Abertawe (2008): Swansea - Unitary Development Plan

Cyngor Dinas Abertawe (dyddiad anhysbys): Swansea 2020, Swansea's Economic Regeneration Strategy

Dalling, R. (2018): The incredible transformation of Swansea's Fabian Way corridor - Wales Online

Dickins, S. (2021): Ebbw Vale glass factory to create 650 jobs - BBC News

DTZ, Chapman Taylor, Vectos, Emotional Logic ac Owen Griffiths (2015): Swansea City Centre Strategic Framework Review - Consultation Draft January 2015

Gleeds (2015): Post Project Evaluation of The Works Primary Distributor Route

Jones, R. (2015): Things to do in Swansea over October half term when it's raining - Wales Online

Llywodraeth Cymru (2002): Cymru'n Ennill: Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cymru (2004): Cynllun Gofodol Cymru

Llywodraeth Cymru (2010): Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd

Llywodraeth Cymru (2021): Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mair, L. (2013): Swansea seeks new developer as Hammerson drops shopping centre plans | Construction News

ONS (2000): Arolwg o'r Llafurlu drwy Nomis - Official Labour Market Statistics

ONS (2000): Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth drwy Nomis - Official Labour Market Statistics

ONS (2000): Ymholiad Busnes Blynyddol trwy Nomis - Official Labour Market Statistics

ONS (2021a): Dwysedd Swyddi, drwy Nomis - Official Labour Market Statistics

ONS (2021a): Regional gross value added (balanced) per head and income components

ONS (2021b): Subregional productivity in the UK

ONS (2021c): Regional gross value added (balanced) by industry: all ITL regions

ONS (2021d): Regional gross value added (balanced) by industry: local authorities by ITL1 region

ONS (2021e): Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth drwy Nomis - Official Labour Market Statistics

ONS (2021f): Subregional productivity: labour productivity indices by local authority district

ONS (2022b): Amcangyfrifon diweithdra ar sail model drwy Nomis - Official Labour Market Statistics

PCYDDS (2018): Exciting year ahead for SA1 Swansea Waterfront development

Perez, J. (2022): 25 new commercial units could be built in Ebbw Vale – Denbigh Biz

Prifysgol Caerdydd ac Ysgol Fusnes Nottingham (2021): Mynegai Cystadleurwydd y DU 2021

Tŷ’r Cwmnïau (2022): Cofrestr Tŷ'r Cwmnïau

Y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd (2021): Estimates of station usage | ORR Data Portal

Y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd (2022) Estimates of station usage | ORR Data Portal

Youle, R. (2018): Ambition, growth and crisis: The success and failure of rebuilding Swansea's docklands, Wales Online